Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol 2026-27

Heddlu • Police
DYFED-POWYS

# Tabl Cynnwys

**Tabl Cynnwys** .......... **2**
**Trosolwg** .......... **5**
**1. Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol** .......... **6**
1.1. Cyflwyniad .......... 6
1.2. Cyd-destun .......... 6
1.3. Egwyddorion .......... 7
1.4. Adolygu .......... 7
**2. Côd Llywodraethu Corfforaethol** .......... **8**
2.1. Cyflwyniad .......... 8
2.2. Egwyddorion llywodraethu da .......... 8
**3. Cynllun Llywodraethu Corfforaethol** .......... **13**
3.1. Y berthynas rhwng Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl .......... 13
3.2. Materion Ariannol .......... 13
3.3. Materion Cyflogaeth .......... 13
3.4. Cyflenwadau a Gwasanaethau .......... 15
3.5. Technoleg Gwybodaeth .......... 15
3.6. Ymgysylltu .......... 15
3.7. Gwybodaeth .......... 16
3.8. Mynediad i Safleoedd a Phersonél .......... 18
3.9. Ystadau .......... 18
**4. Cynllun Dirprwyo** .......... **19**
4.1. Egwyddorion Cyffredinol .......... 19
4.2. Dirprwyaethau gan CHTh i'r Prif Weithredwr (PW) a'r Swyddog Monitro (PW) .......... 20
4.3. Dirprwyaethau gan CHTh i'r Prif Swyddog Cyllid (PSC) .......... 24
4.4. Dirprwyaethau gan y Prif Gwnstabl .......... 25

**5. Gwneud Penderfyniadau ....29**

5.1. Cyflwyniad ....29

5.2. Strwythur Llywodraethu ....29

5.3. Blaenraglen Waith ....30

**6. Rheoliadau Ariannol ....31**

6.1. Diffiniadau ....31

6.2. Diben ....31

6.3. Statws ....31

6.4. Rôl Prif Swyddog Cyllid (PSC) y CHTh ....32

6.5. Rôl y Cyfarwyddwr Cyllid y PG (CC) ....33

**7. ADRAN A Fframwaith Rheolaeth Ariannol ....34**

7.1. Safonau Rheolaeth Ariannol ....34

7.2. Systemau Cyfrifyddu, Cofnodion a Dychweliadau ....34

7.3. Y Datganiad Blynyddol o Gyfrifon ....35

**8. ADRAN B Cynllunio a Rheoli Ariannol ....37**

8.1. Cynllunio Ariannol ....37

8.2. Rheoli Cyllideb ....39

8.3. Rhaglen Gyfalaf ....43

8.4. Cadw Balansau a Chronfeydd wrth Gefn ....45

**9. ADRAN C Rheoli Risg ac Adnoddau ....46**

9.1. Rheoli Risg a Pharhad Busnes ....46

9.2. Rheolaethau Mewnol ....48

9.3. Gofynion Archwilio ....49

9.4. Atal Twyll a Llygredd ....53

9.5. Asedau ....55

9.6. Rheoli Trysorlys a Threfniadau Bancio ....59

9.7. Staffio ....62

9.8. Eiddo Tystiolaethol ac Eiddo Anhystiolaethol ....62

9.9. Rhoddion, Benthyciadau a Nawdd ....63

**10. ADRAN Ch Systemau a Gweithdrefnau .... 65**

10.1. Cyffredinol .... 65

10.2. Incwm .... 66

10.3. Archebu a Thalu am Waith, Nwyddau a Gwasanaethau .... 68

10.4. Trethiant .... 69

10.5. Cardiau Credyd Corfforaethol, Cardiau Caffael a Chardiau Tanwydd .... 70

10.6. Taliadau Gwirfoddol .... 70

**11. ADRAN D Trefniadau Allanol .... 72**

11.1. **Cyllid Allanol** .... 72

11.2. Gweithio i Drydydd Parti .... 72

11.3. Trefniadau Cydweithio .... 73

**12. ADRAN Dd Terfynau Dirprwyedig .... 79**

**13. ADRAN E Nodiadau Cyfarwyddyd ar Dorri Rheolau Sefydlog neu Reoliadau Ariannol .... 83**

**14. Atodiad B: Rheolau Sefydlog Contractau .... 84**

## Trosolwg

Mae'r Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cyflwyno'r egwyddorion, y strwythurau a'r prosesau fydd yn llywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu (SCHTh) a Heddlu Dyfed-Powys, a hynny ar y cyd ac ar wahân.

Mae'r Fframwaith wedi'i ddylunio i gefnogi'r gwaith o gyflawni egwyddorion Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sydd yn eu Cynllun Heddlu a Throseddu.

Mae'r Fframwaith yn cynnwys y tair dogfen ganlynol:

1. **Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol** – sy'n rhoi eglurder ynghylch y ffordd y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn llywodraethu, a hynny ar y cyd ac ar wahân, i hwyluso ymgymryd â busnes yn effeithiol am y rheswm cywir ar yr amser cywir;

2. **Côd Llywodraethu Corfforaethol** – sy'n cyflwyno egwyddorion craidd llywodraethu da, fel y'u hamlinellir yn nodiadau cyfarwyddyd 2016 CIPFA ar gyfer Cyrff Plismona yng Nghymru a Lloegr, *Delivering Good Governance*; a

3. **Cynllun Llywodraethu Corfforaethol** – sy'n cyflwyno'r paramedrau y bydd y ddau sefydliad yn cynnal eu busnes o'u mewn i sicrhau yr ymgymerir â busnes yn effeithlon ac y gwneir penderfyniadau yn agored a thryloyw a heb ohirio diangen.

Mae'r Cynllun Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys:

- Cynllun Caniatâd;
- Cynllun Dirprwyo;
- Gwneud Penderfyniadau;
- Rheoliadau Ariannol; a
- Rheolau Sefydlog ar Gontractau.

Mae'r Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol wedi'i gefnogi gan y Strwythur Llywodraethu (5.2), polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau ar wahân, y cyfeirir atynt ac y rhoddir dolenni ar eu cyfer o fewn y dogfennau eu hunain. Bydd angen cymeradwyaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCTh) a'r Prif Gwnstabl ar gyfer unrhyw fater busnes sydd heb gael ymdriniaeth yn y dogfennau hyn.

# 1. Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol

## 1.1. Cyflwyniad

1.1.1. Diben y datganiad hwn yw cynnig eglurder ynghylch y ffordd y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) a'r Prif Gwnstabl (PG) yn llywodraethu, a hynny ar y cyd ac ar wahân, i hwyluso ymgymryd â busnes yn effeithiol, gan sicrhau y caiff system gadarn ei chynnal ar gyfer trefniadau rheoli mewnol gydol y flwyddyn.

1.1.2. Mae llywodraethu da yn annog gwneud penderfyniadau gwell a defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon. Mae llywodraethu da yn gwella'r ffordd y caiff sefydliad ei arwain a'i reoli, ac yn gwella'r trosolwg dros y sefydliad, ac mae hynny'n arwain at ganlyniadau da i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

## 1.2. Cyd-destun

1.2.1. Mae'r fframwaith statudol y bydd y corfforaethau undyn yn gweithredu o'i fewn fel a ganlyn:

- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (PRSRA)
- Gorchymyn Protocol Plismona 2011 (y Protocol)
- Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol
- Gofyniad Plismona Strategol
- Deddf yr Heddlu 1996
- Deddf Diwygio'r Heddlu 2002
- Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020
- Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) (Diwygiad) 2024
- Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygiad) 2021
- Rheoliadau'r Heddlu (Fetio) 2025
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

1.2.2. Bydd y fframweithiau rheoleiddiol hyn yn cael blaenoriaeth dros y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol hwn.

1.2.3. Mi fydd angen i'r CHTh a PG ofalu i gynnwys deddfwriaeth ychwanegol a nodwyd isod:

- Deddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004
- Mesur Yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cymru 2017
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Environment (Wales) Act 2016
- Deddf Diogelu Data 2018
- DU-Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (DU GDPR)
- Public Contracts Regulations 2015
- Procurement Act 2023
- Public Services (Social Value) Act 2012

1.3. Egwyddorion

1.3.1. Mae'r egwyddorion craidd a fabwysiadwyd gan y ddau sefydliad yn cydymffurfio â'r fframwaith rhyngwladol ar gyfer llywodraethu da, sy'n cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, gan alluogi CHTh a'r PG i fonitro cyflawniad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu a darparu gwasanaethau priodol, cost effeithiol gan gynnwys gwerth am arian:

- Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol,
- Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid,
- Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy,
- Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau bwriadedig,
- Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion o fewn yr endid,
- Rheoli risgiau a pherfformiad trwy drefniadau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus,
- Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio, er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Mae egwyddorion gwneud penderfyniadau da (a nodir yn y Polisi Penderfyniadau) hefyd yn berthnasol.

1.3.2. Bydd y CHTh a'r PG yn dilyn dull cydweithredol o rannu gwasanaethau a gwybodaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni eu cyfrifoldebau unigol.

1.3.3. Bydd y ddau barti yn glynu wrth y saith egwyddor a gyflwynir yn adroddiad cyntaf y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn 'Egwyddorion Nolan'.

1.4. Adolygu

1.4.1. Adolygir y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol hwn yn flynyddol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol neu ba bryd bynnag y mae'r CHTh, mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl, yn ystyried y bo angen. Mae cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo i'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol dros ymgymryd â'r broses o gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu..

1.4.2. Mae'r Cyd-Bwyllgor Archwilio (CBA) yn gyfrifol am gynnal, yn flynyddol o leiaf, adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, fframweithiau rheoli risg, gan gynnwys adroddiadau ariannol, prosesau llywodraethu blynyddol a chanfyd y diadau archwiliadau mewnol ac allanol.

1.4.3. Caiff unrhyw adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ei lywio gan waith y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, archwilwyr mewnol a rheolwyr sydd â chyfrifoldeb dros lywodraethu yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) ac yn yr Heddlu. Yn ogystal, bydd sylwadau gan archwilwyr allanol ac asiantaethau ac arolygiaethau adolygu eraill yn llywio unrhyw adolygiad.

# 2. Côd Llywodraethu Corfforaethol

## 2.1. Cyflwyniad

2.1.1. Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ar y cyd yn cyflwyno sut y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) a'r Prif Gwnstabl (PG) yn llywodraethu eu sefydliadau, a hynny ar y cyd ac ar wahân yn unol â'r polisi sydd wedi'i gynnwys yn y datganiad llywodraethu corfforaethol hollgwmpasog. Bydd yn gwneud hyn drwy amlygu'r galluogwyr allweddol ar gyfer sicrhau llywodraethu da.

## 2.2. Egwyddorion llywodraethu da

2.2.1. Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (2011) yn nodi swyddogaethau CHTh a'r PG ac mae Protocol Plismona 2023 yn nodi sut y bydd y swyddogaethau hyn yn cael eu gweithredu i gyflawni canlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu ac i gynorthwyo'r PG i gyflawni ei rôl ac mae'n amlinellu'r berthynas a ddisgwylir rhyngddynt.

2.2.2. Mae'r Côd Llywodraethu Corfforaethol yma wedi'i seilio ar y saith egwyddor sy'n sail i lywodraethu corfforaethol effeithiol a moesegol mewn gwasanaeth cyhoeddus fel yr amlinellir yn y [Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus (CIPFA/IFAC, 2014)]():

**Egwyddor A**: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.

- Mae CHTh a'r PG yn atebol am faint maent yn ei wario a sut maent yn defnyddio adnoddau o dan eu stiwardiaeth. Mae ganddynt gyfrifoldeb hollgwmpasog i wasanaethu budd y cyhoedd, gan gadw at ddeddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Rhaid iddynt ddangos priodoldeb eu camau gweithredu a chael mecanweithiau ar waith i annog a gorfodi ymlyniad at werthoedd moesegol ac i barchu'r rheol gyfreithiol.
- Mae CHTh a'r PG wedi ymrwymo i gyfrannu at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang drwy ystyried pa un ai a all unrhyw gamau gweithredu i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru wneud cyfraniad cadarnhaol i les fyd-eang. Mae hyn yn cynnwys ystyried effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol eu gweithredoedd.
- Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r CHTh gael ***Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyllid***[1]. Y Prif Weithredwr fydd y pennaeth gwasanaeth cyflogedig a bydd yn ymgymryd â chyfrifoldebau'r swyddog monitro[2].
- Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r PG benodi ***Prif Swyddog Cyllid***[3]
- Mae Protocol Plismona 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bartïon gadw at saith ***egwyddor bywyd cyhoeddus***[4] a bydd y rhain wrth wraidd ymddygiad pawb.
- Mae'r protocol hefyd yn amlygu'r disgwyliad y bydd y berthynas rhwng pob parti yn seiliedig ar egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth. Mae'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r CHTh a'r PG sicrhau bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu

[1] PRSRA atodlen 1 p6
[2] Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a5
[3] PRSRA atodlen 2 p4
[4] Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, 2005 fel y'u diwygiwyd gan 14eg adroddiad y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

hymgorfforі yn y ffordd y mae sefydliadau'n gweithredu.

- Mae'r ddwy Gorfforaeth Undyn yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw, gyda phrosesau mewn grym i gefnogi'r egwyddor graidd o foeseg ac unplygrwydd, sydd yn unol â Chod Moeseg y Coleg Plismona.
- Mae dwy ran i God Moeseg 2024, ac nid yw'r un ohonynt yn statudol.
- Mae egwyddorion plismona moesegol yn rhoi cymorth o ran gwneud penderfyniadau moesegol.
- Mae canllawiau ar gyfer ymddygiad moesegol a phroffesiynol mewn plismona'n nodi'r disgwyliadau ar gyfer sut y dylai gweithwyr proffesiynol plismona ymddwyn mewn ffordd sy'n gwneud hi'n haws iddynt ddeall a dilyn.
- Mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu fwy o gyfrifoldeb nawr ar gyfer craffu ar benderfyniadau a wneir gan baneli diswyddo drwy ddal penderfyniadau diswyddo i gyfrif hefyd. Mae'r Comisiynydd yn dewis aelodau annibynnol i eistedd ochr yn ochr â'r cadeirydd a chynghorwyr cyfreithiol cefnogol, er mwyn sicrhau yr osgoir unrhyw wrthdaro o ran buddiannau a chynnal tegwch unrhyw wrandawiadau.
- Mae'r protocol hefyd yn amlygu'r disgwyliad y bydd y berthynas rhwng pob parti yn seiliedig ar egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth.
- Mae'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r CHTh a'r PG sicrhau bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu hymgorffori yn y ffordd y mae'r sefydliadau'n gweithredu.

**Egwyddor B**: Bod yn agored a sicrhau yr ymgysylltir yn gynhwysfawr â rhanddeiliaid.

- Mae Gorchymyn Protocol Plismona 2023 hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod CHTh yn atebol i bobl leol a'u bod nhw'n tynnu ar y mandad hwn i osod a llunio'r amcanion strategol ar gyfer yr ardal heddlu, mewn ymgynghoriad â'r PG.
- Mae plismona'n gweithredu er budd y cyhoedd. Rhaid i weithgareddau fod yn agored ac yn dryloyw. Defnyddir sianeli cyfathrebu ac ymgynghori clir i ymgysylltu'n effeithiol â'r holl randdeiliaid.
- Mae Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu'n nodi'n glir sut y bydd pobl leol yn gysylltiedig â'r CHTh a'r PG er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o'r broses benderfynu, atebolrwydd a'r cyfeiriad i'r dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys bod yn rhan o'r trefniadau cynllunio blynyddol a dod yn rhan o faterion sydd o ddiddordeb i bobl leol wrth iddynt ddod i'r amlwg.
- Mae'r cynllun cyhoeddi'n sefydlu'r modd y bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniadau ar gael i bobl leol, lle bydd y rhai sydd o fwy o fudd i'r cyhoedd yn cael y lefel uchaf o amlygrwydd, ac eithrio lle mae cyfyngiadau gweithredol a chyfreithiol yn bodoli.
- Mae'r Panel Heddlu a Throseddu yn cydbwyso grym y CHTh trwy adolygu neu graffu ar ei benderfyniadau. Yn bennaf, mae'n cynnwys cynghorwyr a enwebwyd o bob un o'r awdurdodau lleol ac maent yn cyfarfod yn gyhoeddus. Mae ganddynt gyfrifoldebau penodol i graffu ar benderfyniadau ynghylch gosod praesept, cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu, a phenodi a diswyddo'r PG ac uwch bersonél eraill.

**Egwyddor C**: Diffinio deilliannau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

- Mae'r CHTh wedi cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n nodi'r amcanion heddlu a throseddu a'r cyfeiriad strategol ar gyfer plismona ardal Dyfed-Powys.
- Mae cytundebau cydweithio'n nodi'r meysydd busnes hynny sydd i'w cynnal ar y cyd â Heddluoedd eraill, Cyrff Plismona Lleol a phartneriaid eraill, i leihau

cost, gwella effeithlonrwydd neu wella'r gallu i amddiffyn pobl leol.

- Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddatblygu ar y cyd rhwng y CHTh a'r PG er mwyn cefnogi cyflenwi. Mae'r rheoliadau ariannol yn sicrhau trefniadau cywir ar gyfer rheolaeth ariannol.
- Mae Fframwaith Comisiynu CHTh yn cynnwys blaenoriaethau a bwriadau comisiynu.
- Cytunwyd ar Brotocol Cwynion er mwyn cynnig eglurder ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer ymateb i hyd a lled y pryderon a godir gan bobl leol, boed hwy'n honiadau o bryderon/methiannau unigol neu sefydliadol.
- Mae Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio yn nodi ymrwymiad Heddlu Dyfed-Powys i gyflawni Sero Net erbyn 2050.

**Egwyddor Ch**: Pennu'r ymyriadau y mae eu hangen i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn y ffordd orau posibl.

- Mae CHTh a'r heddlu yn cyflawni canlyniadau bwriadedig trwy gymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol. Mae penderfynu ar y cymysgedd cywir yn bwysig ac mae angen mecanweithiau cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau canlyniadau mewn ffordd sy'n sicrhau'r cyfaddawd gorau rhwng mewnbynnau adnoddau a darparu gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon. Rhaid adolygu penderfyniadau'n barhaus i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau. Mae gweithredu polisi fel arfer yn cynnwys dewis o ran dull, amcanion, blaenoriaethau a dadansoddi costau a buddion. Rhaid i'r CHTh a'r PG sicrhau eu bod yn cael mynediad i sgiliau a thechnegau priodol.
- Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig CHTh a'r PG yn ffurfio sail y cyllidebau blynyddol ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwerthuso cynigion yn y dyfodol.
- Mae'r gofyniad adrodd Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd blynyddol yn cefnogi gallu'r Heddlu i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn bodloni gofynion plismona o fewn cyllideb a ddiffiniwyd drwy wario'n ddoeth a lleihau neu ddileu gwastraff.
- Mae cylch cynllunio strategol a sicrwydd yr heddlu a threfniadau llywodraethu yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau blynyddol yn weithredol ac yn darparu asesiad parhaus o effeithiolrwydd y sefydliad. Mae'n canolbwyntio ar alluoedd angenrheidiol ac ymrwymiad y sefydliad i wella'r modd y mae'n darparu gwasanaethau ynghyd ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd busnes yn barhaus. Mae'n cefnogi sut y darperir gwasanaethau plismona yn y cymunedau ac i'r cyhoedd.
- Mae trefniadau ar waith i'r Grŵp Prosiectau a Chyllid ar y cyd ystyried achosion busnes, gan gynnwys gwerthuso opsiynau, cyn i'r byrddau strategol eu hystyried i'w cymeradwyo.
- Mae Grŵp Asesu Syniadau Digidol yn cefnogi uchelgeisiau technoleg a digidol newydd yr heddlu sydd wedi'i anelu at wella cynhyrchiant ar draws plismona ac mae'n gydnaws â Strategaeth Ddigidol Plismona Cenedlaethol 2020-2030.
- Bydd prosesau mewn grym ar gyfer monitro effeithlonrwydd a gwerth am arian, gan gynnwys meincnodi perfformiad a chostau.
- Bydd CHTh a'r Heddlu'n cynnal datblygiad gweithlu effeithiol (gweler paragraff 4.3.11) a chynlluniau rheoli asedau (gweler paragraffau 8.3.3 a 9.5).
- Mae'r strategaeth gomisiynu yn sicrhau bod yr ymyriadau cywir yn cael eu defnyddio i gyflawni'r canlyniadau bwriadedig a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu.
- Mae'r Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio'n sicrhau bod y sefydliad yn adolygu ei ôl troed carbon ac yn nodi lle mae lliniaru'n bosibl er mwyn cefnogi blaenoriaethu camau gweithredu ac yn hysbysu buddsoddi a chynlluniau newid.

**Egwyddor D**: Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo.

- Mae gan y CHTh a'r PG strwythurau a rolau diffiniedig i alluogi arweinyddiaeth effeithiol yn unol â Phrotocol Plismona 2023, ac mae trefniadau lleol rolau a chyfrifoldebau wedi'u nodi yn y fframwaith hwn.
- Mae cynllun hyfforddi'r sefydliadau'n gosod yr hinsawdd ar gyfer datblygu unigolion. Bydd y prosesau adolygu datblygiad perfformiad unigol yn sicrhau bod y strategaethau hyn yn cael eu gwireddu ar gyfer swyddogion ac aelodau staff.
- Mae'r Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn nodi swyddogaethau'r PG a'r CHTh yn glir, ac mae Gorchymyn Protocol Plismona 2023 yn nodi sut yr ymgymerir â'r swyddogaethau hyn er mwyn cyflawni deilliannau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.
- Mae'r Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn mynnu bod y PG a'r CHTh yn penodi personél allweddol uwch, fel y nodir yn adran 3.2 y Cynllun Llywodraethu Corfforaethol.
- Mae'r cynllun llywodraethu corfforaethol yn tynnu sylw at y paramedrau ar gyfer rolau allweddol yn y sefydliadau, gan gynnwys dirprwyaethau neu gydsyniadau gan y PG a'r CHTh, rheoliadau ariannol ac archebion sefydlog contract.
- Bydd swyddogion, staff heddlu a staff Swyddfa SCHTh yn gweithredu o fewn:
    - Gweithdrefnau a pholisïau'r Gwasanaeth Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu,
    - y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol hwn, a
    - rheoliadau ymddygiad a chodau ymddygiad.
- Bydd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn gweithredu yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ac o fewn y Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol.

**Egwyddor Dd**: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus.

- Rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau bod y sefydliadau a'r strwythurau llywodraethu y maent yn eu goruchwylio wedi gweithredu, ac yn gallu cynnal, systemau rheoli perfformiad effeithiol i hwyluso darparu gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon. Mae rheoli risg, parhad busnes a rheolaeth fewnol yn rhannau annatod o'r system rheoli perfformiad. Mae systemau rheoli ariannol cryf yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisïau a chyflawni canlyniadau arfaethedig, gorfodi disgyblaethau ariannol, dyrannu adnoddau strategol, darparu gwasanaethau effeithlon ac atebolrwydd. Mae cyrff cyhoeddus yn gwario arian a godir gan drethdalwyr ac mae ganddynt hawl i ddisgwyl safonau uchel ar gyfer rheoli a goruchwylio perfformiad.
- Bydd cyd-bwyllgor archwilio annibynnol yn gweithredu yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ac o fewn canllawiau'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol[5].
- Mae'r protocol ar gyfer gwneud penderfyniadau y ceir manylion amdano yn adran 5 yn nodi'r egwyddorion tu ôl i'r ffordd y bydd penderfyniadau'n cael eu cymryd gan y PG a'r CHTh a'r safonau i'w mabwysiadu.
- Gweithredir y Model Penderfynu Cenedlaethol i ddigwyddiadau digymell neu ymgyrchoedd a drefnwyd gan swyddogion a staff o fewn y Gwasanaeth Heddlu fel unigolion neu dimoedd, ac i sefyllfaoedd gweithredol ac anweithredol.
- Mae'r Cynllun Llywodraethu'n tynnu sylw at y paramedrau ar gyfer gwneud

[5] Cod Ymarfer Rheoli Ariannol ar gyfer yr Heddlu, adran 11.1.3

penderfyniadau, gan gynnwys dirprwyaethau, cydsyniadau, terfynau ariannol ar gyfer materion penodol ac archebion sefydlog ar gyfer cytundebau.

- Mae'r Polisi Rheoli Risg yn sefydlu sut y mae risg yn cael ei reoli drwy elfennau amrywiol llywodraethu corfforaethol sefydliadau, pa un ai a ydynt yn gweithredu ar y cyd neu ar ben eu hunain.
- Mae Bwrdd Perfformiad Strategol y Comisiynydd yn cwrdd bob chwarter ac yn rhoi cyfle ar gyfer goruchwylio a chraffu ar berfformiad yr Heddlu. Mae'n canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaeth yn erbyn y blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, perfformiad yn erbyn mesurau cenedlaethol a chynhyrchiant sefydliadol.

**Egwyddor E**: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

- Mae atebolrwydd yn ymwneud â sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn cyflenwi gwasanaethau'n atebol amdanynt. Nid yn unig y mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud ag adrodd ar gamau gweithredu sydd wedi'u cwblhau, ond mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod rhanddeiliaid yn medru deall ac ymateb wrth i'r sefydliad gynllunio a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw.
- Mae archwilio mewnol ac allanol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.
- Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio annibynnol yn gweithredu o fewn canllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ac yn unol â'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol.
- Mae'r protocol[6] yn amlygu bod CHTh yn atebol i bobl leol ac yn defnyddio'r mandad hwn i osod a llywio'r amcanion strategol ar gyfer ardal yr heddlu drwy ymgynghori â'r PG.
- Mae'r Cynllun Heddlu a Throseddu yn nodi beth yw'r cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau a sut y cânt eu cyflawni.
- I gyd-fynd â hyn mae'r strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r gymuned yn nodi sut y bydd pobl leol yn ymwneud âr CHTh ar PG i sicrhau eu bod yn rhan o wneud penderfyniadau, atebolrwydd a chyfeiriad y dyfodol.
- Bydd CHTh a'r PG yn datblygu trefniadau ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol â *rhanddeiliaid* allweddol, gan sicrhau, lle bo'n briodol, eu bod yn parhau i ymwneud yn agos â phenderfyniadau, atebolrwydd a chyfeiriad y dyfodol.

2.2.3. Mae Egwyddorion A a B yn sail i'r Fframwaith Rhyngwladol cyfan ac maent ymhlyg yn y pum egwyddor arall. Mae'r Fframwaith Rhyngwladol hefyd yn pwysleisio bod yn rhaid i sefydliadau llywodraeth leol weithredu er lles y cyhoedd bob amser wrth geisio cyflawni eu hamcanion.

2.2.4. Mae bwriad pob un o'r saith egwyddor llywodraethu da mewn plismona i'w weld yn y nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer cyrff plismona yng Nghymru a Lloegr, Cyflawni Llywodraethu Da (CIPFA 2016). Mae'r ddogfen hon hefyd yn manylu ar yr ymddygiadau a'r canlyniadau sy'n dangos llywodraethu da yn weithredol.

2.2.5. Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol hwn yn galluogi datblygu trefniadau lleol. O dan bob un o'r elfennau uchod, bydd CHTh a'r PG yn meithrin ymddygiad a chanlyniadau a fydd yn dangos llywodraethu da ar waith, trwy'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn amlinellu tystiolaeth y trefniadau lleol.

[6] Gorchymyn Protocol Plismona 2023, erthygl 14

# 3. Cynllun Llywodraethu Corfforaethol

3.1. Y berthynas rhwng Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl

3.1.1. Perthynas o sefydliadau annibynnol yw'r berthynas rhwng y CHTh a'r PG, am fod y ddau barti yn gorfforaeth undyn ar wahân. Ni fydd dim yn y Cynllun Llywodraethu hwn yn creu, neu'n cael ei ystyried i greu, partneriaeth neu asiantaeth, perthynas freiniol neu berthynas o gyflogaeth rhwng y partïon.

3.1.2. Er eu bod yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt rolau a chyfrifoldebau gwahanol, mae'n briodol i'r CHTh a'r PG gydweithio trwy gydymdrechu i wella'r canlyniadau i bobl leol fel y'u nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu.

3.1.3. Mae angen gweithredu trefniadau effeithiol ac effeithlon er mwyn darparu pob math o gymorth busnes i'r CHTh a'r PG fel ei gilydd a fyddai'n eu cefnogi nhw a'u swyddfeydd statudol unigol orau yn y gwaith o ymgymryd â'u rhwymedigaethau. Mae'n ddymunol, lle bo modd, osgoi dyblygu swyddogaethau rhwng swyddfeydd y CHTh a'r PG.

3.1.4. Ni all y CHTh ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau i staff o dan gyflogaeth y PG. Fodd bynnag, gellir defnyddio swyddogion a staff y PG i gynorthwyo'r CHTh i ymgymryd â'i swyddogaethau. Mae'r Cynllun hwn yn nodi rhai o'r ffyrdd y rhoddir y cymorth hwnnw.

3.1.5. Nid oes ffi yn daladwy o un parti i'r llall mewn perthynas ag unrhyw wasanaethau a ddarperir.

3.1.6. Lle bynnag y bo modd, bydd y CHTh a'r PG yn dilyn un polisi yn y meysydd busnes hynny i gynorthwyo staff i weinyddu a gweithredu'r polisïau hynny.

3.2. Materion Ariannol

3.2.1. Y CHTh sy'n gyfrifol am ddal cronfa'r heddlu ac am dderbyn a rheoli grantiau, rhoddion a benthyciadau.

3.2.2. Mae gan y CHTh a'r PG gyfrifoldeb ar y cyd i reoli'r gyllideb plismona yn effeithiol a chynaliadwy ac i sicrhau gwerth am arian wrth ymgymryd â'u swyddogaethau.

3.2.3. Y PG sydd â chyfrifoldeb dydd-i-ddydd dros reolaeth ariannol cyllideb plismona'r Heddlu yn unol â'r Rheoliadau Ariannol.

3.2.4. Rhaid i'r PG baratoi Gweithdrefnau Ariannol i ategu'r Rheoliadau Ariannol a darparu cyfarwyddiadau manwl ar weithredu'r prosesau ariannol penodol. Bydd y PG yn sicrhau bod pob cyflogai yn ymwybodol o fodolaeth y Rheoliadau hyn ac yn cael mynediad iddynt.

3.2.5. Ni ellir defnyddio unrhyw un o'r Grantiau Heddlu[7] sydd ar gael i'r PG i ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn corff cyhoeddus arall heb gymeradwyaeth benodol y CHTh ymlaen llaw. Ni chaiff y fath gymeradwyaeth ei hatal yn afresymol.

3.3. Materion Cyflogaeth

3.3.1. Mae gan y CHTh ddyletswydd statudol i benodi PG, Prif Weithredwr (PW), Prif Swyddog Cyllid[8](PSC) a Swyddog Diogelu Data (SDD)[6]. Mae angen iddo benodi unrhyw staff arall sydd ei angen i ymgymryd â'i swyddogaethau hefyd.

3.3.2. Mae gan y PG ddyletswydd gyfatebol i benodi Prif Swyddog Cyllid (y cyfeirir ato/ati o hyn allan fel y Cyfarwyddwr Cyllid) a Swyddog Diogelu Data, ac unrhyw staff arall y mae'n ystyried yn briodol er mwyn iddo ymgymryd â'i swyddogaethau neu i gynorthwyo'r heddlu fel arall. Mae hefyd yn gyfrifol am benodi a rheoli pob swyddog islaw gradd PG.

3.3.3. Gall y PG addasu sefydliad staff yr heddlu o ran niferoedd, lleoliadau, a graddio o fewn cyllideb gyffredinol y gweithlu a gymeradwywyd gan y CHTh. Fel yr amlinellir yn y Protocol Plismona, mae'n rhaid i'r PG ymgynghori â'r CHTh mewn perthynas â phenodi swyddogion uwchlaw gradd Prif Uwch-arolygydd a staff cyfatebol yr heddlu. Rhaid i'r PG gyflwyno cynlluniau ar gyfer creu/dileu swyddi uwchlaw gradd Prif Arolygydd a staff cyfatebol yr Heddlu (Gradd K ac uwch) i'r Bwrdd Plismona ymlaen llaw. Rhaid i'r PG gyflwyno adroddiadau sefydliadol i'r Bwrdd Plismona ddwywaith y flwyddyn.

3.3.4. Bydd y PG yn cymeradwyo taliadau o dan unrhyw gynlluniau a gymeradwywyd ar gyfer taliadau bonws, taliadau cynhyrchiant neu daliadau cysylltiedig â pherfformiad ac yn cymeradwyo taliadau honoraria sy'n cydnabod dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol, neu daliadau o dan gynlluniau tebyg ar gyfer taliadau arbennig. Bydd y PG yn sicrhau y gwneir taliadau yn unol â Rheoliadau'r Heddlu. Mae'n rhaid ymgynghori gyda'r CHTh am unrhyw daliadau tebyg sydd yn cael ei wneud i swyddogion uwchben gradd Prif Uwch-Arolygydd a staff cyfatebol yr heddlu (uwchben gradd K).

3.3.5. Mae angen cymeradwyaeth y CHTh ar gyfer unrhyw becynnau adleoli, cynlluniau buddion a newidiadau i delerau ac amodau gwasanaeth swyddogion a staff yn yr Heddlu a'r SCHTh a wneir y tu allan i Reoliadau'r Heddlu.

3.3.6. Bydd y CHTh a'r PG ar y cyd yn cytuno ar bolisïau sy'n ymwneud â chyflogaeth, ac mae'r polisïau hynny'n berthnasol i staff y CHTh a'r PG er mwyn sicrhau gweinyddu hwylus ac effeithlon.

3.3.7. Bydd y CHTh a'r PG ar y cyd yn cytuno ar bolisïau sy'n ymwneud â chyflogaeth, ac mae'r polisïau hynny'n berthnasol i staff y CHTh a'r PG er mwyn sicrhau gweinyddu hwylus ac effeithlon.

3.3.8. Mae 3 o amgylchiadau lle gellir ceisio cymorth busnes gan y parti arall. Gelwir y rhain yn drefniadau cydweithredol ac maent fel a ganlyn:

- mae'r CHTh yn dymuno ceisio cymorth gan staff y PG;
- mae'r PG yn dymuno ceisio cymorth gan staff y CHTh; ac
- mae'r CHTh a'r PG yn cytuno ar y cyd i gomisiynu gwaith sydd i'w wneud naill ai gan staff y CHTh, neu staff y PG, neu'r ddau.

3.3.9. Gall y naill barti neu'r llall bennu gwaith ar gyfer staff yn amodol ar drefniant cydweithredol a defnyddio'r adnoddau sydd i'w cael yn y tîm hwnnw gyda chytundeb y parti arall.

3.3.10. Os oes mater o flaenoriaethu i'w ddatrys, oherwydd faint o waith y gofynnir i'r tîm hwnnw ei wneud, caiff materion o'r fath eu cyfeirio at Bennaeth Staff y Comisiynydd a'r Dirprwy Brif Gwnstabl.

3.3.11. Ni fydd y CHTh na'r PG yn ceisio unrhyw fath o ad-daliad gan y llall mewn perthynas â chostau staffio sy'n deillio o'r trefniadau cydweithredol.

3.3.12. Ni fydd y trefniant hwn yn gwahardd comisiynu gwaith o ffynonellau eraill.

3.3.13. Os oes gan y CHTh neu'r PG bryderon am ymddygiad neu berfformiad personél a gyflogir gan y llall, yna bydd y CHTh neu'r PG yn adrodd y pryderon hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol i'r rheolwr llinell perthnasol.

3.3.14. Rhag unrhyw amheuaeth, lle bo personél yn ymgymryd â gwaith a gomisiynir ac eithrio gan ei gyflogwr, nid yw trefniant o'r fath yn gyfystyr â secondiad o'i gyflogaeth ac mae personél o'r fath yn parhau i fod yn ddarostyngedig i drefniadau goruchwylio a rheoli arferol ar bob adeg.

3.3.15. Gellir hysbysebu swyddi a gellir symud staff rhwng y CHTh a'r PG fel y cytunir ganddynt yn unol â pholisïau, arferion a gweithdrefnau sefydledig.

3.3.16. Pan gaiff swyddi o fewn y SCHTh eu colli o achos ailstrwythuro, bydd swyddogion yn y SCHTh yn mynd i mewn i gronfa adleoli'r Heddlu. Os na ellir dod o hyd i gyflogaeth addas i swyddog, y CHTh fydd yn gyfrifol am gostau dileu swydd. Mae'r Polisi Rheoli Newid yn cyflwyno'r dull ar gyfer mynd i'r afael ag ailstrwythuro, adleoli a dileu swyddi.

3.4. Cyflenwadau a Gwasanaethau

3.4.1. Mae gan y CHTh a'r PG ddyletswydd i sicrhau bod y cyflenwadau a'r gwasanaethau (gan gynnwys asedau trafnidiaeth) a gaiff eu prynu yn effeithlon ac effeithiol, mwyafu budd y cyhoedd, a'u bod yn bodloni anghenion busnes ac anghenion gweithredol.

3.4.2. Mae CHTh yn gyfrifol am sicrhau bod yr ystâd blismona yn cydbwyso anghenion gweithredol ac anghenion busnes â rheolaeth amgylcheddol gyfrifol a datblygu cynaliadwy. Mae gan yr heddlu Bwrdd Llywio Cynaliadwyedd o fewn ei drefniadau llywodraethu a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Cyllid.

3.5. Technoleg Gwybodaeth

3.5.1. Mae'n ofynnol i'r CHTh a'r PG sicrhau bod y gwasanaethau technoleg gwybodaeth y maent yn eu caffael yn effeithlon ac effeithiol a'u bod yn diwallu anghenion busnes ac anghenion gweithredol.

3.5.2. Mae'r PG yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth a deallusrwydd artiffisial yn unol â chanllawiau cenedlaethol perthnasol ac wedi'i gymeradwyo gan adran TGCh yr Heddlu cyn ei ddefnyddio.

3.6. Ymgysylltu

3.6.1. Mae gan y CHTh ddyletswydd statudol i gyhoeddi gwybodaeth benodol[7] a phŵer i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas ag ymgymryd â'i swyddogaethau a swyddogaethau'r PG. Mae'n ofynnol i'r CHTh lunio adroddiad blynyddol[8].

3.6.2. Mae gan y CHTh ddyletswydd, wrth gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau, i roi sylw i farn y cymunedau yn ardal Dyfed-Powys am blismona, am y Cynllun Heddlu a Throseddu ac am gynigion ar gyfer gwariant.

3.6.3. Mae gan y PG hefyd ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer canfod barn pobl ym mhob cymdogaeth yn ardal Dyfed-Powys am droseddau ac anhrefn yn y cymdogaethau hynny ac i roi gwybodaeth i'r bobl hynny am blismona yn y cymdogaethau.

3.6.4. Mae gan y PG bŵer hefyd o dan y gyfraith gyffredin i gyhoeddi unrhyw wybodaeth i'r cyhoedd neu i ofyn am unrhyw wybodaeth gan y cyhoedd, lle byddai hynny'n helpu i atal neu ganfod troseddau neu i sicrhau cyfraith a threfn.

3.6.5. Cydnabyddir y bydd y CHTh a'r PG yn cyhoeddi a chasglu gwybodaeth, barn a safbwyntiau mewn perthynas â throseddau ac anhrefn yn ardal Dyfed-Powys. Cydnabyddir y gallai'r CHTh a'r PG ddymuno mynegi negeseuon gwahanol ar yr un mater.

3.7. Gwybodaeth

3.7.1. Mae'r CHTh a'r PG yn rheolwyr a phroseswyr data ac mae ganddynt ddyletswyddau o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig (GDPR y DU), Deddf Diogelu Data 2018https://www.gov.uk/data-protection a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

3.7.2. At ddibenion GDPR y DU, bydd y CHTh a'r PG yn parhau'n rheolwyr data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol a gofnodir o dan eu rheolaeth unigol. Mae gan y ddau Swyddogion Diogelu Data dynodedig, sef y Rheolwr Busness (CHTh) a'r Pennaeth Rheoli Gwybodaeth (PG).

3.7.3. At ddibenion Rhyddid Gwybodaeth, pe byddai'r CHTh neu'r PG yn derbyn cais Rhyddid Gwybodaeth, yna byddai'r CHTh neu'r PG, fel y bo'n briodol, yn gyfrifol am ymateb i'r cais hwnnw yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth.

3.7.4. Rhaid dwyn unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbynnir gan y CHTh neu'r PG sy'n ymwneud â'r fframwaith llywodraethu hwn neu unrhyw faterion sy'n deillio ohono i sylw'r parti arall cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, lle bo angen, bydd y CHTh a'r PG yn rhoi cymorth rhesymol i'r llall er mwyn hwyluso ymateb prydlon a chydymffurfiol i'r cais Rhyddid Gwybodaeth neu unrhyw ofyniad cydymffurfio dilynol.

3.7.5. Er mwyn galluogi'r CHTh i ymgymryd â'i swyddogaethau yn effeithiol, bydd angen iddo gael mynediad i wybodaeth, swyddogion a staff o fewn ei ardal heddlu. Bydd y CHTh a'r PG yn rhannu gwybodaeth lle bo'n briodol i gefnogi ei gilydd wrth ymgymryd â'u swyddogaethau; lle mae hyn yn ymwneud â rhannu data personol, bydd rhannu o'r fath yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data a GDPR y DU fel y bo'n briodol. Ni ddylid gwrthod mynediad i wybodaeth yn afresymol.

3.7.6. Bydd y CHTh a'r PG yn rhoi cymorth rhesymol i'r llall wrth baratoi Cytundebau Rhannu Gwybodaeth, Cytundebau Datgelu Data a Chontractau Prosesu Data, fel y bo'n berthnasol, i sicrhau y cydymffurfir ag Arfer Broffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona – Rheoli Gwybodaeth (Rhannu Gwybodaeth yr Heddlu) a Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.

3.7.7. Mae'r Protocol Plismona yn nodi sut y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng y ddwy gorfforaeth undyn. Mae'r sail gyfreithlon ar gyfer rhannu gwybodaeth a phrosesu data personol rhwng CHTh a'r PG wedi'i chynnwys yn y ddeddfwriaeth diogelu data fel y manylir yn y tabl isod:

| CHTh - Y sail gyfreithlon berthnasol o dan ddeddfwriaeth diogelu data sy'n caniatáu rhannu data personol. | |
|---|---|
| **Sail Gyfreithlon** | |
| Erthygl 6(1)(a) GDPR y DU – Cydsyniad | Mae'r unigolyn wedi rhoi cydsyniad i'w ddata personol gael ei brosesu at ddiben penodol |
| Erthygl 6(1)(b) GDPR y DU – Contract | Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract neu oherwydd bod angen cymryd camau penodol cyn ymrwymo i gontract |
| Erthygl 6(1)(c) GDPR y DU – Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Mae'r prosesu yn angenrheidiol i gydymffurfio â'r gyfraith |
| Erthygl 6(1)(d) GDPR y DU – Buddiannau Hanfodol | Mae'r prosesu yn angenrheidiol i amddiffyn bywyd rhywun. |
| Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU – Tasg Gyhoeddus | Mae prosesu yn angenrheidiol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd mewn swyddogaethau swyddogol ac mae gan y dasg neu swyddogaeth sail gyfreithiol glir. |
| Erthygl 6(1)(f) GDPR y DU – Buddiannau Cyfreithlon | Mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer buddiannau cyfreithlon neu fuddiannau cyfreithlon trydydd parti, oni bai fod rheswm da dros ddiogelu'r wybodaeth sy'n drech na'r buddiannau cyfreithlon. |

| PG - Y sail gyfreithlon berthnasol o dan ddeddfwriaeth diogelu data sy'n caniatáu rhannu data personol | |
|---|---|
| **Sail Gyfreithlon** | |
| Erthygl 6 GDPR y DU (Cyfreithlondeb Prosesu) Angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol – Erthygl 6(1)(c) | Y ddeddfwriaeth berthnasol yw adran 19 o Orchymyn Protocol Plismona 2023. |
| Erthygl 9 – GDPR y DU (Prosesu categorïau arbennig o ddata personol) Angenrheidiol am resymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd – Erthygl 9(2)(g) | Mae Erthygl 9(2)(g) GDPR y DU yn gofyn am sail yng nghyfraith y DU, a ddarperir gan adran 10(3) o Ddeddf Diogelu Data 2018.<br><br>Mae hyn yn ei dro yn cyfeirio at yr angen i fodloni amod perthnasol yn Rhan 2 o Atodlen 1 o'r Ddeddf Diogelu Data 2018. Yr amod perthnasol yw:Amod 6 (2) – Statudol ac ati a dibenion llywodraeth. |

| | |
|---|---|
| | Y ddeddfwriaeth berthnasol yw adran 19 o Orchymyn Protocol Plismona 2023.<br><br>Mae Dogfen Polisi Priodol Heddlu Dyfed-Powys ar gael ar y wefan. |
| Erthygl 10 GDPR y DU – Prosesu data personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau | Yn bodloni amod perthnasol yn rhan 1, 2 o 3 yn Atodlen 1 o Ddeddf Diogelu Data 2018.<br><br>Yr amod perthnasol yw: Atodlen 1 Rhan 2 Adran 6 – Statudol ac ati a dibenion llywodraeth.<br><br>Y ddeddfwriaeth berthnasol yw:Adran 19 o Orchymyn Protocol Plismona 2023. |

3.7.8. Gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau neu gwynion mewn perthynas â rhannu data personol at y swyddog diogelu data perthnasol o fewn pob corfforaeth undyn.

3.8. Mynediad i Safleoedd a Phersonél

3.8.1. Bydd gan y CHTh a'r PG a'u huwch-swyddogion fynediad heb gyfyngiad i safleoedd a phersonél o dan gyfarwyddyd neu reolaeth y ddau barti, oni bai fod gofyniad gweithredol rhesymol i gyfyngu mynediad o'r fath.

3.8.2. Gellir cyfyngu ar fynediad personél arall i bobl a safleoedd yn ôl angen gweithredol.

3.8.3. Rhaid i unrhyw gontractau neu gytundebau ar gyfer ffilmio rhaglenni'r cyfryngau gael eu hawdurdodi gan CHTh cyn caniatáu mynediad i eiddo, asedau neu bersonél Heddlu Dyfed-Powys.

3.9. Ystadau

3.9.1. Mae'r PG yn gyfrifol am waith cynnal a chadw o ddydd i ddydd a materion gweithredol sy'n ymwneud ag ystâd CHTh. Caiff yr holl wasanaethau a phrosiectau ar ystadau, yn cynnwys y rhai sy'n cael eu gyrru gan benderfyniadau strategol y CHTh a'r rhai sy'n cael eu gyrru gan anghenion gweithredol/cynnal a chadw, eu harwain gan Pannaeth Ystadau'r PG dan arweiniad a chyfarwyddyd y Strwythur Llywodraethu.

3.9.2. Gwneir penderfyniadau i ysgogi gwelliannau i'r economi, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd yr ystâd.

3.9.3. Bydd prosiectau ystadau yn gweithredu o fewn cyfyngiadau cyllidebau cyfalaf a refeniw a ddyrennir i'r PG tuag at brosiectau ystadau gan CHTh. Mae'r Pennaeth Ystadau yn adrodd am unrhyw newidiadau i gyllidebau i'r Grŵp Ystadau Strategol, ac mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn adrodd am newidiadau sylweddol i'r Bwrdd Plismona.

# 4. Cynllun Dirprwyo

## 4.1. Egwyddorion Cyffredinol

4.1.1. Mae'r adran hon yn darparu fframwaith sy'n sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal yn effeithlon, gan sicrhau nad yw penderfyniadau'n cael eu dal yn ôl yn ddiangen. Mae'n rhan o fframwaith llywodraethu corfforaethol cyffredinol y ddau sefydliad. Dylid ei darllen yng nghyd-destun y tair adran flaenorol.

4.1.2. Rhag amheuaeth, caiff y CHTh ymgymryd ag unrhyw un o'i swyddogaethau statudol yn uniongyrchol ar unrhyw adeg, waeth a yw'r swyddogaethau hynny, neu faterion ategol, wedi'u dirprwyo i unrhyw berson arall.

4.1.3. Er bod Adran 18 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn caniatáu i CHTh ddirprwyo rhai swyddogaethau, ni chaiff y CHTh ddirprwyo i unrhyw gwnstabl neu unrhyw berson a gyflogir gan y PG.

4.1.4. Mae'r Cynllun Dirprwyo yn rhoi pŵer cyfreithiol i aelod o staff ymgymryd â swyddogaethau'r CHTh a'r PG. Wrth ymgymryd â'r swyddogaethau hyn rhaid i'r aelod o staff gydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol a'r holl ganllawiau proffesiynol perthnasol eraill.

4.1.5. Mae CHTh a'r PG yn disgwyl i unrhyw un sy'n bwriadu arfer dirprwyaeth neu awdurdodiad o dan y cynllun hwn dynnu sylw'r CHTh at unrhyw fater y mae'r CHTh yn debygol o'i ystyried yn wahanol, yn ddadleuol, sy'n debygol o gael ôl-effeithiau neu fod yn wleidyddol sensitif cyn ymarfer pwerau o'r fath.

4.1.6. Bydd unrhyw berson sy'n ymgymryd â swyddogaethau'r Comisiynydd, neu sy'n gwneud unrhyw benderfyniad yn ymwneud â hwy, yn cymryd cyngor proffesiynol priodol yn ôl yr angen, yn enwedig cyngor cyfreithiol ac ariannol a, lle bo'n briodol, gyngor gweithredol gan y PG. Dim ond pan fo darpariaeth ar gyfer unrhyw wariant perthnasol wedi'i chynnwys yn y gyllideb a gymeradwywyd y gellir dirprwyo.

4.1.7. Wrth gyflawni unrhyw swyddogaethau, rhaid I'r CHTh, y PG a swyddogion ystyried y canlynol hefyd:

- Barn pobl yn ardal Dyfed-Powys;
- Unrhyw adroddiad neu argymhelliad a wnaed gan y Panel Heddlu a Throseddu am yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol; ac
- Y Cynllun Heddlu a Throseddu ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

4.1.8. Nid yw dyrannu dirprwyaeth i swyddog yn atal swyddog rhag cyfeirio mater at y CHTh neu'r Bwrdd Plismona os yw'r swyddog yn dymuno gwneud hynny neu'n ystyried ei bod yn briodol gwneud. Bydd y CHTh yn disgwyl i swyddogion dynnu ei sylw at

- Faterion sy'n sensitif neu'n ddadleuol;
- Materion yn ymwneud â risg gan gynnwys risg weithredol, strategol, ariannol a chyfreithiol neu faterion lle mae risg y gallai'r CHTh a/neu'r PG gael eu beirniadu'ngyhoeddus;
- Materion sy'n dadlennu gwendid difrifol yn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd plismona; neu
- Unrhyw amgylchiadau lle ystyrir ei bod yn ddoeth gwneud hynny.

4.1.9. Ar ôl trafodaeth gychwynnol â'r PSC, a chyn yr eir i unrhyw rwymedigaeth ariannol sy'n effeithio ar gronfa'r heddlu y gallai'r CHTh yn rhesymol ei hystyried yn ddadleuol neu a allai gael ôl-effeithiau; rhaid cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y CHTh. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai na fydd yn bosibl pennu rhwymedigaethau cynhennus ac sy'n cael ôl-effeithiau ym mhob achos.

4.1.10. Rhaid cofnodi'r holl benderfyniadau a wneir gan swyddogion statudol o dan bweraua roddir iddynt gan y CHTh neu'r PG, ac mae'n rhaid i'r penderfyniadau hynny fod ar gael i'w harchwilio. Yn y ddogfen hon, mae'r cyfeiriadau a wneir at y swyddogion statudol yn cynnwys swyddogion a awdurdodir ganddynt i weithredu ar eu rhan.

4.1.11. Mae gan y personau a benodir yn Prif Weithredwr (PW) ac yn Brif Swyddogion Cyllid bwerau a dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â'u swyddi, ac felly nid ydynt yn dibynnu ar gael materion wedi'u dirprwyo iddynt er mwyn ymgymryd â'r rhain.

4.1.12. Nid yw'r cynllun hwn yn ceisio nodi'r holl ddyletswyddau statudol sydd wedi'u cynnwys mewn cyfreithiau a rheoliadau penodol, nac yn rhestru'r holl faterion sy'n rhan o gyfrifoldebau rheoli beunyddiol.

4.1.13. Nod y Cynllun Llywodraethu Corfforaethol hwn yw egluro'r pwerau hynny a roddir i'r swyddogion statudol er budd arfer busnes da. Gall CHTh **gyfyngu ar y pwerau hyn a/neu dynnu dirprwyaeth yn ôl**, fel y gall y PG mewn perthynas â'u dirprwyaethau. Yn yr un modd, gall unrhyw is-ddirprwyaethau gan swyddogion statudol gael eu cyfyngu neu eu tynnu'n ôl gan y swyddogion statudol hynny.

4.2. Dirprwyaethau gan CHTh i'r Prif Weithredwr (PW) a'r Swyddog Monitro (PW)

4.2.1. Y PW yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Swyddog Monitro'r CHTh. Y dirprwyaethau ffurfiol, a restrir isod, yw'r rhai a roddir i'r PW.

4.2.2. Fel Swyddog Monitro CHTh, mae cyfrifoldeb statudol i reoli eu materion cyfreithiol fel y nodir yn adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (fel y'i diwygiwyd).

4.2.3. Yn ei absenoldeb mae'r CHTh yn dirprwyo ei holl swyddogaethau i'r PW, ac eithrio'r rhai a waherddir gan y gyfraith oni chytunir fel arall.

4.2.4. Os bydd gwrthdaro buddiannau sylweddol yn codi a fyddai'n atal CHTh rhag arfer swyddogaeth, mae'r CHTh yn dirprwyo i'r PW i arfer unrhyw swyddogaethau, ac eithrio'r rhai a waherddir gan y gyfraith.

**Cyffredinol**

4.2.5. Paratoi Cynllun Heddlu a Throseddu i'w gyflwyno i'r CHTh.

4.2.6. Paratoi'r Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r CHTh.

4.2.7. Darparu gwybodaeth i'r Panel Heddlu a Throseddu, fel sy'n rhesymol ofynnol i alluogi'r panel i gyflawni ei swyddogaethau.

4.2.8. Llofnodi contractau ar ran CHTh gan gynnwys contractau y mae'n ofynnol eu cyflawni o dan sêl gyffredin CHTh.

4.2.9. Ystyried a ddylid, drwy ymgynghori â'r PSC, darparu indemniad i'r CHTh neu'r PG, ac i ymdrin â materion neu wneud darpariaeth i ymdrin â materion eraill sy'n codi o unrhyw achosion sy'n ymwneud â hwy.

4.2.10. Ystyried a chymeradwyo, drwy ymgynghori â'r PSC, darparu indemniad a/neu yswiriant i staff unigol CHTh.

4.2.11. Ymateb i ymgynghoriadau ar gynigion mewn perthynas â'r holl faterion sy'n effeithio ar CHTh, os oes angen, ar ôl cael barn CHTh, y PG neu'r PSC yn gyntaf, fel y bo'n briodol.

4.2.12. Ystyried unrhyw gŵyn neu fater ymddygiad a godwyd yn erbyn y PG, a lle bo'n briodol, cyfeirio'r mater at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) a hysbysu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS).

4.2.13. Gwneud trefniadau i gefnogi cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

4.2.14. Gwneud trefniadau ar gyfer cymorth i'r CHTh i ddwyn y PG i gyfrif.

4.2.15. Ar gais y PG, i arfer pŵer CHTh o dan Reoliadau Deddf (Eiddo) yr Heddlu 1997 i gymeradwyo cadw eiddo heb ei hawlio os gellir ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu.

4.2.16. Bod yn Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, a chyflawni holl swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Rheolydd Data a bennir yn Neddf Diogelu Data 2018; Deddf Rhyddid Gwybodaeth a sicrhau cydymffurfedd â Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011, fel y'i diwygiwyd.

4.2.17. Cyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn perthynas â thribiwnlysoedd apêl yr heddlu.

4.2.18. Gwneud trefniadau ar gyfer penodi Aelodau Panel Annibynnol / Unigolion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith ar gyfer gwrandawiadau camymddwyn.

4.2.19. Gwneud trefniadau ar gyfer penodi lleygwr â chymwysterau priodol ar gyfer paneli apêl fetio.

4.2.20. Cyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn perthynas ag adolygu cwynion.

4.2.21. Sicrhau bod gweithgarwch grantiau a chomisiynu CHTh yn cefnogi lleihau trosedd ac anhrefn a gwella diogelwch cymunedol.

4.2.22. Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu comisiynu'n lleol sy'n bodloni anghenion dioddefwyr a thystion trosedd orau.

### Ariannol

4.2.23. Mae cyfrifoldebau rheoli ariannol y PW wedi'u nodi yn y rheoliadau ariannol.

4.2.24. Rheoli cyllideb swyddfa CHTh, ynghyd â'r PSC, yn benodol:

- archebu nwyddau a gwasanaethau ac eitemau eraill y darperir ar eu cyfer yn y gyllideb refeniw
- gofyn am ddyfynbrisiau a thendrau am nwyddau a gwasanaethau y darperir ar eu cyfer yn y gyllideb refeniw a'u derbyn

**Staff a gyflogir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

4.2.25. Penodi a diswyddo staff a gyflogir gan y CHTh, drwy ymgynghori â'r CHTh.

4.2.26. Ni fydd paragraff 4.2.21 yn berthnasol i benodi neu ddiswyddo, neu weithredu camau disgyblu yn erbyn y PW neu'r PSC.

4.2.27. Ni chaiff y CHTh gymryd unrhyw gamau disgyblu mewn perthynas â'r PW neu'r PSC, ac eithrio gwahardd y swyddog dros dro at ddiben ymchwilio i gamymddwyn honedig sy'n achosi'r cam gweithredu, heb roi sylw dyledus i argymhelliad mewn adroddiad a wneir gan unigolyn annibynnol dynodedig. Rhaid i unrhyw waharddiad o'r fath fod ar gyflog llawn a therfynu dim hwyrach na dau fis ar ôl y daw'r gwaharddiad i rym, sy'n dechrau ar ddiwrnod cyntaf y gwaharddiad.

4.2.28. ystyr "camau disgyblu" yw unrhyw gamau gweithredu a achosir gan gamymddwyn honedig a fyddai, o'i brofi, yn unol ag ymarfer arferol y CHTh, yn cael ei gofnodi ar ffeil bersonol yr aelod o staff. Mae'n cynnwys unrhyw gynigion i ddiswyddo aelod o staff am unrhyw reswm ac eithrio colli swydd, afiechyd parhaol neu eiddilwch meddwl neu gorff, ond nid yw'n cynnwys methiant i adnewyddu contract cyflogaeth am gyfnod penodol oni bai bod yr awdurdod wedi ymrwymo i adnewyddu contract o'r fath; a rhaid i "unigolyn annibynnol dynodedig" fod yn unigolyn y cytunir arno gan y CHTh a'r swyddog perthnasol.

4.2.29. Gwneud argymhellion i'r CHTh o ran telerau ac amodau gwasanaeth staff, drwy ymgynghori â'r PSC.

4.2.30. Ymgymryd â rheoli staff a gyflogir gan y CHTh yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

4.2.31. I awdurdodi, yn unol ag amodau gwasanaeth staff, gwahardd unrhyw aelod o staff a gyflogir gan CHTh.

4.2.32. Dod â chytundebau cenedlaethol ar gyflogau, amodau a chyflogau i rym, ar yr amod bod unrhyw faterion sy'n sensitif neu sydd â goblygiadau ariannol mawr yn cael eu cyfeirio at CHTh am benderfyniad.

4.2.33. Cymeradwyo taliadau unrhyw fonws neu daliadau o dan gynlluniau taliadau sy'n seiliedig ar berfformiad ar gyfer staff a gymeradwyir gan CHTh, taliadau honoraria a wneir am ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol, neu daliadau arbennig tebyg.

4.2.34. Negodi a dod i gytundeb ag undebau llafur cydnabyddedig a chymdeithasau staff ar unrhyw faterion y gellir penderfynu arnynt yn lleol. Rhaid rhoi gwybod i'r CHTh am bob cytundeb.

4.2.35. Rhoi tystysgrifau eithrio i staff y byddai eu swyddi fel arall wedi'u cyfyngu'n wleidyddol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

4.2.36. Cymeradwyo ymddeoliad staff ar sail afiechyd, a thalu pensiynau cyffredin a phensiynau afiechyd a thaliadau eraill, fel y bo'n briodol, yn dilyn cyngor gan ymarferydd meddygol. Rhaid rhoi gwybod i'r CHTh am bob ymddeoliad oherwydd afiechyd cyn gweithredu.

4.2.37. Dod i gytundeb mewn achosion yn ymwneud â'r tribiwnlys cyflogaeth a chwynion staff a gyflogir gan CHTh ac eithrio'r achosion hynny a deimlwyd ei bod yn eithriadol oherwydd y canlynol:

- eu bod yn gysylltiedig â hawliwr â phroffil uchel
- bod diddordeb mawr gan y cyhoedd yn yr achos
- mae perygl gwirioneddol y bydd CHTh neu'r PG yn agored i feirniadaeth gyhoeddus ddifrifol neu y bydd gwendidau difrifol yn y sefydliad neu'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu hamlygu.

4.2.38. Dod i gytundeb ynghylch apeliadau yn erbyn penderfyniadau uwch-weinyddwr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau) 1996.

4.2.39. Arfer disgresiwn CHTh o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn perthynas â staff a gyflogir gan y CHTh, drwy ymgynghori â'r PSC ac yn unol â pholisïau cytunedig.

4.2.40. Cymeradwyo ceisiadau gan staff a gyflogir gan CHTh i wneud gwaith allanol ychwanegol yn unol â pholisi Buddiannau Busnes yr heddlu.

4.2.41. Penodi gwirfoddolwyr i gefnogi cyfrifoldebau statudol CHTh, gan gynnwys ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa, a therfynu penodiadau os oes angen.

**Cyfreithiol**

4.2.42. Gosod neu awdurdodi gosod sêl gyffredin CHTh i'r canlynol:

- pob contract, cytundeb neu drafodiad nad oes unrhyw gydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy
- pob gweithred sy'n rhoi neu'n cyfleu buddiant mewn tir
- pob dogfen lle mae CHTh yn penderfynu bod angen arbennig i atodi'r sêl.

4.2.43. Cymeradwyo setliad ariannol pob hawliad neu gais am iawndal yn erbyn CHTh yn unol â rheoliadau ariannol ac yn erbyn y PG yn unol â pharagraff 8 Atodlen 2 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ac adran 88 o Ddeddf yr Heddlu 1996.

4.2.44. Cymeradwyo pob cais am gymorth ariannol i swyddogion a staff sy'n ymwneud ag achosion cyfreithiol neu gwestau ac eithrio'r rhai y teimlir eu bod yn sylweddol oherwydd y canlynol:

- eu bod yn gysylltiedig â hawliwr â phroffil uchel
- bod diddordeb mawr gan y cyhoedd yn yr achos
- mae perygl gwirioneddol y bydd CHTh neu'r PG yn agored i feirniadaeth gyhoeddus ddifrifol neu y bydd gwendidau difrifol yn y sefydliad neu'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu hamlygu.
- mae'r achosion yn ôl eu natur yn cael eu hystyried yn achos prawf gerbron y llys.

4.2.45. Awdurdodi, ar ôl ymgynghori â'r CHTh, cychwyn, amddiffyn, diddymu neu setlo unrhyw hawliadau neu achosion cyfreithiol ar ran y CHTh, gan gynnwys cwblhau'r ddogfennaeth angenrheidiol yn unol â gorchmynion llys, cyfarwyddiadau a/neu reolau gweithdrefnol, drwy ymgynghori â'r cynghorydd cyfreithiol (a PSC y CHTh os oes goblygiadau ariannol sylweddol).

4.2.46. Trefnu ar gyfer darparu'r holl gyngor cyfreithiol neu arbenigol arall a/neu gynrychiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer CHTh ac ar ran y CHTh, gan ddarparu adroddiadau rheolaidd i'r CHTh i ddangos cydymffurfedd a llywodraethu da.

4.3. Dirprwyaethau gan CHTh i'r Prif Swyddog Cyllid (PSC)

4.3.1. Mae dyletswyddau statudol y PSC a'r Cyfarwyddwr Cyllid (CC) yr un fath i raddau helaeth o ran eu natur er bod eu cyfrifoldebau'n gysylltiedig â chorfforaethau undyn ar wahân. Dylai'r PSC a'r CC weithredu'n effeithiol a heb wrthdaro, i adlewyrchu goblygiadau cyfreithiol ac ariannol o gael y ddwy gorfforaeth undyn cysylltiedig. Mae gan y PSC a'r CC ddyletswydd ymddiriedol i'r trethdalwr lleol gan fod gan y ddau gyfrifoldeb dros sicrhau defnydd effeithlon o arian cyhoeddus. Mae hyn yn awgrymu cyfrifoldebau cyflwyno adroddiadau i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau ar gyfer y PSC a'r CC. Fodd bynnag, o ystyried mai CHTh sydd â'r cyfrifoldeb statudol am gronfa'r heddlu, bydd y PSC yn gyfrifol am yr holl adroddiadau statudol sy'n ymwneud â digonolrwydd yr adnoddau gyffredinol sydd ar gael i ddiwallu gwariant yr heddlu. Mae dyletswydd ymddiriedol ddwyochrog ar y PSC a'r CC i gefnogi'r llall wrth gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â materion plismona.

4.3.2. Mae gan y PSC, fel cynghorydd ariannol CHTh gyfrifoldeb statudol i reoli materion ariannol y CHTh fel y nodir yn adrannau 112 a 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2003 (fel y'i diwygiwyd).

4.3.3. Mae gan y PSC rai dyletswyddau statudol na ellir eu dirprwyo, sef adrodd ar unrhyw benderfyniadau y CHTh ar wariant a allai fod yn anghyfreithlon, a pharatoi bob blwyddyn, yn unol ag arferion priodol mewn perthynas â chyfrifon, datganiad o gyfrifon y CHTh, gan gynnwys cyfrifon grŵp. Mae cyfrifoldebau rheoli ariannol manwl y PSC wedi'u nodi yn y rheoliadau ariannol.

Materion Brys

4.3.4. Os bydd unrhyw fater yn codi a fyddai fel rheol yn cael ei gyfeirio at y CHTh i benderfynu arno ac na ellir ei ohirio yn ei absenoldeb, gall y Prif Swyddog priodol benderfynu ar y mater.

4.3.5. Mae'r Prif Swyddogion priodol sydd wedi'u hawdurdodi i benderfynu ar faterion brys fel a ganlyn:

- Prif Weitthredwr – pob mater ac eithrio materion gweithredol; a
- Prif Swyddog Cyllid – materion ariannol a materion cysylltiedig.

4.3.6. Rhaid i benderfyniadau brys gael eu hadrodd i'r CHTh cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl a'u cyhoeddi.

4.4. Dirprwyaethau gan y Prif Gwnstabl

4.4.1. Nid yw'r Cynllun hwn yn amharu ar allu'r PG i drefnu i'r Dirprwy Brif Gwnstabl ymgymryd â swyddogaethau'r PG yn unol ag Adran 41 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

4.4.2. Y Dirprwy Brif Gwnstabl yw'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, a bydd yn cyflawni holl swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Rheolydd Data a nodir yn Neddf Diogelu Data 2018; Deddf Rhyddid Gwybodaeth a sicrhau cydymffurfedd â Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011, fel y'i diwygiwyd.

4.4.3. Bydd y PG yn dirprwyo materion sy'n ymwneud â thelerau ac amodau gwasanaeth staff i'r Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a Sefydliad, drwy ymgynghori â'r CC. Bydd hyn yn cynnwys dod â chytundebau cenedlaethol ar gyflogau ac amodau i rym, ar y ddealltwriaeth y bydd unrhyw faterion sy'n sensitif neu sydd â goblygiadau ariannol mawr yn cael eu cyfeirio at y PG am benderfyniad.

4.4.4. Mae gan y CC, fel cynghorydd ariannol i'r PG gyfrifoldeb statudol i reoli materion ariannol y PG fel y nodir yn adrannau 112 a 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2003 (fel y'i diwygiwyd).

4.4.5. Y Cyfarwyddwr Cyllid fydd yn cyflawni cyfrifoldebau statudol Prif Swyddog Cyllid y PG sy'n ofynnol o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a bydd y Dirprwy Brif Gwnstabl yn cyflawni rôl o fewn yr Heddlu sy'n cyfateb o ran cyfrifoldebau i rôl Swyddog Monitro'r SCHTh.

4.4.6. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yn awdurdodi cychwyn, amddiffyn a/neu ddiddymu achos cyfreithiol ar ran y PG, gan gynnwys cwblhau'r ddogfenaeth angenrheidiol yn unol â gorchmynion llys, cyfarwyddiadau a/neu reolau gweithdrefnol, yn unol â'r rheoliadau ariannol y manylir arnynt yn y fframwaith hwn. Mae'r adran Cyllid Corfforaethol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf bob mis am oblygiadau ariannol ac mae'r prif swyddogion yn cael gwybodaeth am achosion sylweddol.

4.4.7. Mae dod i gytundeb mewn achosion yn ymwneud â'r tribiwnlys cyflogaeth a chwynion swyddogion a staff a gyflogir gan y PG, a hawliadau am ymddygiad anghyfreithlon cwnstabliaid o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth wrth honni eu bod yn cyflawni ei swyddogaethau, yn cael ei ddirprwyo i Bennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol ar ôl ymgynghori â'r Dirprwy Brif Gwnstabl, ac eithrio'r achosion hynny y teimlir eu bod yn eithriadol oherwydd y canlynol:

- maent yn gysylltiedig â hawliwr â phroffil uchel
- bod diddordeb mawr gan y cyhoedd yn yr achos
- mae perygl gwirioneddol y bydd CHTh neu'r PG yn agored i feirniadaeth

gyhoeddus ddifrifol neu y bydd gwendidau difrifol yn y sefydliad neu'r polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hamlygu.

Mae'r PW i gael ei friffio ar bob achos mewn modd amserol.

4.4.8. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yn trefnu i ddarparu'r holl gyngor cyfreithiol neu gyngor arbenigol arall a/neu gynrychiolaeth sydd eu hangen ar y PG a'r CHTh ac ar ran y PG a'r CHTh lle bo'n briodol. Darperir adroddiad bob chwe mis i'r CHTh a'r PG ar yr holl gamau cyfreithiol a gymerwyd, i ddangos cydymffurfedd a llywodraethu da.

4.4.9. Lle darperir Gwasanaethau Cyfreithiol i'r CHTh yn unol ag adran 2(5) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol bydd angen awdurdodiad penodol gan CHTh ar gyfer y mater neu drafodiad. Bydd setlo hawliadau yn ddarostyngedig i baragraff 8 atodlen 2 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol.

4.4.10. Nid yw dirprwyo i swyddog yn unol â'r Cynllun hwn yn atal swyddog rhag cyfeirio mater at y CHTh neu'r Bwrdd Plismona os yw'r swyddog yn dymuno gwneud hynny neu'n ystyried ei bod yn briodol gwneud. Bydd y CHTh yn disgwyl i swyddogion dynnu ei sylw at faterion sensitif neu ddadleuol neu unrhyw fater a allai fod â goblygiadau ariannol sylweddol.

4.4.11. Bydd yn ofynnol i holl Swyddogion a Staff yr Heddlu gydymffurfio â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol hwn.

4.4.12. Bydd y PG yn ymgymryd â llywodraethu ariannol drwy ei Strwythur Llywodraethu Heddlu ei hun.

4.4.13. Bydd cyllidebau'r Heddlu yn cael eu dosrannu'n llwyr rhwng Prif Swyddogion fel Deiliaid Cyllideb. Bydd pob Deiliad Cyllideb yn atebol am y gwaith o gyflawni ei elfennau ei hun o'r Cynllun Heddlu a Throseddu o fewn y terfynau cyllideb a ddirprwyir iddo gan y PG.

4.4.14. Bydd y terfynau cymeradwyo ar gyfer contractau unigol, archebion, anfonebau a symudiadau cyllideb ac eithrio tâl fel a ganlyn:

| Lefel Gwariant | Proses | Awdurdodi |
|---|---|---|
| Dros £300,000 | Rhaid bod y gyllideb ar gael.<br><br>Tendr neu Fframwaith Ffurfiol wedi'i drefnu drwy'r Adran Gaffael.<br><br>Canllawiau: Trothwy (>£215K Nwyddau a Gwasanaethau; £5.4M Gwaith yn cynnwys TAW). | Angen craffu a chymeradwyaeth gan y PG/GPS a'i gyflwyno i'r Gweithredol SCHTh i'r CHTh graffu arno a'i gymeradwyo.<br><br>Ac eithrio ad-daliadau megis Trefniadau Cydweithredol, sydd angen cymeradwyaeth y CC neu'r PSC yn unig am bob swm dros £50,000. |
| £150,000 i £300,000 | Rhaid bod y gyllideb ar gael.<br><br>Tendr neu Fframwaith Ffurfiol drwy'r Adran Gaffael.<br><br>Canllawiau: Trothwy (>£215K Nwyddau a Gwasanaethau; £5.4M Gwaith yn cynnwys TAW). | Angen cymeradwyaeth y PG/GPS ac adrodd i'r i'r Gweithredol SCHTh ar ôl cael cymeradwyaeth.<br><br>Ac eithrio ad-daliadau megis Trefniadau Cydweithredol, sydd angen cymeradwyaeth y CC neu'r PSC yn unig am bob swm dros £50,000. |
| £50,000 i £149,000 | Rhaid bod y gyllideb ar gael.<br><br>Proses Gaffael drwy'r Adran Gaffael | Angen cymeradwyaeth Prif Swyddog (neu'r PS, PSC neu Cyfarwyddwr yn SCHTh). |
| £25,000 i £49,999 | Rhaid bod y gyllideb ar gael.<br><br>Proses Gaffael drwy'r Adran Gaffael | Angen cymeradwyaeth rhywun sy'n adrodd yn uniongyrchol i Brif Swyddog (neu'r PS, PSC neu Cyfarwyddwr yn SCHTh). |
| £10,000 i £24,999: | Rhaid bod y gyllideb ar gael<br><br>3 dyfynbris ysgrifenedig fwyaf manteisiol yn economaidd. | Angen cymeradwyaeth rhywun ar radd Uwch-arolygydd / Ditectif Uwch-arolygydd neu rywun sy'n adrodd yn uniongyrchol i Brif Swyddog. Mae'r Pennaeth Cymorth Gwyddonol hefyd wedi'i awdurdodi hyd at £9,999. |
| £1,500 i £9,999: | Rhaid bod y gyllideb ar gael.<br><br>Un dyfynbris o leiaf. | Angen cymeradwyaeth Arolygydd neu Brif Arolygydd neu rywun sy'n adrodd yn uniongyrchol i Brif Swyddog neu rywun sydd wedi'i awdurdodi gan y Prif Gwnstabl. |
| Rhwng £0 a £1,500 | Rhaid bod y gyllideb ar gael.<br><br>Un dyfynbris o leiaf. | Gan rywun sydd wedi'i awdurdodi i ddal cerdyn caffael neu gerdyn credyd neu sydd wedi'i awdurdodi fel arall gan y PG. |

4.4.15. Rhaid i gadeirydd pob bwrdd fel y nodir yn Strwythurau Llywodraethu SCHTh a'r heddlu, sicrhau y cydymffurfir â'r lefelau awdurdodi, bod cyllidebau ar gael a bod unrhyw risgiau ariannol yn cael eu hadrodd i Grŵp Prif Swyddogion a/neu Dîm Gweithredol SCHTh fel y bernir yn briodol.

4.4.16. Rhaid i Grŵp Prif Swyddogion a/neu dîm Gweithredol SCHTh ystyried unrhyw geisiadau grant, adennill incwm a materion codi tâl, neu unrhyw gyfleoedd sy'n cael eu hystyried, i'w cymeradwyo cyn i unrhyw waith manwl gael ei wneud.

4.4.17. Mae'r gyllideb yn cynnwys manylion am holl rolau staff yr heddlu sydd wedi'u hawdurdodi ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod a bydd Deiliaid Cyllideb yn cyfleu hyn ac yn ei gymeradwyo'n flynyddol. Bydd Panel Cymeradwyo Ffurflen Gais am Swydd Wag yn cwrdd yn wythnosol i ystyried pob cais i hysbysebu unrhyw swyddi gwag neu ychwanegol.

4.4.18. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cynhyrchu Cynllun Gweithlu blynyddol fel rhan o Ddatganiad Rheoli'r Heddlu sy'n ofynnol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ar gyfer y flwyddyn i ddod sy'n nodi, yn fanwl, y gweithgarwch recriwtio mewn perthynas â swyddogion heddlu. Rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol yr heddlu a'r Bwrdd Plismona yn flynyddol cyn pob blwyddyn ariannol. Bydd y gwaith o gyflawni'r cynllun gweithlu yn cael ei reoli gan y Bwrdd Cynllunio Gweithlu Strategol o dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a Sefydliad a bydd cynnydd ac unrhyw eithriadau yn cael eu hadrodd i Fwrdd Gweithredol a Bwrdd Plismona'r heddlu.

# 5. Gwneud Penderfyniadau

## 5.1. Cyflwyniad

5.1.1. Mae disgwyliadau uchel a gofynion statudol mewn perthynas ag argaeledd a mynediad at wybodaeth y mae cyrff cyhoeddus yn ei chadw. Mae'r CHTh wedi ymrwymo i ymgymryd â'i gyfrifoldebau dros blismona yn ei gyfanrwydd yn Nyfed-Powys yn y modd mwyaf tryloyw posibl.

5.1.2. Rhaid i'r holl benderfyniadau a wneir gan swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cynllun hwn gael eu dogfennu'n gywir a bod ar gael i'r CHTh a/neu'r PG, fel sy'n briodol, eu harchwilio ar unrhyw adeg. Mae proses o'r fath yn sicrhau y caiff ystyriaethau cyfreithiol ac ariannol perthnasol ac ystyriaethau perthnasol eraill eu cofnodi'n gywir a'u hystyried cyn gwneud penderfyniad.

5.1.3. Rhaid i holl staff y SCHTh gydymffurfio â Pholisi Gwneud Penderfyniadau'r SCHTh sy'n amlinellu'r dull a'r egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau a hefyd yn rhoi gwybodaeth ar sut y bydd penderfyniadau'n cael eu cofnodi a'u cyhoeddi.

5.1.4. Mae'r CHTh a'r PG wedi ymrwymo i fframwaith atebolrwydd clir, effeithiol a chadarn. Mae Bwrdd Plismona yn caniatáu i'r CHTh a'r PG arfer eu rolau unigol mewn ffordd dryloyw. Mae hyn yn golygu sicrhau yn lleol annibyniaeth weithredol yr heddlu; sicrhau gwaith craffu cadarn ac y caiff y PG ei ddwyn i gyfrif; a chefnogi gwneud penderfyniadau da ac effeithiol.

## 5.2. Strwythur Llywodraethu

5.2.1. Y Bwrdd Plismona yw'r fforwm lle mae'r CHTh yn dwyn y PG i gyfrif mewn perthynas ag ymgymryd â swyddogaethau'r PG a swyddogaethau'r personau sydd o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y PG.

5.2.2. Mae'r Bwrdd Plismona yn cyfarfod yn fisol, ac mae Bwrdd Plismona cyhoeddus, a elwir yn Fwrdd Perfformiad Strategol, yn cael ei gynnal bob chwarte

5.2.3. Mae'r Bwrdd Plismona yn rhoi cyfle i graffu a chael throsolwg amserol o fusnes Heddlu Dyfed-Powys. Mae'n rhoi cyfle i'r CHTh geisio sicrwydd gan y PG ar faterion deinamig sy'n dod i'r amlwg, a dwyn y PG i gyfrif am berfformiad sefydliadol.

5.2.4. Mae'r Bwrdd Plismona wrth graidd Strwythur Llywodraethu Dyfed-Powys. Mae'n fecanwaith syml ac effeithiol ar gyfer sicrhau bod y CHTh yn cyflawni ei rwymedigaeth gyfreithiol i blismona yn ei gyfanrwydd yn Nyfed-Powys tra'n diogelu annibyniaeth weithredol y PG. Mae'r CHTh a'r PG yn cynnal prosesau ar wahân i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol unigol.

5.2.5. Mae'r cylch gorchwyl yn nodi amcanion allweddol a chyflawniadau'r Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Perfformiad Strategol.

5.2.6. Yn ogystal â'r Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Perfformiad Strategol gall CHTh ofyn i'w staff ymchwilio i fater penodol yn fanwl neu gyflawni rôl graffu benodol drwy "graffu dwys" neu adolygiad "Pwyllgor Dethol". Mae'n galluogi CHTh i ddwyn y PG i gyfrif yn gyhoeddus ynghyd â chynnwys partneriaid, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol i ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth sy'n cyfrannu at y broses graffu. Mae canlyniadau ymchwiliadau a gynhelir gan y pwyllgor yn gyhoeddus ac efallai y bydd angen ymateb gan y PG a/neu asiantaethau partner eraill. Gall y canfyddiadau hefyd lywio penderfyniadau buddsoddi CHTh ynghylch darparu gwasanaethau.

5.2.7. Bydd pob adolygiad craffu penodol yn amrywio o ran ymagwedd, gan ddibynnu ar gwmpas y pwnc dan sylw. Bydd cylch gorchwyl penodol yn cael ei lunio, a bydd CHTh yn ymgynghori â'r PG amdano cyn bod gwaith yn cychwyn.

5.2.8. Grŵp y Prif Swyddogion, dan gadeiryddiaeth y PG, sy'n gyfrifol am yr holl faterion plismona gweithredol. Mae'n galluogi'r PG i lywodraethu dros faterion plismona a staff plismona. Caiff materion allweddol eu trosglwyddo i fyny i'r Bwrdd Plismona eu hystyried/newid. Yn yr un modd, caiff canlyniadau a chamau gweithredu eu trosglwyddo i lawr gan y Bwrdd Plismona.

5.2.9. Mae cyfarfod Tîm Gweithredol SCHTh, a gadeirir gan y CHTh, yn goruchwylio gweithrediad SCHTh. Bydd materion sy'n ymwneud â chaffael a chomisiynu gwasanaethau yn cael eu hystyried a'u cytuno yn y fforwm hwn, drwy ymgynghori â'r Grŵp Prif Swyddogion. Mae materion allweddol i'w hystyried / newid yn cael eu trosglwyddo ymlaen i'r Bwrdd Plismona, gan gynnwys manylion penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod Tîm Gweithredol SCHTh lle bo'n briodol. Yn yr un modd, mae canlyniadau a chamau gweithredu yn cael eu trosglwyddo yn ôl o'r Bwrdd Plismona.

5.2.10. Bydd materion a drafodir yn y Bwrdd Plismona neu'r Bwrdd Perfformiad Strategol sydd â sensitifrwydd gweithredol, yn ymwneud â gwybodaeth bersonol neu sydd â sensitifrwydd masnachol naill ai'n cael eu gwneud yn gyhoeddus ar adeg briodol yn y dyfodol neu'n cael eu cadw gan SCHTh. Bydd y penderfyniadau sy'n ymwneud â rhyddhau gwybodaeth i'r cyhoedd yn cael eu gwneud yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac offerynnau neu reoliadau statudol eraill sy'n berthnasol i'r gwasanaeth plismona a'r CHTh.

5.3. Blaenraglen Waith

5.3.1. Bydd blaenraglen waith ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar faterion ar adegau priodol drwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn yn cael ei adolygu bob pythefnos gan Dîm Uwch-reolwyr SCHTh. Bydd dull thematig yn cael ei fabwysiadu a bydd pob cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn canolbwyntio ar bwnc penodol. Bydd cwestiynau i'r PG yn cael eu nodi a'u cyflwyno ymlaen llaw, yn seiliedig ar faterion a amlygwyd trwy graffu a throsolwg SCHTh, ymgysylltu â'r gymuned, adborth cyhoeddus a risg sefydliadol.

5.3.2. Mae'r Bwrdd Perfformiad Strategol yn rhoi cyfle i graffu a goruchwylio perfformiad yr heddlu. Bydd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, a pherfformiad yn unol â mesurau cenedlaethol a chynhyrchiant sefydliadol. Bydd blaenraglen waith yn cael ei sefydlu i sicrhau bod cyfarfodydd yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar faterion ar adegau priodol drwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn yn cael ei adolygu bob pythefnos gan Dîm Uwch-reolwyr SCHTh.

# 6. Rheoliadau Ariannol

6.1. Diffiniadau

- **'Swyddog awdurdodedig'** - cyflogeion a awdurdodwyd gan Brif Swyddog.
- **'Gwerth am arian'** - y ffordd fwyaf cost-effeithiol o ddiwallu angen a chan ystyried costau oes gyfan..
- **'Prif Swyddogion'** - y PG, y Prif Weithredwr (PW) (sydd hefyd yn cyflawni rôl Swyddog Monitro), Prif Swyddog Cyllid y CHTh (PSC) a Phrif Swyddog Cyllid y PG (y cyfeirir ato o hyn allan fel y Cyfarwyddwr Cyllid (CC)).
- **'Contract'** - unrhyw ymrwymiad (gan gynnwys archebion prynu, p'un a'i gwneir drwy fframwaith ai peidio, memoranda cyd-ddealltwriaeth, prydlesi a chytundebau lefel gwasanaeth) i gaffael, prynu neu werthu nwyddau, gwasanaethau neu waith adeiladu a wneir ar ran y CHTh, y PG neu eu cyrff cysylltiedig.
- **'Gweithwyr'** – swyddogion heddlu, staff heddlu ac aelodau eraill o deulu ehangach yr heddlu ac aelodau eraill o deulu ehangach yr heddlu sy'n cael eu cyflogi ganddynt.
- **'Heddlu'** - y PG, swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu, swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, Heddlu arbennig, gwirfoddolwyr ac aelodau eraill o deulu ehangach yr heddlu o dan ei gyflogaeth / chyflogaeth.
- **'Swyddogion Statudol'** – y PSC, y CC a'r PW.

6.1.2. O fewn y Rheoliadau hyn, gwnaed y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau at gyfrifoldebau'r PG gan fod y rhan fwyaf o'r rheolaeth ariannol dydd-i-ddydd wedi'u breinio i'r swydd honno. Fodd bynnag, lle bo'r adnoddau dan reolaeth y PW neu'r PSC, bydd y dyletswyddau, yr hawliau a'r pwerau a fanylir ar gyfer y PG yn berthnasol hefyd i'r PW neu'r PSC.

6.1.3. Mae'r termau PG, PW, PSC a CC yn cynnwys unrhyw aelod o staff, unrhyw gontractwr neu asiant y gellir dirprwyo cyfrifoldebau penodol iddo. Fodd bynnag, rhaid rhoi tystiolaeth glir o lefel cyfrifoldeb dirprwyedig o'r fath, rhaid gwneud hynny hyd at lefel briodol, a rhoi digon o awdurdod, hyfforddiant ac adnoddau i'r aelod o staff gyflawni'r ddyletswydd dan sylw.

6.2. Diben

6.2.1. Diben y ddogfen hon yw cyflwyno'r Rheoliadau Ariannol sy'n berthnasol i'r CHTh, yr holl staff yn ei swyddfa, y PG a swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys, gan roi sylw dyledus i fframwaith rheoleiddio cyffredinol eu dull o reolaeth ariannol.

6.2.2. Er mwyn cynnal busnes yn effeithiol, mae polisïau rheolaeth ariannol cadarn yn hanfodol ac mae'n rhaid cadw atynt yn llwyr.

6.3. Statws

6.3.1. Ni ddylid edrych ar y Rheoliadau Ariannol hyn ar eu pennau eu hunain, ond yn hytrach fel rhan o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol cyffredinol.

6.3.2. Mae gan y CHTh, y PG a'r holl swyddogion a staff ddyletswydd gyffredinol i gymryd camau rhesymol i sicrhau diogelwch asedau sydd o dan eu rheolaeth ac i sicrhau bod y defnydd o'r adnoddau hyn yn gyfreithiol, wedi'i awdurdodi'n briodol, yn rhoi gwerth am arian, yn sicrhau'r gwerth gorau a cymdeithasol.

6.3.3. Mae'r CHTh a'r PG yn gyd-gyfrifol am gymeradwyo neu ddiwygio Rheoliadau Ariannol. Mae'r PSC a'r CC yn gyd-gyfrifol am gynnal ac adolygu'r Rheoliadau Ariannol ac am gyflwyno unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau i'r CHTh a'r PG, ar ôl ymgynghori â'r PW.

6.3.4. Bydd dirprwyo i Brif Swyddog yn y Rheoliadau Ariannol hyn yn caniatáu dirprwyo pellach i swyddogion eraill cyn belled â bod y telerau dirprwyo wedi'u dogfennu'n glir.

6.3.5. Bydd y CC yn cyhoeddi Gweithdrefnau Ariannol manylach i ategu'r Rheoliadau hyn, ar ôl ymgynghori â'r PSC a'r PW. Mae'r Gweithdrefnau Ariannol hyn ar gael ar fewnrwyd yr Heddlu.

6.3.6. Prif Swyddogion sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl gyflogeion, contractwyr ac asiantau yn ymwybodol o fodolaeth a chynnwys y Rheoliadau Ariannol hyn a'u bod yn cydymffurfio â hwy.

6.3.7. Gall achosion difrifol o dorri Rheoliadau Ariannol arwain at achos disgyblu ac, o bosibl, achos troseddol. Bydd achosion o'r fath yn cael eu hadrodd i'r PSC a/neu'r CC a fydd yn penderfynu, ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro, p'un a fydd y mater yn cael ei adrodd i'r CHTh a/neu'r PG. Rhoddir canllawiau pellach yn Adran 13.

6.3.8. Dim ond trwy benderfyniad ffurfiol gan y CHTh a'r PG y caiff y Rheoliadau Ariannol eu hatal.

6.4. Rôl Prif Swyddog Cyllid (PSC) y CHTh

6.4.1. Mae gan y PSC gyfrifoldeb dros weinyddu cyllid yn gywir a chyfrifoldeb ymddiriedol personol i drethdalwr y cyngor lleol.

6.4.2. Mae dyletswyddau'r PSC wedi'u cyflwyno mewn deddfwriaeth, mewn rheoliadau, yn y Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol ac yng nghanllawiau a chodau ymarfer CIPFA.

6.4.3. Bydd y PSC, mewn ymgynghoriad â'r PW, y CC a/neu'r PG, fel y bo'n briodol, yn cael pwerau i gychwyn unrhyw achos neu i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i ddiogelu cyllid y CHTh a'r PG.

6.4.4. Mae gan y PSC rai dyletswyddau statudol na ellir eu dirprwyo, sef adrodd unrhyw benderfyniadau anghyfreithlon posibl gan y CHTh mewn perthynas â gwariant, a pharatoi datganiad bob blwyddyn, yn unol â'r arferion priodol mewn perthynas â chyfrifon, o gyfrifon y CHTh, gan gynnwys cyfrifon grŵp.

6.4.5. Er mwyn galluogi'r PSC i gyflawni'r dyletswyddau hyn a sicrhau bod cyngor ariannol digonol ar gael i'r CHTh, rhaid i'r PSC:

- fod yn aelod allweddol o Dîm Arwain y CHTh, gan weithio'n agos gyda'r PW a helpu'r tîm i ddatblygu a gweithredu strategaethau, sicrhau adnoddau ar gyfer amcanion strategol y CHTh, a chyflawni'r amcanion hynny, mewn modd cynaliadwy ac er lles y cyhoedd;
- chwarae rhan weithredol yn holl benderfyniad busnes strategol y CHTh, a gallu dylanwadu ar y penderfyniadau hynny, er mwyn sicrhau y caiff yr agweddau ariannol ar oblygiadau, cyfleoedd a risgiau uniongyrchol a hirdymor eu hystyried yn llawn, a'u bod yn cyd-fynd â strategaeth ariannol y CHTh;;

- arwain y gwaith o hyrwyddo a sicrhau rheolaeth ariannol dda gan y CHTh fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu bob amser a'i ddefnyddio'n briodol, yn ddarbodus, yn effeithlon ac effeithiol; a
- sicrhau bod adnoddau'r swyddogaeth ariannol yn addas i'r pwrpas.

6.5. Rôl y Cyfarwyddwr Cyllid y PG (CC)

6.5.1. Mae'r CC yn gyfrifol i'r PG am yr holl weithgareddau ariannol o fewn yr Heddlu neu a gontractir allan dan oruchwyliaeth yr Heddlu.

6.5.2. Mae dyletswyddau'r CC wedi'u cyflwyno mewn deddfwriaeth, mewn rheoliadau, yn y Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol ac yng nghanllawiau a chodau ymarfer CIPFA.

6.5.3. Mae gan y CC rai dyletswyddau statudol na ellir eu dirprwyo, sef adrodd unrhyw benderfyniadau anghyfreithlon posibl gan yr Heddlu mewn perthynas â gwariant, a pharatoi datganiad bob blwyddyn, yn unol â'r arferion priodol mewn perthynas â chyfrifon, o gyfrifon y PG. Bydd angen i'r CC gadw at yr amserlen y cytunwyd arni yn lleol ar gyfer paratoi'r cyfrifon grŵp gan y PSC.

6.5.4. I'w alluogi i gyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i'r CC:

- fod yn aelod allweddol o Dîm Rheoli'r PG, gan ei helpu i ddatblygu a gweithredu strategaethau, sicrhau adnoddau ar gyfer amcanion strategol y CHTh, a chyflawni'r amcanion hynny, mewn modd cynaliadwy ac er lles y cyhoedd;
- chwarae rhan weithredol yn holl benderfyniadau busnes strategol y PG, a gallu dylanwadu ar y penderfyniadau hynny, er mwyn sicrhau y caiff y goblygiadau, cyfleoedd a'r risgiau uniongyrchol a hirdymor eu hystyried yn llawn;
- arwain y gwaith o hyrwyddo a sicrhau rheolaeth ariannol dda gan y PG fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu bob amser a'i ddefnyddio'n briodol, yn ddarbodus, yn effeithlon ac effeithiol; a
- sicrhau bod adnoddau'r swyddogaeth ariannol yn addas i'r pwrpas.

6.5.5. Rhaid cydnabod na all y Rheoliadau Ariannol hyn ragweld pob posibilrwydd. Bydd y CC, mewn ymgynghoriad â'r PSC, yn gyfrifol am ddehongli'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu gweithredu'n effeithlon ac effeithiol.

# 7. ADRAN A Fframwaith Rheolaeth Ariannol

## 7.1. Safonau Rheolaeth Ariannol

Trosolwg

7.1.1. Mae gan y CHTh, y PG a'r holl gyflogeion ddyletswydd i lynu wrth y safonau uchaf o ran cywirdeb wrth ymdrin â materion ariannol. Hwylusir hyn drwy sicrhau fod pawb yn deall pa safonau y maent yn gweithio iddynt a'r rheolaethau sydd mewn lle i sicrhau y caiff y safonau hyn eu cyrraedd.

7.1.2. Bydd y CHTh yn cael diweddariadau am berfformiad ariannol yr Heddlu a Swyddfa'r CHTh drwy gyfrwng adroddiadau monitro cyllideb ac adroddiadau alldro rheolaidd, a hefyd drwy gyfrwng y Llythyr Archwilio Blynyddol gan yr archwilydd allanol.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PSC a CC | • Sicrhau y caiff materion ariannol y CHTh a'r PG eu gweinyddu'n gywir.<br>• Sicrhau y glynir wrth arferion cywir.<br>• Cynghori ar y rheolaethau strategol allweddol y mae eu hangen i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn.<br>• Sicrhau bod gwybodaeth ariannol ar gael i alluogi monitro yn gywir ac yn brydlon ac adrodd ar gymariaethau sy'n seiliedig ar ddangosyddion perfformiad ariannol cenedlaethol a lleol.<br>• Sicrhau bod yr holl swyddogion a staff yn ymwybodol o safonau rheoli ariannol cywir, gan gynnwys y Rheoliadau Ariannol hyn, ac yn cydymffurfio â hwy.<br>• Sicrhau y caiff yr holl staff eu rheoli, eu datblygu, a'u hyfforddi'n gywir a bod ganddynt ddigon o gefnogaeth i gyflawni eu dyletswyddau ariannol yn effeithiol. |
| PG | Sicrhau y caiff dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn materion ariannol eu mynegi'n glir i swyddogion unigol ac y caiff y rhain eu cofnodi'n briodol. |

## 7.2. Systemau Cyfrifyddu, Cofnodion a Dychweliadau

Trosolwg

7.2.1. Mae cadw cofnodion cyfrifyddu priodol yn un o'r ffyrdd y bydd y CHTh a'r PG yn cyflawni eu cyfrifoldeb i warchod adnoddau cyhoeddus. Mae cyfrifoldeb statudol i baratoi eu cyfrifon blynyddol mewn ffordd sy'n cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y CHTh a'r PG ac o weithrediadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn destun archwilio allanol. Mae'r archwilio hwn yn rhoi sicrwydd y caiff y cyfrifon eu paratoi'n gywir, bod arferion cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn a bod trefniadau digonol wedi'u gwneud ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.


34

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PSC a'r CC | • Pennu'r polisïau a'r gweithdrefnau cyfrifyddu sydd i'w mabwysiadu, yn unol â'r arferion cyfrifyddu cydnabyddedig, a chymeradwyo'r systemau a'r gweithdrefnau cyfrifyddu strategol a ddefnyddir gan y PG. Rhaid i bob cyflogai weithredu o fewn y polisïau cyfrifyddu gofynnol a'r amserlenni cyhoeddedig.<br>• Gwneud trefniadau priodol ar gyfer archwilio cyfrifon y CHTh a'r PG a'r cyfrifon grŵp yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yng Nghymru.<br>• Sicrhau y caiff pob hawliad am arian, yn cynnwys grantiau, ei wneud erbyn y dyddiad terfyn.<br>• Sicrhau y caiff cysoniadau banc a chyfrifon rheoli allweddol eraill eu cysoni yn brydlon ac yn gywir.<br>• Paratoi a chyhoeddi'r cyfrifon wedi'u harchwilio yn unol â'r amserlen statudol. |
| PG a'r CC | • Cael cymeradwyaeth y PSC cyn gwneud unrhyw newidiadau sylfaenol i gofnodion a gweithdrefnau cyfrifyddu neu i systemau cyfrifyddu.<br>• Sicrhau y caiff yr holl drafodion, ymrwymiadau perthnasol a chontractau, a'r holl wybodaeth gyfrifyddu hanfodol arall eu cofnodi'n llwyr, yn gywir ac yn brydlon.<br>• Cadw cofnodion digonol i sicrhau llwybr rheoli sy'n arwain o'r ffynhonnell incwm a gwariant hyd at y datganiadau cyfrifyddu.<br>• Sicrhau y cedwir y prif ddogfennau yn unol â gofynion deddfwriaethol a mewnol. Rhaid i fformat dogfennau o'r fath fodloni gofynion archwiliadau mewnol ac allanol. |

7.3. Y Datganiad Blynyddol o Gyfrifon

Trosolwg

7.3.1. Mae gan y CHTh a'r PG gyfrifoldeb statudol i baratoi cyfrifon sy'n cyflwyno darlun cywir a theg o'u sefyllfa ariannol. Rhaid iddynt fod yn barod, yn unol ag arferion priodol, fel y nodir yn y Côd Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Bydd y cyfrifon yn cynnwys datganiadau ar wahân ar gyfer y CHTh a'r PG yn ogystal â chyfrifon grŵp yn cwmpasu'r ddau endid.

7.3.2. Y CHTh sy'n gyfrifol am gymeradwyo cyfrifon blynyddol y grŵp.

7.3.3. Mae'r cyfrifon yn destun adolygiad annibynnol manwl gan yr archwilydd allanol. Mae'r archwiliad hwn yn rhoi sicrwydd y caiff y cyfrifon eu paratoi'n gywir, y dilynwyd arferion cyfrifyddu priodol a bod trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.



35

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PSC a'r CC | • Llunio'r amserlen ar gyfer paratoi cyfrifon terfynol, mewn ymgynghoriad â'r archwilydd allanol ac er mwyn cydymffurfio â'r amserlenni statudol.<br>• Paratoi, llofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, gan nodi ei fod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y CHTh a'r PG ar y dyddiad cyfrifyddu ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd newydd ddod i ben.<br>• Cyhoeddi'r cyfrifon, ar ôl eu cymeradwyo a'u harchwilio, bob blwyddyn, yn unol â'r amserlen statudol.<br>• Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu mewn ffordd gyson.<br>• Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a darbodus.<br>• Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol. |
| CHTh a'r PG | Ystyried a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol yn unol â'r amserlen statudol. |

# 8. ADRAN B Cynllunio a Rheoli Ariannol

## 8.1. Cynllunio Ariannol

Trosolwg

8.1.1. Dylai'r broses cynllunio ariannol gael ei llywio gan y fframwaith polisi a gymeradwywyd, cynllun Ariannol Tymor Canolig, Ddatganiad Rheoli'r Heddlu, y brosesau cynllunio busnes a'r angen i gyflawni amcanion allweddol.

8.1.2. Mae'r Cylch Cynllunio a Sicrwydd Strategol yn broses barhaus sy'n gydnaws â'r gofynion adrodd ariannol drwy gydol y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn caniatáu i'r CHTh a'r PG gynllunio, monitro a rheoli'r ffordd y caiff arian ei ddyrannu a'i wario yn ystod y flwyddyn ariannol a thros y tymor canolig.

8.1.3. Mae fformat y gyllideb flynyddol yn pennu pa mor fanwl yr ymgymerir â rheolaeth ariannol ac yn siapio sut mae'r rheolau ar gyfer trosglwyddo rhwng cyllidebau yn gweithredu.

8.1.4. Cydnabyddir y caiff effaith cynllunio ariannol yn y gwasanaeth heddlu ei chyfyngu gan ansawdd ac amseru'r wybodaeth a roddir gan y Llywodraeth Ganolog ar ddyrannu adnoddau.

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

8.1.5. Mae'r CHTh a'r PG yn rhannu cyfrifoldeb ar gyfer cynllunio ariannol a chyllidebol effeithiol ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Maent yn cyflawni hyn trwy baratoi cynllun ariannol tymor canolig, gan gynnwys rhagamcanion ariannol am dair blynedd o leiaf ynghyd â rhaglen gyfalaf sy'n cwmpasu'r un cyfnod.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| CHTh | Nodi a chytuno, mewn ymgynghoriad â'r PG a phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol eraill, cynllun ariannol tymor canolig sy'n cynnwys cyllid a chynlluniau gwariant ar gyfer refeniw a chyfalaf. Dylai'r cynllun roi ystyriaeth i flynyddoedd lluosog, rhyngddibyniaethau cyllidebau refeniw a buddsoddiadau cyfalaf, rôl cronfeydd wrth gefn a risg. Dylai roi ystyriaeth i fforddiadwyedd a hefyd i'r Cod Materion Ariannol ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (CIPFA). Dylai'r strategaeth gyd-fynd â'r Cynllun Heddlu a Throseddu. |
| PSC a'r CC | • Penderfynu ar fformat ac amseriad y cynllun ariannol tymor canolig i'w chyflwyno i'r CHTh. Rhaid i'r fformat gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol ac â'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddir gan CIPFA.<br>• Paratoi rhagolygon tymor canolig o incwm a gwariant arfaethedig i'w cyflwyno i'r CHTh. Wrth baratoi'r rhagolygon, bydd y PG yn ystyried:<br>o y Cynllun Heddlu a Throseddu;<br>o gofynion polisi a gymeradwywyd gan y CHTh fel rhan o'r fframwaith polisi;<br>o y Gofyniad Plismona Strategol;<br>o ymrwymiadau anochel yn y dyfodol, gan gynnwys |

| | |
|---|---|
| | gofynion deddfwriaethol;<br>o mentrau sydd eisoes ar y gweill;<br>o goblygiadau refeniw y rhaglen gyfalaf;<br>o datblygiadau a chynlluniau gwasanaeth arfaethedig sy'n adlewyrchu ymgynghoriadau cyhoeddus;<br>o yr angen i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a/neu gynhyrchiant;<br>o dyraniadau grant y Llywodraeth; a<br>o goblygiadau posibl i drethdalwyr lleol.<br><br>• Sicrhau bod y rhagolygon ariannol tymor canolig yn cynnwys opsiynau ar gyfer defnyddio balansau, cronfeydd wrth gefn a darpariaethau cyffredinol, a rhagdybiaethau ynghylch lefelau cyllid y llywodraeth yn y dyfodol, ac yn dangos goblygiadau posibl ar gyfer trethi lleol. |

Paratoi Cyllideb Refeniw Flynyddol

Trosolwg

8.1.6. Mae'r gyllideb refeniw yn rhoi amcangyfrif o'r gofynion incwm a gwariant blynyddol ar gyfer gwasanaeth yr heddlu ac yn cyflwyno goblygiadau ariannol polisïau strategol y CHTh. Mae'n rhoi awdurdod i Brif Swyddogion ymrwymo i wariant, ac yn cynnig sail iddynt ar gyfer monitro perfformiad ariannol y CHTh a'r PG.

8.1.7. Dylai'r CHTh ymgynghori â'r PG a phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol eraill wrth gynllunio'r gyllideb flynyddol gyffredinol a fydd yn cynnwys cyllideb ar wahân ar gyfer yr Heddlu. Bydd hyn yn ystyried cyllid gan y Llywodraeth ac o ffynonellau eraill ac yn cydbwyso anghenion gwariant y gwasanaeth plismona a'r CHTh yn erbyn lefel trethi lleol. Dylai hyn fodloni'r gofynion statudol i sicrhau cyllideb gytbwys a dylid cyflawni'r gwaith yn unol â'r amserlen statudol.

8.1.8. Dylid nodi'n glir effaith y gyllideb flynyddol ar flaenoriaethau a chyllid y blynyddoedd i ddod fel y'u nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu a'r cynllun ariannol tymor canolig.

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| CHTh | • Cytuno ar yr amserlen gynllunio gyda'r PG.<br>• Canfod barn y gymuned leol ar y gwariant arfaethedig (gan gynnwys gwariant cyfalaf) cyn y flwyddyn ariannol y mae'r gwariant arfaethedig yn berthnasol iddi.<br>• Cyflwyno'r gyllideb arfaethedig a'r argymhellion praesept i'r Panel Heddlu a Throseddu ac ymateb i'w farn a'i sylwadau. |



38

| | |
|---|---|
| PSC | • Penderfynu ar fformat y gyllideb refeniw i'w chyflwyno i'r CHTh mewn ymgynghoriad â'r CC. Rhaid i'r fformat gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol ac â'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddir gan CIPFA.<br>• Cael gwybodaeth amserol a chywir gan yr awdurdodau bilio ar sylfaen y dreth gyngor a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran arian dros ben/diffyg arian mewn cronfeydd casglu i lywio trafodaethau cyllideb.<br>• Cynghori'r CHTh ar neilltuadau a lefel briodol balansau cyffredinol, cronfeydd a glustnodwyd neu ddarpariaethau i'w dal.<br>• Cyflwyno adroddiad i'r CHTh ar (1) gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn a (2) y gyfres o ddangosyddion darbodus ar gyfer y tair blynedd nesaf, sy'n deillio o'r Cod Materion Ariannol ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol. Bydd y dangosyddion hyn yn gyson â'r gyllideb refeniw flynyddol a'r rhaglen gyfalaf a gymeradwyir gan y CHTh.<br>• Ar ôl cymeradwyo'r gyllideb flynyddol, cyflwyno ffurflen gofyniad y dreth gyngor i'r Llywodraeth Ganolog a cheisiadau praesept i gyrff priodol yn unol â'r gofyniad cyfreithiol.<br>• Cynhyrchu a chyhoeddi'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr awdurdodau bilio i egluro sut y caiff y praesept ei ddefnyddio i dalu am gost plismona, yn unol â gofynion statudol. |
| PG a'r CC | • Paratoi amcangyfrifon cyllideb manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gyda'r PSC.<br>• Cyflwyno amcangyfrifon yn y fformat y cytunwyd arno i'r CHTh eu cymeradwyo.<br>• Nodi'r holl brosiectau refeniw mawr newydd (diffinnir prosiect refeniw mawr fel un sy'n fwy na'r gwerth a ddangosir yn Adran 12). |

8.2. Rheoli Cyllideb

<u>Trosolwg</u>

8.2.1. Mae rheoli cyllideb yn sicrhau, unwaith y bydd CHTh wedi cymeradwyo'r gyllideb, y caiff adnoddau a ddyrennir eu defnyddio at y pwrpas y bwriedir iddynt, ac y cyfrifir amdanynt yn gywir. Mae rheoli cyllideb yn broses barhaus, sy'n galluogi'r PG a'r CHTh i adolygu ac addasu eu targedau cyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae hefyd yn darparu'r mecanwaith sy'n dwyn rheolwyr sy'n gyfrifol am elfennau diffiniedig o'r gyllideb i gyfrif.

<u>Monitro Cyllideb Refeniw</u>

<u>Trosolwg</u>

8.2.2. Mae'r CHTh a'r PG yn gweithredu o fewn terfyn arian blynyddol, a gymeradwyir pan gaiff y gyllideb flynyddol ei phennu. Er mwyn sicrhau nad oes gorwario ar y gyllideb, mae'n ofynnol i'r PG, y Prif Weithredwr a'r PSC reoli gwariant o fewn eu dyraniadau cyllideb, yn amodol ar y rheolau trosglwyddo rhwng cyllidebau.



39

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
| --- | --- |
| PG a'r CC | • Darparu gwybodaeth ariannol briodol i alluogi monitro cyllidebau yn effeithiol.<br>• Sicrhau bod gwariant yn cefnogi'r nodau cynaliadwy a nodir yn y Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio.<br>• Sicrhau bod rheolwr cyllideb wedi'i enwi ar gyfer pob elfen o incwm neu wariant i fod yn gyfrifol am y rhan honno o'r gyllideb. Dylai'r cyfrifoldeb cyllidebol gyd-fynd mor agos â phosibl â'r broses benderfynu sy'n ymrwymo gwariant.<br>• Sicrhau bod cyfanswm y gwariant ar gyfer plismona gweithredol yn parhau o fewn y dyraniad cyffredinol o adnoddau a chymryd camau cywiro lle rhagwelir amrywiadau sylweddol oddi wrth y gyllideb a gymeradwywyd. Pan fydd cyfanswm y gwariant a ragwelir yn uwch na chyfanswm yr adnoddau a ddyrennir oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y PG, rhaid rhoi gwybod i'r PSC a'r CHTh ar unwaith a dylid cyflwyno cynigion i ddatrys hynny fel rhan o'r broses adrodd reolaidd i'r CHTh.<br>• Cyflwyno adroddiad monitro cyllideb i'r CHTh bob mis trwy gydol y flwyddyn, sy'n cynnwys y wybodaeth ariannol fwyaf diweddar. Bydd yr adroddiadau mewn fformat y cytunir arno gyda'r CHTh a'r PSC a chânt eu cyflwyno yn y Bwrdd Plismona.<br>• Sicrhau bod deiliaid cyllideb yn rheoli incwm a gwariant yn eu hardaloedd, yn monitro perfformiad ac yn adrodd am amrywiadau yn eu hardaloedd eu hunain i'r PG a'r CC.<br>• Cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i osgoi amrywiadau andwyol i'w dyraniad cyllideb a rhybuddio'r CHTh a'r PSC am unrhyw broblemau.<br>• Mynnu bod y deiliaid cyllideb yn monitro'r gyllideb yn fanwl yn rheolaidd a bod hyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r CC.<br>• Sicrhau bod deiliaid cyllideb yn cael digon o gymorth ariannol a / neu hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau rheoli cyllideb.<br>• Cyfeirio prosiectau refeniw mawr yn ôl i'r CHTh i'w cymeradwyo ymhellach lle gofynnir am welliannau i natur y cynllun neu lle bo cost y cynllun yn uwch na'r terfynau a ddangosir yn Adran 12. |
| PSC a'r CC | Cyflwyno adroddiad monitro cyllideb, sy'n cynnwys y wybodaeth ariannol fwyaf diweddar, i'r CHTh yn dangos gwariant hyd yma ac yn cymharu'r alldro a ragwelir gyda'r gyllideb ddiweddaraf a gymeradwywyd. |
| PW | • Rheoli'r gyllideb a ddyrennir ar gyfer Swyddfa'r CHTh.<br>• Sicrhau bod cyfanswm y gwariant ar gyfer Swyddfa'r CHTh yn parhau o fewn y dyraniad cyffredinol o adnoddau a chymryd camau cywiro lle rhagwelir amrywiadau sylweddol oddi wrth y gyllideb a gymeradwywyd. Mewn ymgynghoriad â'r PSC, pan fydd cyfanswm y gwariant a ragwelir yn uwch na chyfanswm yr adnoddau a ddyrennir oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Pennaeth Staff, rhaid rhoi gwybod i'r CHTh ar unwaith a dylid cyflwyno cynigion i ddatrys y sefyllfa fel rhan o'r broses adrodd reolaidd i'r CHTh. |

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau | • Rheoli'r gyllideb a bennwyd ar gyfer comisiynu gwasanaethau.<br>• Rheoli incwm a gwariant comisiynu, monitro perfformiad ac adrodd ar amrywiadau wrth y PSC. |

Trosglwyddo Refeniw

Trosolwg

8.2.3. Ystyr trosglwyddo yn y cyswllt hwn yw trosglwyddo arian rhwng cyllidebau (*virement*). Bwriad y cynllun trosglwyddo yw galluogi Prif Swyddogion i fod rhywfaint yn hyblyg wrth reoli eu cyllidebau o fewn y fframwaith polisi cyffredinol a bennir gan y CHTh ac, felly, i roi'r cyfle i wneud y defnydd gorau o adnoddau i fodloni'r anghenion a ddaw i'r amlwg.

8.2.4. Disgwylir i'r PG arfer disgresiwn wrth reoli cyllidebau mewn modd cyfrifol a darbodus ac mae'n ofynnol iddo gyfeirio yn ôl at y CHTh pan fyddai trosglwyddiad yn achosi newidiadau sylweddol ym mholisi'r CHTh neu lle gallai trosglwyddiad greu ymrwymiad yn y dyfodol neu ymrwymiad parhaus.

8.2.5. Caiff y PG ei ddwyn i gyfrif gan y CHTh am y penderfyniadau a wneir a'r ffordd y caiff adnoddau eu defnyddio. Mae'r rheolau trosglwyddo yn caniatáu mwy o ryddid ond maent yn gofyn adroddiadau manwl am newidiadau sylweddol.

8.2.6. Mae'r rheolaethau allweddol ar gyfer y cynllun trosglwyddo fel a ganlyn:

- Fe'i gweinyddir gan Brif Swyddogion o fewn pwerau dirprwyedig a roddir gan y CHTh. Mae angen cymeradwyaeth y CHTh ar gyfer unrhyw amrywiad oddi wrth y cynllun hwn;
- Mae'r CHTh yn cytuno ar y gyllideb gyffredinol. Felly, awdurdodir Prif Swyddogion a rheolwyr cyllideb i wario yn unol â'r amcangyfrifon sy'n ffurfio'r gyllideb;
- Nid yw'r trosglwyddiad yn creu atebolrwydd cyllidebol cyffredinol ychwanegol; a
- Bydd pob Prif Swyddog yn sicrhau y gwneir y trosglwyddiad yn ôl yr angen i sicrhau cywirdeb monitro'r gyllideb.

Cyfrifoldebau

8.2.7. Mae'r terfynau sy'n berthnasol i drosglwyddiadau rhwng penawdau cyllideb wedi'u diffinio yn Adran 12.

8.2.8. Mae'r eithriadau i'r fframwaith uchod fel a ganlyn:

- Ni chaniateir trosglwyddiad mewn perthynas ag ariannu eitemau megis ffioedd asedau neu lle byddai cynnig yn effeithio'n andwyol ar ymrwymiadau refeniw tymor hir y PG a'r CHTh; a
- Pan fo'r trosglwyddiad rhwng llinell gyllideb incwm a llinell gyllideb gwariant sy'n uniongyrchol gysylltiedig, ceisir cymeradwyaeth y PSC a/neu'r CC a bydd y cyllidebau incwm a gwariant yn cael eu cynyddu at ddibenion monitro'r gyllideb.

8.2.9. Bydd llinellau cyllideb yn gyfyngedig i arian parod ac yn cael eu diffinio bob blwyddyn fel rhan o gymeradwyo'r gyllideb.



41

8.2.10. Rhaid i bob cais am drosglwyddiad gael ei wneud yn y fformat a ragnodir gan y PSC a/neu'r CC a bydd gwybodaeth am y trosglwyddiadau o fewn y terfynau a nodir yn Adran 12 ar gael er mwyn cefnogi gwybodaeth adroddiadau monitro'r gyllideb.

8.2.11. Bydd angen cymeradwyaeth y CHTh os yw'r trosglwyddiad yn cynnwys:

- newid polisi sylweddol
- ychwanegiad sylweddol at ymrwymiadau yn y dyfodol
- adnoddau i'w trosglwyddo a ddarparwyd yn wreiddiol ar gyfer gwariant o natur gyfalaf.

Trin Balansau Diwedd Blwyddyn

Trosolwg

8.2.12. Balans diwedd blwyddyn yw'r swm y mae incwm a gwariant gwirioneddol yn amrywio oddi wrth y gyllideb derfynol. Mae angen trefniadau ar gyfer trosglwyddo adnoddau rhwng blynyddoedd cyfrifyddu, h.y. dwyn arian ymlaen.

8.2.13. Ni cheir dwyn cyllidebau a danwariwyd ac a orwariwyd ymlaen ond o fewn y terfynau dirprwyedig a nodir yn y cynllun dwyn arian ymlaen. Bydd dwyn arian ymlaen yn destun adroddiad i'r CHTh fel rhan o adroddiad alldro diwedd y flwyddyn. Bydd yn ofynnol i Reolwyr Cyllideb fodloni'r PG bod y gwariant a gynigir yn erbyn dwyn arian a danwariwyd ymlaen yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu ac nad yw o natur ailadroddus.

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| PSC a'r CC | • Sicrhau bod Rheolwyr Cyllideb yn adrodd unrhyw orwariant ar eu cyllidebau mewn unrhyw flwyddyn ariannol.<br>• Sicrhau bod gorwariant / tanwariant posibl a sylweddol yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Plismona.<br>• Ystyried ceisiadau gan Reolwyr Cyllideb sy'n nodi tanwariant arfaethedig mewn unrhyw flwyddyn ariannol i ddwyn darpariaeth yn y gyllideb ymlaen i'r flwyddyn ariannol ganlynol, yn amodol ar y terfynau a nodir yn Adran 12.<br>• Cyfeirio'r holl achosion o ddwyn arian ymlaen sy'n syrthio y tu allan i'r paramedrau a nodir yn y Rheoliadau hyn i'r CHTh i'w cymeradwyo. |
| CHTh | Ystyried a chymeradwyo'r trefniadau ar gyfer dwyn tanwariant ymlaen wrth ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a'r balansau fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ariannol. |

## 8.3. Rhaglen Gyfalaf

Trosolwg

8.3.1. Mae gwariant cyfalaf yn ymwneud â chaffael neu wella asedau sefydlog sydd â gwerth hirdymor, megis tir, adeiladau, ac eitemau mawr o beirianwaith, cyfarpar neu gerbydau. Mae asedau cyfalaf yn siapio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno yn y tymor hir a gallant greu ymrwymiadau ariannol ar ffurf costau ariannu a chostau rhedeg refeniw.

8.3.2. Gellir ymgymryd â buddsoddiad cyfalaf a bwrw bod y cynlluniau gwariant yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Mae Cod Materion Ariannol CIPFA yn cyflwyno'r fframwaith y bydd y CHTh yn ystyried ei gynlluniau gwario o'i fewn.

8.3.3. Rhaid cynnwys y rhaglen gyfalaf o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PG | Datblygu a gweithredu cynlluniau rheoli asedau a gymeradwyir. |
| PSC a'r CC | Paratoi Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r CHTh ei hystyried a'i chymeradwyo, gan gynnwys holl oblygiadau ariannol cynlluniau gwariant cyfalaf. |
| CHTh | • Cymeradwyo strategaethau a chynlluniau rheoli asedau sy'n cynnwys cynigion ar gyfer buddsoddiad sylweddol mewn asedau cyfalaf.<br>• Cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf Tymor Canolig wedi'i hariannu'n llawn. |
| PG a'r CC | • Paratoi rhaglen dreigl ddeng mlynedd ar gyfer gwariant cyfalaf arfaethedig i'r PSC a'r CHTh ei hystyried a'i chymeradwyo. Rhaid i bob cynllun nodi cyfanswm cost cyfalaf y prosiect ac unrhyw ymrwymiadau refeniw ychwanegol.<br>• Defnyddio'r Ffurflen Cynnig Prosiect neu'r Model Pum Achos[7] i baratoi arfarniadau prosiect ar gyfer pob cynllun sydd i'w gynnwys yn y rhaglen gyfalaf i'w cyflwyno i'r PSC a'r CHTh iddynt eu hystyried a chymeradwyo'r cynllun. Bydd hyn yn cynnwys yr holl gostau refeniw a chyfalaf ychwanegol ac yn rhoi tystiolaeth o ddichonoldeb cynnwys y cynllun yn y rhaglen gyfalaf.<br>• Sicrhau bod gan bob prosiect cyfalaf swyddog a enwir sy'n gyfrifol am noddi'r cynllun, monitro cynnydd a sicrhau bod y cynllun yn cael ei gwblhau.<br>• Nodi, mewn ymgynghoriad â'r PSC, ffynonellau cyllid sydd ar gael ar gyfer y rhaglen gyfalaf.<br>• Peidio â mynd i wariant cyfalaf oni bai bod y cynllun yn cael ei gymeradwyo gan y CHTh. |

[7] Safon Trysorlys EM a Llywodraeth Cymru ar gyfer achosion busnes

| | |
|---|---|
| PSC | Gwneud argymhellion i'r CHTh ynghylch y lefel fwyaf priodol o gymorth refeniw, ad-dalu dyledion a lefelau priodol o fenthyca, o dan y Cod Materion Ariannol, i gefnogi'r rhaglen gyfalaf. |

Rhaglen Gyfalaf Flynyddol

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| CHTh | Cytuno ar y rhaglen gyfalaf flynyddol, a sut y caiff ei hariannu. |
| PG | Mynd i wariant, ar yr amod bod yr arfarniad prosiect wedi'i gymeradwyo a bod cost y cynllun wedi'i chynnwys o fewn y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd, ac ar yr amod nad yw amrywiadau cost yn mynd dros y swm sydd yn y rhaglen a gymeradwywyd gan fwy na'r symiau a nodwyd yn Adran 12. |
| CC | Sicrhau nad ymgymerir â phrydlesi eiddo, prydlesi cyllid neu drefniadau credyd eraill sydd uwchlaw'r terfynau a nodir yn Adran 12 o ran gwerth neu hyd, heb gymeradwyaeth y PSC ymlaen llaw. |

Monitro Gwariant Cyfalaf

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| PG | Sicrhau y cedwir cofnodion digonol ar gyfer pob contract cyfalaf. |
| PSC a'r CC | Monitro cynnydd y rhaglen gyfalaf a'r gwariant cyfalaf drwy gydol y flwyddyn yn erbyn y rhaglen a gymeradwywyd.<br>Cyflwyno adroddiadau monitro cyfalaf i'r CHTh yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Rhaid i'r adroddiadau hyn fod yn seiliedig ar y wybodaeth ariannol ddiweddaraf. Bydd yr adroddiadau monitro yn dangos gwariant hyd yma ac yn cymharu'r incwm a'r gwariant a ragamcanwyd gyda'r rhaglen a gymeradwywyd. Bydd yr adroddiadau mewn fformat y mae'r PSC yn cytuno arno.<br>Paratoi achos busnes (gan ddefnyddio'r Ffurflen Cynnig Prosiect neu'r Model Pum Achos) ar gyfer pob cynllun cyfalaf newydd (ar ôl cytuno ar y rhaglen flynyddol) i'w gyflwyno i'r CHTh i ymgynghori arno a'i gymeradwyo.<br>Dangos sut y dylid ariannu unrhyw newidiadau i'r rhaglen sy'n cynyddu'r costau cyffredinol.<br>Adrodd ar alldro gwariant cyfalaf fel rhan o'r adroddiad blynyddol ar y cyfrifon statudol. |



44

8.4. Cadw Balansau a Chronfeydd wrth Gefn

Trosolwg

8.4.1. Rhaid i'r CHTh benderfynu ar lefel y cronfeydd cyffredinol y mae'n dymuno cadw cyn y gall benderfynu ar lefel praesept y dreth gyngor. Cedwir cronfeydd wrth gefn er mwyn bod yn ddarbodus. Maent yn galluogi'r sefydliad i ddarparu ar gyfer amrywiadau mewn llif arian a digwyddiadau costus annisgwyl ac felly, os digwydd hynny, maent yn helpu i'w warchod rhag gorwario'r gyllideb flynyddol. Gellir cadw cronfeydd wrth gefn at ddibenion penodol hefyd os yw'n debygol y bydd angen gwario yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| PSC | • Cynghori'r CHTh ar lefelau rhesymol o falansau a chronfeydd wrth gefn.<br>• Adrodd i'r CHTh ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn a'r balansau cyn iddo/iddi gymeradwyo'r gyllideb flynyddol a'r praesept.<br>• Cymeradwyo neilltuadau i bob cronfa a glustnodwyd ac allan o bob un. |
| PG | • Sicrhau bod y gyllideb refeniw flynyddol yn ddigonol i ariannu'r anghenion gweithredol rhagweladwy heb orfod gofyn am gymeradwyaeth ychwanegol.<br>• I gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y PSC a'r CHTh ar gyfer eitemau gwariant un-tro sydd i'w hariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a/neu rai cyffredinol. |
| CHTh | • Cymeradwyo polisi ar gronfeydd wrth gefn a balansau, gan gynnwys y lefel dderbyniol isaf o falansau cyffredinol.<br>• Cymeradwyo creu pob cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi. Dylid pennu diben, defnydd a sail trafodion yn glir ar gyfer pob cronfa wrth gefn a sefydlir.<br>• Cymeradwyo dyraniadau arian i gronfeydd wrth gefn cyffredinol a chlustnodedig ac allan ohonynt, fel rhan o'r broses flynyddol o bennu'r gyllideb. |

# 9. ADRAN C Rheoli Risg ac Adnoddau

## 9.1. Rheoli Risg a Pharhad Busnes

Trosolwg

9.1.1. Mae'n hanfodol datblygu a chynnal systemau cadarn, integredig ar gyfer nodi a gwerthuso'r holl risgiau corfforaethol a gweithredol sylweddol posibl. Dylai hyn gynnwys cyfranogiad rhagweithiol pawb sy'n gysylltiedig â chynllunio a chyflwyno gwasanaethau.

9.1.2. Mae pob sefydliad, boed yn sefydliad sector preifat neu gyhoeddus, yn wynebu risgiau i bobl, eiddo a pharhad gweithrediadau. Risg yw'r siawns neu'r posibilrwydd o golled, niwed, anaf neu fethu â chyflawni amcanion a achosir gan weithred neu ddigwyddiad dieisiau neu ansicr. Ni ellir dileu risg yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae rheoli risg yn cwmpasu ymagwedd gynlluniedig a systematig ar gyfer adnabod, gwerthuso ac ymdrin â risg. Ei amcanion yw sicrhau asedau'r CHTh a'r PG a sicrhau lles corfforaethol ac ariannol parhaus. Yn ei hanfod, felly, mae'n rhan annatod o arfer busnes da.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| CHTh a'r PG | Mae'r Côd Llywodraethu Corfforaethol yn amlygu pwysigrwydd ymgorffori rheoli risg yn holl drefniadau llywodraethu y ddau sefydliad, boed hynny wrth weithredu ar y cyd neu ar wahân. Mae'r CHTh a'r PG yn gyfrifol ar y cyd am gymeradwyo'r datganiad polisi a'r strategaeth rheoli risg, ac am adolygu effeithiolrwydd rheoli risg. |
| DBG/PW | • Paratoi datganiad polisi rheoli risg a hyrwyddo diwylliant o ymwybyddiaeth rheoli risg ar draws yr Heddlu a'r SCHTh ac adolygu risg yn barhaus.<br>• Sicrhau bod gweithdrefnau i nodi, asesu, atal neu rwystro lledaeniad risg sylweddol hysbys mewn lle, gyda phroses fonitro, ac adolygu effeithiolrwydd strategaethau lleihau risg yn rheolaidd ynghyd â'r modd y caiff y rheolaethau hyn eu gweithredu. Dylai'r broses rheoli risg gael ei ffurfioli a'i gweithredu yn barhaus.<br>• Sicrhau bod risg yn cael ei adolygu'n flynyddol, gan gynnwys y datganiad awydd risg.<br>• Mae risgiau i'w rheoli trwy gynnal Cofrestr Risg Gorfforaethol, sy'n ymgorffori'r Gofrestr Risg Gwybodaeth. Mae'r Gofrestr Risg Gwybodaeth yn darparu rheolaethau rheoli a llywodraethu risgiau gwybodaeth o fewn cyd-destun goddefiad risg mwy gofalus nag sy'n wir ar draws meysydd cyffredinol rheoli risg. Datblygodd yr heddlu a SCHTh Fframwaith Rheoli ar y cyd gyda'r nod o reoli risgiau sy'n effeithio ar y ddau sefydliad yn effeithiol a sicrhau y cynhelir hyder yn yr heddlu a SCHTh, diogelu hyder y cyhoedd ac uniondeb yr heddlu gan sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae risgiau perthnasol yn cael eu hystyried gan y byrddau priodol ac yn cael eu huwchgyfeirio i gyfarfod Bwrdd Gweithredol yr Heddlu / Tîm Gweithredol SCHTh fel y bo'n briodol. Cyflwynir adroddiadau ar y ddwy Gofrestr Risg i'r Cyd-bwyllgor Archwilio bob chwarter. |

| | |
|---|---|
| | • Sicrhau bod cynlluniau priodol ar gyfer parhad busnes yn dal i gael eu datblygu, eu gweithredu a'u profi yn rheolaidd. Mae angen i'r CHTh a'r PG reoli risgiau gan sicrhau y gwneir penderfyniadau er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian a helpu i gefnogi penderfyniadau gwell. |
| PSC a'r CC | • Cynghori'r CHTh a'r PG ar drefniadau priodol ar gyfer yswiriant. Dylid penderfynu ar lefelau risg derbyniol a dylid yswirio yn erbyn y rhain lle bo'n briodol. Ni ddylid ymgymryd â gweithgareddau sy'n arwain at lefelau risg yr aseswyd eu bod yn annerbyniol.<br>• Trefnu i gynnal adolygiadau rheolaidd o drefniadau hunan-yswiriant ac, yn dilyn yr adolygiadau hyn, argymell camau gweithredu i'r CHTh a'r PG er mwyn sicrhau bod arian ar gael, dros y tymor canolig, i fodloni'r holl rwymedigaethau hysbys. |
| PG | • Sicrhau, mewn ymgynghoriad â'r PSC a'r CC, y darperir yswiriant priodol, gan gynnwys lle mae risgiau newydd wedi'u nodi neu lle mae'r amgylchiadau sy'n effeithio ar risgiau yn newid.<br>• Gweinyddu materion yn ymwneud ag yswiriant, gan gynnwys setlo hawliadau atebolrwydd.<br>• Rhoi gwybod i'r PSC am unrhyw hawliadau unigol am fwy na £30,000.<br>• Rhoi gwybod i'r Prif Weithredwr am unrhyw delerau indemniad y gofynnir amdanynt.<br>• Sicrhau y gwneir hawliadau yn erbyn polisïau yswiriant yn brydlon.<br>• Rhoi gwybod i'r holl gyflogeion priodol am eu cyfrifoldebau am reoli risgiau perthnasol.<br>• Sicrhau bod cyflogeion, neu unrhyw un sy'n dod o dan yswiriant y PG a'r CHTh, yn cael cyfarwyddyd i beidio ag addef atebolrwydd neu wneud unrhyw gynnig i dalu iawndal a allai fod yn niweidiol wrth asesu atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw hawliad yswiriant.<br>• Sicrhau y cynhyrchir cofrestr risg gynhwysfawr a'i bod yn cael ei diweddaru'n rheolaidd, ac y cymerir camau cywiro cyn gynted ag y bo modd i drosglwyddo, trin, goddef neu derfynu'r risg a nodwyd. |
| PW | • Gwerthuso ac awdurdodi unrhyw delerau indemniad y mae partïon allanol yn gofyn amdanynt.<br>• Cymeradwyo, cyn gwneud unrhyw gontract ar gyfer gwaith, bod yr yswiriant y mae'n rhaid i'r contractwr ei sicrhau mewn perthynas ag unrhyw weithred neu ddiffygdalu yn ddigonol oni bai fod y CHTh yn darparu'r yswiriant.<br>• Setlo hawliadau sifil yn ystod unrhyw gam ar ôl cyhoeddi llythyr protocol cyn gweithredu yn unol â'r trefniadau a nodir yn Adran 12. |
| Dirprwy Brif Gwnstabl (DBG) | • Setlo hawliadau sifil yn ystod unrhyw gam ar ôl cyhoeddi llythyr protocol cyn gweithredu yn unol â'r trefniadau a nodir yn Adran 12. |

9.2. Rheolaethau Mewnol

Trosolwg

9.2.1. Mae rheolaeth fewnol yn cyfeirio at y systemau rheoli a ddyfeisir gan y rheolwyr i helpu i sicrhau y caiff amcanion y CHTh a'r PG eu cyflawni mewn ffordd sy'n hyrwyddo defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac y caiff asedau a buddion eu diogelu.

9.2.2. Mae gan y CHTh a'r PG rwymedigaethau statudol, ac felly mae angen systemau rheoli mewnol i nodi, sicrhau a monitro cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau hyn.

9.2.3. Mae'r CHTh a'r PG yn wynebu ystod eang o risgiau ariannol, gweinyddol a masnachol, a hynny o ffactorau mewnol ac allanol, sy'n bygwth eu hatal rhag cyflawni eu hamcanion. Mae angen systemau rheoli mewnol i ymdrin â'r risgiau hyn. Sefydlir y systemau hyn o reolaeth fewnol er mwyn sicrhau:

- gweithrediadau effeithlon ac effeithiol;
- gwybodaeth ac adroddiadau ariannol dibynadwy;
- y cydymffurfir â chyfreithiau a rheoliadau; a
- y caiff risg ei rheoli

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| Prif Swyddogion | • Gweithredu systemau rheolaeth fewnol effeithiol, yn unol â chyngor y PSC a'r CC. Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau y cydymffurfir â'r holl statudau a rheoliadau perthnasol, a datganiadau perthnasol eraill o arfer orau. Byddant yn sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu diogelu'n gywir a'u defnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.<br>• Sicrhau bod rheolaethau allweddol effeithiol yn bodoli ac yn weithredol mewn systemau rheoli, gan gynnwys wrth ddiffinio polisïau, pennu amcanion a chynlluniau, monitro gwybodaeth ariannol a gwybodaeth perfformiad arall a chymryd camau priodol ar gyfer rhagweld a chywiro lle bo angen. Prif amcan y systemau rheoli hyn yw diffinio rolau a chyfrifoldebau.<br>• Sicrhau bod rheolaethau allweddol effeithiol yn weithredol mewn systemau a gweithdrefnau ariannol a gweithredol. Mae hyn yn cynnwys diogelu asedau yn ffisegol, gwahanu dyletswyddau, gweithdrefnau awdurdodi a chymeradwyo a systemau gwybodaeth cadarn. |
| CHTh a'r PG | Paratoi Cyd-Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r CBA eu hystyried a'u cymeradwyo erbyn 31 Mai bob blwyddyn i'w cynnwys yn y cyfrifon statudol. Ar ôl eu cymeradwyo, dylai'r CHTh, PG, PW, PSC a'r CC lofnodi'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol. |

9.3. Gofynion Archwilio

Archwilio Mewnol

Trosolwg

9.3.1. Swyddogaeth sicrwydd yw archwilio mewnol, sy'n rhoi barn annibynnol a gwrthrychol i sefydliad am yr amgylchedd rheoli, trwy werthuso pa mor effeithiol y mae'n cyflawni amcanion y sefydliad. Mewn modd gwrthrychol, mae'n archwilio, gwerthuso ac adrodd ar ddigonolrwydd yr amgylchedd rheoli fel cyfraniad at y defnydd priodol, darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

9.3.2. Mae'r gofyniad am swyddogaeth archwilio mewnol i awdurdodau lleol naill ai wedi'i fynegi'n glir neu'n awgrymedig yn y ddeddfwriaeth llywodraeth leol[8] berthnasol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn gywir. Yn y Gwasanaeth Heddlu, mae'n ofynnol i'r CHTh a'r PG archwilio'u materion mewn ffordd effeithiol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2011 (fel y'u diwygiwyd) sy'n datgan bod yn rhaid i gorff perthnasol gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifyddu ac o'i system rheolaeth fewnol yn unol â'r arferion cywir mewn perthynas â rheolaeth fewnol. Mae'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth yn nodi mai'r arferion rheoli mewnol cywir ar gyfer archwilio mewnol yw'r rheiny sydd i'w cael yn Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y Deyrnas Unedig (SAMSC).

9.3.3. Wrth gyflawni'r gofyniad hwn dylai'r CHTh a'r PG roi sylw i'r SAMSC.

9.3.4. Yn ogystal â galluogi'r CHTh a'r PG i gyflawni eu gofynion mewn perthynas â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio perthnasol, mae angen archwilio mewnol er mwyn:

- bodloni'r CHTh a'r PG bod systemau rheolaeth fewnol cymeradwyo yn cael eu cymhwyso yn ôl y bwriad; a
- bodloni'r CHTh a'r PG bod mae ymagwedd effeithiol, systematig a disgybledig tuag at reoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol mewn grym, â ffocws arbennig ar systemau ariannol.

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| Cyd-Bwyllgor Archwilio (CBA) | • Mae Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref yn datgan y dylai'r CHTh a'r PG sefydlu CBA. Dylai hwn fod yn gorff cyfunol a fydd yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol ac allanol y CHTh a'r PG. Bydd y Pwyllgor hwn yn cynghori'r CHTh a'r PG ar sail egwyddorion llywodraethu da a bydd yn mabwysiadu trefniadau rheoli risg priodol yn unol ag arferion cywir.<br>• Wrth sefydlu'r CBA bydd y CHTh a'r PG yn rhoi sylw i'r Canllawiau ar Bwyllgorau Archwilio gan CIPFA ac egwyddorion arfer dda a gyflwynir yn Llawlyfr i Bwyllgorau Archwilio Trysorlys EM.<br>• Bydd y CBA yn cynnwys rhwng tri a phum aelod sy'n annibynnol ar y CHTh a'r PG. |

[8] Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

| | |
|---|---|
| | • Bydd y CBA yn sefydlu Cylch Gorchwyl ffurfiol, yn cwmpasu ei swyddogaethau craidd, y dylid ei fabwysiadu'n ffurfiol a'i adolygu bob blwyddyn. Bydd y cylch gorchwyl yn cynnwys y gweithgareddau a'r cyfrifoldebau allweddol canlynol:<br>o Cymeradwyo ac adolygu y Cynllun a'r Strategaeth Archwilio Mewnol ac unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun.<br>o Goruchwylio penodi ac adolygu effeithiolrwydd Archwilio Mewnol. Rhoi sicrwydd i'r CHTh a'r PG ar ddarpariaeth gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol a digonol.<br>o Derbyn ac adolygu pob adroddiad archwilio mewnol.<br>o Monitro cynnydd gweithredu argymhellion o adroddiadau Archwilio Mewnol. Derbyn adroddiadau cynnydd ar y Cynllun Gwaith Archwilio Mewnol a sicrhau y cymerir camau priodol mewn ymateb i ganfyddiadau archwiliadau, yn arbennig mewn meysydd perygl uwch.<br>o Ystyried datganiad yr Archwiliad Mewnol gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ac Ystyried y canfyddiadau o'r Asesiad Ansawdd Allanol.<br>o Ystyried adroddiad blynyddol a barn Pennaeth Archwilio Mewnol ar effeithiolrwydd archwilio mewnol i fod yn fodlon ar annibyniaeth y swyddogaeth Archwilio Mewnol a digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliadau, yn enwedig wrth ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.<br>• Rhaid bod gan y CHTh a'r PG gynrychiolaeth ym mhob un o gyfarfodydd y CBA.<br>o Bydd y CBA yn adolygu'r Cynllun Archwilio Strategol, sy'n cyflwyno:<br>o amcanion a chanlyniadau Archwilio Mewnol;<br>o sut y bydd Archwilio Mewnol yn ffurfio'u barn am yr amgylchedd rheoli, ac yn cefnogi'r farn honno gyda thystiolaeth, i gefnogi'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol;<br>o sut y bydd gwaith Archwilio Mewnol yn pennu materion a risgiau lleol a chenedlaethol sylweddol, ac yn mynd i'r afael â hwy;<br>o sut y darperir y gwasanaeth, e.e. yn fewnol, yn allanol, neu drwy gymysgedd o'r ddau; a pha adnoddau a sgiliau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r cynllun; ac<br>o yr adnoddau a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun. |
| CHTh a'r PG | • Sicrhau y caiff gwasanaeth archwilio mewnol digonol ac effeithiol ei ddarparu.<br>• Cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Strategol. |

| | |
|---|---|
| CHTh, PG, PSC a'r CC | • Sicrhau bod gan yr archwilwyr mewnol, ar ôl pasio cliriad diogelwch, yr awdurdod i:<br>o gael mynediad i adeiladau'r heddlu a'r SCHTh ar adegau rhesymol;<br>o cael mynediad i bob ased, cofnod, dogfen, gohebiaeth, system reoli a'r personél priodol, yn amodol ar gliriad diogelwch priodol;<br>o cael unrhyw wybodaeth ac esboniad yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol ynghylch unrhyw fater dan sylw;<br>o ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyflogai ddarparu tystiolaeth o arian parod neu asedau sydd dan ei reolaeth; a<br>o cael mynediad i gofnodion sy'n perthyn i gontractwyr, pan fo angen. Cyflawnir hyn drwy gynnwys cymal priodol ym mhob contract.<br>• Sicrhau bod gan Archwilwyr Mewnol fynediad uniongyrchol i'r holl Brif Swyddogion a chyflogeion, lle bo angen. |
| Archwilwyr Mewnol | • Mewn ymgynghoriad â'r aelodau'r Grŵp Llywodraethu Archwilio, paratoi cynllun archwilio blynyddol sy'n cydymffurfio â'r SAMSC, i'w ystyried gan y CBA.<br>• Mynychu cyfarfodydd y CBA a chyflwyno adroddiad i bob cyfarfod ar y cynnydd a wnaed ar gyflwyno'r Cynllun Archwilio Blynyddol, y materion sy'n codi o archwiliadau, a'r graddau y gweithredwyd y camau y cytunwyd arnynt mewn ymateb i faterion a godwyd yn yr adroddiadau archwilio.<br>• Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r CBA, sy'n cynnwys barn ar effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol o fewn yr Heddlu a'r SCHTh. |
| Uwch Swyddogion a Phenaethiaid gwasanaeth | Ystyried ac ymateb yn brydlon i reoli gwendidau, materion ac argymhellion mewn adroddiadau archwilio a sicrhau bod yr holl gamau hanfodol neu arwyddocaol y cytunwyd arnynt a gododd yn yr archwiliad yn cael eu gweithredu. |
| Grŵp Llywodraethu Archwilio | • Cynnig y Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol.<br>• Darparu llywodraethu, atebolrwydd a phenderfyniadau yn erbyn argymhellion archwilio mewnol sy'n codi.<br>• Goruchwylio datblygu Cynllun Archwilio Strategol.<br>• Sicrhau ansawdd y broses Archwilio Mewnol, o safbwynt pennu mesurau rheoli perfformiad amgen Archwilio Mewnol ac amseroldeb gweithredu'r argymhellion. |
| Adran Safonau Proffesiynol | Yn unol â'r Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd, fel arfer, bydd ymchwiliadau i lygredd a thwyll mewnol yn cael eu cynnal gan yr Adran Safonau Proffesiynol, a fydd yn ymgynghori â'r Archwilwyr Mewnol lle bo'n briodol. |

Archwilio Allanol

Trosolwg

9.3.5. Mae archwiliad annibynnol o weithgareddau'r llywodraeth a'r defnydd o'r gronfa gyhoeddus gan y sawl sydd yn gyfrifol am stiwardio'r gronfa hynny yn gydran hanfodol o atebolrwydd ddemocrataidd. Mae archwilwyr allanol yn archwilio yn annibynnol fod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth ac yn cael ei gyfrifo'n gywir. Mae archwiliad y sector gyhoeddus yn golygu mwy na barn ar gyfrifon. Mae hefyd yn cynnwys materion fel cysondeb (os ydy arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio am bwrpasau a gymeradwywyd), eiddo (sut mae busnes cyhoeddus yn cael ei gyflawni) a gwerth am arian. Mae archwilwyr yn cyflawni'r gwaith hyn ar ran y cyhoedd ac yn niddordeb y cyhoedd. Nid yw'n ran o swyddogaeth archwilwyr i gwestiynu teilyngdod polisi llywodraethol, ond mi all archwilwyr archwilio trefniadau sydd yn arwain at benderfyniadau polisi, ac ystyried effeithiau gweithrediad polisi.

9.3.6. Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol cyffredinol ar gyfer y mwyafrif o'r sectorau cyhoeddus yng Nghymru yn cynnwys lluoedd yr heddlu chyrff plismona etholedig (CHTh). Mae'r Deddfau Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 yn ogystal a llu o ddeddfwriaeth eraill yn creu sail statudol ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi cod archwilio ymarferol sydd yn rhagnodi'r ffordd y mae archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol (ynghyd â swyddogaethau penodol eraill) fod cael eu gweithredu.

9.3.7. Ynghyd ac anghenion arbennig cyfreithiol a phroffesiynol, mae pum egwyddor yn tanseilio gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'n rhaid i archwilwyr weithio'n gyson o fewn yr egwyddorion hyn – ffocysu ar y cyhoedd a bod yn annibynnol, yn gymesur, atebol a chynaliadwy.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| CBA | • Adolygu'r cynllun archwilio blynyddol a'r ffi archwilio.<br>• Derbyn yr adroddiadau llywodraethu blynyddol ac ymateb iddynt.<br>• Derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol. |
| PSC a'r CC | • Cysylltu â'r Archwilydd Allanol a chynghori'r CHTh a'r PG ar eu cyfrifoldebau mewn cysylltiad ag archwilio allanol a sicrhau bod cyswllt effeithiol rhwng CBA , archwilio allanol a mewnol.<br>• Cwrdd a'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Datganiadau Ariannol. |
| PG, PSC a'r CC | • Sicrhau bod yr archwilwyr allanol, at ddibenion eu gwaith, yn cael y mynediad y mae ganddynt hawl statudol iddo mewn perthynas ag adeiladau, asedau, cofnodion, dogfennau, gohebiaeth, systemau rheoli a phersonél, yn amodol ar basio cliriad diogelwch priodol.<br>• Ymateb i gynlluniau gweithredu drafft a sicrhau y caiff yr argymhellion y cytunwyd arnynt eu gweithredu'n brydlon. |

Cyrff Arolygu Eraill

Trosolwg

9.3.8. Gall yr Heddlu a'r SCHTh, o bryd i'w gilydd, fod yn destun archwiliad, arolygiad neu ymchwiliad gan gyrff allanol megis Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a Chyllid a Thollau EM, sydd â hawliau mynediad statudol.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| CBA | Ystyried unrhyw adroddiadau wrth gyrff archwilio eraill. |
| CHTh a'r PG | Derbyn ac ymateb i adroddiadau gan gyrff arolygu eraill. |

9.4. Atal Twyll a Llygredd

Trosolwg

9.4.1. Nid yw'r CHTh na'r PG yn goddef twyll na llygredd wrth weinyddu eu cyfrifoldebau, boed o'r tu mewn neu'r tu allan i'w sefydliadau.

9.4.2. Y disgwyliad o ran priodoldeb ac atebolrwydd yw y bydd y CHTh a'r cyflogeion ar bob lefel yn arwain drwy esiampl wrth sicrhau y cydymffurfir â gofynion cyfreithiol, rheolau, gweithdrefnau ac arferion.

9.4.3. Disgwylir y bydd pob unigolyn a phob sefydliad (e.e. cyflenwyr, contractwyr a darparwyr gwasanaethau) y maent yn dod i gysylltiad ag ef yn gweithredu gyda gonestrwydd a chywirdeb a heb feddwl neu weithredu â thwyll neu lygredd.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| CHTh a'r PG | • Meithrin diwylliant nad yw'n goddef twyll na llygredd.<br>• Cymeradwyo a chynnal Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd effeithiol.<br>• Sicrhau bod mesurau rheoli mewnol digonol ac effeithiol mewn lle amddiffyn y sefydliad yn erbyn arferion twyllodrus a llygredig.<br>• Sicrhau bod gweithdrefnau mewn grym a bod y gweithdrefnau'n hygyrch ac yn cael eu deall gan bob aelod staff mewn perthynas ag adrodd am amheuaeth o gamwedd.<br>• Cynnal polisi ar gyfer cofrestru buddiannau ac achosion o dderbyn lletygarwch a rhoddion sy'n cwmpasu'r CHTh, y PG a'r holl gyflogeion. Rhaid cadw cofrestr o fuddiannau a chofrestr lletygarwch a rhoddion ar gyfer y CHTh, y PG, y Prif Swyddogion a'r holl gyflogeion.<br>• Cynnal Polisi Chwythu'r Chwiban er mwyn sicrhau cyfleuster sy'n galluogi cyflogeion, y cyhoedd a chontractwyr i wneud honiadau o dwyll, camddefnyddio a llygredd yn gyfrinachol, a heb berygl o wrthgyhuddiad, wrth gyswllt annibynnol. Rhaid i weithdrefnau sicrhau yr ymchwilir i honiadau yn gadarn o ran eu dilysrwydd, nad ydynt yn faleisus ac y cymerir camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n codi. Bydd y PG yn sicrhau bod yr holl |

| | |
|---|---|
| | gyflogeion yn ymwybodol o unrhyw bolisi chwythu'r chwiban a gymeradwywyd.<br>• Gweithredu a chynnal fframwaith rheoli ariannol mewnol clir sy'n cyflwyno'r systemau ariannol a gymeradwyir y mae'n rhaid i'r holl gyflogeion eu dilyn. |
| PW, PSC a'r DBG | • Paratoi Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd effeithiol i'r CHTh a'r PG ei chymeradwyo.<br>• Cydymffurfio â deddfwriaeth briodol.<br>• Trefnu i adrodd am unrhyw amheuaeth o dwyll neu lygredd yn unol â'r Protocol. |
| DBG | Ymgysylltu â'r PG a'r CHTh yn ôl yr angen er mwyn cynghori ynghylch materion twyll a llygredd sy'n effeithio ar yr Heddlu a chymunedau Dyfed-Powys. |
| Safonau Proffesiynol | • Fel arfer, bydd ymchwiliadau twyll a llygredd mewnol yn cael eu cynnal gan yr adran Safonau Proffesiynol, a fydd yn ymgynghori â'r Contractwr Archwilio Mewnol pan yn briodol.<br>• Adrodd ar ganfyddiadau, fel y bo'n briodol i'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar sail chwarterol.<br>• Mewn ymgynghoriad â'r PW, PSC a'r CC, cynyddu i Gadeirydd y CBA cyn gynted ag y bo'n ymarferol unrhyw fater sy'n ymwneud ag ymchwiliad twyll neu lygriad yn gofyn am adroddiadau brys y tu allan i'r adroddiadau chwarterol. Diffinnir materion brys fel unrhyw dwyll sy'n ymhlygu nifer o weithwyr, neu sy'n cael effaith ariannol dros £10,000. Diffinnir materion brys fel unrhyw dwyll sy'n awgrymu nifer o weithwyr neu sy'n cael effaith ariannol dros £10,000.<br>• Gwneud y PSC a'r CC yn ymwybodol bob amser o unrhyw achosion a brofwyd o dwyll ariannol sy'n effeithio ar y sefydliad. |
| Cyd-bwyllgor Archwilio | Er mwyn adolygu a monitro effeithiolrwydd polisïau ar dwyll, anghysondebau a llygredd drwy ystyriaeth chwarterol o unrhyw ganfyddiadau o ymchwiliadau twyll a llygredd a gynhaliwyd gan yr adran Safonau Proffesiynol. |
| Archwilwyr Mewnol ac Allanol | • Archwilio'r gweithdrefnau sydd mewn grym ar gyfer adnabod arferion twyllodrus a llwgr.<br>• Lle bo angen, gwneud argymhellion er mwyn gwella arferion gweithio. |
| Rheolwyr Llinell | • Sicrhau eu bod yn cael gweld y Protocol a'r Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd.<br>• Parhau'n effro i'r Dangosyddion Perygl Llygredd a Thwyll a bod yn ymwybodol ohonynt.<br>• Glynu wrth y Safonau Ymddygiad Proffesiynol, y Cod Moeseg ac Egwyddorion Nolan.<br>• Parchus herio a/neu adrodd am aelodau staff yr amheuir eu bod yn ymddwyn yn dwyllodrus/llwgr drwy ddull adrodd priodol. |
| Holl Staff | • Glynu wrth y Safonau Ymddygiad Proffesiynol, y Cod Moeseg ac Egwyddorion Nolan.<br>• Cynnal eu hunain mewn modd nad yw'n tanseilio hyder y cyhoedd yn Heddlu Dyfed-Powys.<br>• Herio ac adrodd am ymddygiad sy'n syrthio'n is na'r safon ofynnol. |

## 9.5. Asedau

9.5.1. Delir asedau ar ffurf tir, eiddo, cerbydau, offer, dodrefn ac eitemau eraill. Mae'n bwysig bod asedau'n cael eu diogelu a'u defnyddio'n effeithlon wrth gyflwyno gwasanaethau, bod trefniadau i'w cael ar gyfer diogelwch yr asedau a'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer gweithrediadau gwasanaeth, a bod trefniadau priodol ar gyfer gwaredu asedau. Mae Cofrestr Asedau gyfredol yn angenrheidiol ar gyfer cyfrifyddu asedau sefydlog yn gywir ac ar gyfer rheoli asedau yn briodol, ac mae'n rhoi gwybodaeth am asedau fel eu bod:

- Wedi'u cofnodi a'u dosbarthu'n gywir;
- Wedi'u diogelu rhag colled;
- Yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac effeithiol;
- Yn cael eu cynnal yn ddigonol; ac
- Yn cael eu gwerthuso yn unol â gofynion statudol a gofynion rheoli.

9.5.2. Y CHTh sy'n berchen ar yr holl asedau ac sy'n eu hariannu (ar wahân i asedau gwybodaeth), waeth a ydynt yn cael eu defnyddio gan y CHTh, y PG neu'r ddau gorff. Mae asedau gwybodaeth yn eithriad, lle mae CHTh a'r PG yn rheolwyr data ar wahân, fel y manylir yn adran 3.7.

9.5.3. Y PG sy'n gyfrifol am gyfeiriad yr Heddlu ac am ei reoli ac felly y PG sy'n rheoli o ddydd i ddydd yr holl asedau y mae'r Heddlu'n eu defnyddio.

9.5.4. Bydd y CHTh yn ymgynghori â'r PG wrth gynllunio'r gyllideb a datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Dylai'r ddwy broses hon gynnwys asesiad llawn o'r asedau sy'n ofynnol er mwyn bodloni gofynion gweithredol, gan gynnwys adnoddau dynol, y seilwaith, tir, eiddo ac offer.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| CHTh a'r PG | Sicrhau:<br><br>• Na ddefnyddir asedau ond at ddibenion y PG a'r CHTh a'u bod ar gael i'w defnyddio pan fo'u hangen ac y cyfrifir amdanynt yn gywir;<br>• Y cedwir cofrestr asedau sy'n rhoi gwybodaeth am asedau sefydlog er mwyn eu diogelu, eu defnyddio'n effeithlon ac effeithiol, eu cynnal a'u cadw'n ddigonol a'u prisio yn unol â gofynion statudol a gofynion rheoli;<br>• Y caiff asedau a chofnodion asedau eu cynnal yn gywir a'u dal yn ddiogel a bod cynlluniau wrth gefn mewn lle ar gyfer diogelwch asedau a pharhad gwasanaeth os bydd trychineb neu fethiant yn y system;<br>• Na chaniateir i brydlesi a meddianwyr arfaethedig eraill o dir sy'n eiddo i'r CHTh feddiannu neu fynd i mewn i'r tir nes y sefydlwyd bod prydles neu gytundeb yn briodol;<br>• Nad oes yr un o asedau'r CHTh yn destun defnydd personol gan gyflogai heb awdurdod priodol;<br>• Y caiff eitemau gwerthfawr a chludadwy megis cyfrifiaduron, camerâu a recordwyr fideo nod diogelwch pan fo'u gwerth yn uwch na'r hyn a nodir yn Adran 12;<br>• Bod yr holl gyflogeion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu asedau a gwybodaeth, gan gynnwys gofynion y Ddeddf Diogelu Data, deddfwriaeth cydymffurfio gwybodaeth arall a deddfwriaeth hawlfraint meddalwedd;<br>• Y caiff asedau nad oes eu hangen bellach eu gwaredu yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau ariannol hyn; a<br>• Bod yr holl gyflogeion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu diogelwch systemau TGCh yr Heddlu a'r SCHTh, gan gynnwys sicrhau mynediad cyfyngedig i'r wybodaeth a gedwir amdanynt a chydymffurfio â'r polisïau gwybodaeth a diogelwch.<br><br>• Fel Rheolydd Data, sicrhau cydymffurfedd â'r egwyddor atebolrwydd sydd wedi'i chynnwys yn y ddeddfwriaeth diogelu data, bydd yn cynnal Cofrestr Asedau Gwybodaeth ar wahân ar gyfer pob sefydliad.[9] |
| PW | Y caiff gweithredoedd teitl eiddo'r CHTh eu cadw'n ddiogel. |

[9] Erthygl 5 (2) – Egwyddorion GDPR y DU sy'n ymwneud â phrosesu data personol.

Prisio

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PG | • Cadw cofrestr asedau ar gyfer yr holl asedau sefydlog, ac eithrio asedau sy'n gysylltiedig ag eiddo, sydd â gwerth uwchlaw'r terfynau a ddangosir yn Adran 12, ar ffurf a gymeradwywyd gan y PSC.<br>• Sicrhau y caiff asedau eu cofnodi pan gânt eu caffael ac y byddant yn aros ar y gofrestr asedau hyd nes eu gwaredu a'u prisio yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig a'r gofynion a bennir gan y PSC.<br>• Bod asedau a chofnodion asedau'n cael eu cynnal yn gywir a'u dal yn ddiogel a bod cynlluniau wrth gefn ar gyfer diogelwch asedau a pharhad gwasanaeth yn achos trychineb neu fethiant system mewn grym.<br>• Fel Rheolydd Data, rhaid iddo gadw cofnod o bob categori o weithgareddau prosesu y mae'r rheolydd yn gyfrifol amdanynt.[10] |
| CHTh | Cadw cofrestr o'r holl eiddo a feddir a'r eiddo dan brydles. Sicrhau y caiff asedau o'r fath eu cofnodi pan gânt eu caffael ac y byddant yn aros ar y gofrestr asedau hyd nes eu gwaredu a'u prisio yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig a'r gofynion a bennir gan y PSC. |

Rhestrau Eiddo

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PG | Sicrhau y cedwir rhestrau eiddo ar gyfer y PG, mewn fformat a gymeradwyir gan y PSC a'r CC, sy'n cofnodi disgrifiad digonol o eitemau sydd â gwerth uwchlaw'r swm a ddangosir yn Adran 12. Dylid cofnodi eitemau eraill o offer hefyd os ystyrir eu bod yn ddymunol ac yn gludadwy. |
| CHTh | Sicrhau y cedwir rhestrau eiddo ar gyfer swyddfa'r CHTh, mewn fformat a gymeradwyir gan y PSC, sy'n cofnodi disgrifiad digonol o eitemau sydd â gwerth uwchlaw'r swm a ddangosir yn Adran 12. Dylid cofnodi eitemau eraill o offer hefyd os ystyrir eu bod yn ddymunol ac yn gludadwy. |

[10] Erthygl 30 GDPR y DU ac Adran 61 Deddf Diogelu Data 2018 – Cofnod o Weithgaredd Prosesu



57

Stociau a Storfeydd

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PG | • Gwneud trefniadau ar gyfer gofalu am y stociau a'r storfeydd, ac ar gyfer eu cadw a'u rheoli, a chadw cyfrifon o storfeydd ar ffurf a gymeradwyir gan y PSC.<br>• Ymgymryd â gwiriad stoc llawn o leiaf unwaith y flwyddyn naill ai trwy gyfrwng cyfrifiad stoc parhaus neu flynyddol. Rhaid i aelod o staff awdurdodedig, sy'n annibynnol ar y swyddogaeth cadw stoc, ymgymryd â'r cyfrifiad stoc a'i ardystio. Rhaid dilyn y weithdrefn hon a gwneud gwiriad stoc llawn pryd bynnag y bydd dyletswyddau cadw stoc yn newid.<br>• Gall anghysondebau rhwng gwir lefel y stoc a gwerth y stoc yn ôl y cyfrifon gael eu dileu hyd at y terfyn a ddangosir yn Adran 12, mewn ymgynghoriad â'r PSC.<br>• Dileu stoc ddarfodedig, hyd at y terfynau a ddangosir yn Adran 12. Rhaid cyfeirio symiau i'w dileu sydd uwchlaw'r gwerth hwn at y PSC i'w cymeradwyo gyda chefnogaeth adroddiad ysgrifenedig.<br>• Sicrhau bod stoc ddarfodedig yn cael ei gwaredu mewn modd cyfrifol er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. |
| PSC | Cymeradwyo'r trefniadau cyfrif am storfeydd. |
| CHTh | Ystyried a chymeradwyo ceisiadau am ddileu sydd uwchlaw'r terfynau a nodir yn Adran 12. |

Eiddo Deallusol

Trosolwg

9.5.5. Mae eiddo deallusol yn derm generig sy'n cynnwys dyfeisiadau a thestun ysgrifenedig.

9.5.6. Os bydd unrhyw Eiddo Deallusol yn cael ei greu gan y cyflogai yn ystod y cyfnod cyflogaeth, yna, fel rheol bydd hyn yn perthyn i'r cyflogwr, nid i'r cyflogai. Mae Deddfau Seneddol amrywiol yn ymdrin â gwahanol fathau o eiddo deallusol. Gall rhai gweithgareddau yr ymgymerir â hwy o fewn yr Heddlu, gan y CHTh, ac o fewn y SCHTh arwain at eitemau y gellid eu patentu, er enghraifft, datblygu meddalwedd. Gelwir yr eitemau hyn ar y cyd yn eiddo deallusol.

9.5.7. Os bydd y PG neu'r CHTh yn penderfynu ymwneud â manteisio ar ddyfeisiadau yn fasnachol, dylid dwyn y mater i sylw'r Prif Weithredwr.



58

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PG | Sicrhau bod cyflogeion y Llu yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn. |
| PW | Sicrhau bod cyflogeion SCHaTh yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn. |

Gwaredu Asedau

9.5.8. Gwaredir asedau pan fydd hynny fwyaf manteisiol i'r PG a'r CHTh ac am y pris mwyaf manteisiol. Lle nad dyma'r cynnig uchaf, rhaid paratoi adroddiad i'r CHTh yn amlinellu'r rhesymau.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PG | • Peidio â gwaredu tir nac adeiladau dros ben heb gymeradwyaeth y CHTh ymlaen llaw.<br>• Gwaredu cerbydau ac offer yn unol â rhaglenni disodli asedau sy'n gwireddu gwerthoedd pennaf ar y farchnad.<br>• Cofnodi'r holl asedau a waredwyd yn y gofrestr asedau neu'r rhestr eiddo fel sy'n briodol. |
| PSC a'r CC | Sicrhau y caiff incwm ei dderbyn ac y cyfrifir amdano. |

9.6. Rheoli Trysorlys a Threfniadau Bancio

Rheoli Trysorlys

Trosolwg

9.6.1. Mae'n bwysig bod arian a ddelir gan y CHTh a'r PG yn cael ei reoli'n gywir, mewn modd sy'n cydbwyso risg ag enillion, ond sy'n rhoi'r brif ystyriaeth i ddiogelwch y symiau cyfalaf a ddelir.

9.6.2. Mae'r CHTh wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys. Mae prif ofynion y Cod fel a ganlyn:

- Datganiad polisi ar reoli trysorlys, sy'n datgan y polisïau, yr amcanion a'r dull ar gyfer rheoli risgiau mewn perthynas â gweithgareddau rheoli trysorlys;
- Arferion Rheoli Trysorlys a Gymeradwywyd sy'n cyflwyno'r modd y bydd y sefydliad yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn rhagnodi sut y bydd yn rheoli'r gweithgareddau hynny.
- Cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Trysorlys flynyddol (SRhT) gan gynnwys y strategaethau buddsoddi blynyddol a'r polisi MRP. Adroddiad blynyddol ac adroddiad ar Adolygiad Canol Tymor o leiaf sy'n cwmpasu'r gweithgareddau Rheoli Trysorlys.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| CHTh | • Mabwysiadu'r argymhellion allweddol yng Nghod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.<br>• Cymeradwyo'r SRhT flynyddol gan gynnwys y strategaeth fuddsoddi flynyddol a'r polisi MRP.<br>• Derbyn a chymeradwyo adroddiad blynyddol ar weithgaredd rheoli trysorlys ac adroddiad ar Adolygiad Canol Tymor o leiaf. |
| PSC a'r CC | • Gweithredu a monitro polisïau ac arferion rheoli trysorlys yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau proffesiynol eraill<br>• Paratoi adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau rheoli trysorlys Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gan gynnwys SRhT flynyddol o leiaf, gan gynnwys strategaeth fuddsoddi flynyddol a pholisi MRP.<br>• Gweithredu a gweinyddu rheolaeth trysorlys yn unol â Chod CIPFA a pholisi'r CHTh.<br>• Trefnu benthyca a buddsoddiadau, yn unol â Chod CIPFA a Pholisïau'r CHTh.<br>• Sicrhau y gwneir pob buddsoddiad a benthyciad yn enw CHTh Dyfed-Powys. |

Trefniadau Bancio

9.6.3. Mae dull cyson a diogel ar gyfer gwasanaethau bancio yn hanfodol er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau posibl gan ein bancwyr a'r gwerth gorau posibl am arian.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PSC | • Bod â chyfrifoldeb cyffredinol dros drefniadau bancio'r CHTh.<br>• Awdurdodi agor a chau pob cyfrif banc. Ni chaiff unrhyw gyflogai arall agor cyfrif banc oni bai ei fod yn perfformio swyddogaeth statudol yn ei rinwedd ei hun (e.e. PSC i gorff elusennol).<br>• Trefnu bod y CC yn gwneud cysoniadau banc yn brydlon ac yn gywir.<br>• Penderfynu ar lofnodwyr holl gyfrifon banc y CHTh. |

Cyfrifon Imprest/Arian Mân

9.6.4. Gellir rhoi blaensymiau arian parod i unigolyn mewn adran / sefydliad er mwyn gallu gwneud taliadau achlysurol cymharol fach yn gyflym. Rhaid cadw cofnod o alldaliadau o'r cyfrif er mwyn rheoli'r cyfrif, er mwyn sicrhau bod tystiolaeth o'r gwariant, ac y caiff ei adlewyrchu'n gywir yn y cyfrifon a'i ad-dalu'n gywir i ddeiliad y cyfrif.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| CC | Paratoi Gweithdrefnau Ariannol manwl ar gyfer ymdrin ag arian mân a chardiau caffael, i'w cytuno gyda'r PSC, a bydd y rhain yn cael eu rhoi i'r holl gyflogeion priodol. |
| CHTh a'r PG | • Darparu arian parod, llog banc neu gardiau caffael i weithwyr priodol i dalu am mân wariant ar ran y PG a'r CHTh.<br>• Pennu terfynau rhesymol ar arian mân a chadw cofnod o'r holl drafodion a'r holl flaensymiau arian mân a roddir, ac adolygu'r trefniadau yn gyfnodol ar gyfer cadw'r blaensymiau hyn yn ddiogel a'u rheoli. |

Gwyngalchu Arian

9.6.5. Mae'r PG a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallant fod yn destun ymgais i'w cynnwys mewn trafodiad sy'n ymwneud â gwyngalchu arian.

9.6.6. Dylid hysbysu'r asiantaeth ymchwilio berthnasol o fewndaliadau arian parod amheus mewn unrhyw arian cyfred sydd uwchlaw'r ffigwr a bennir yn Adran 12.

9.6.7. Caiff gweithdrefnau rheoli mewnol eu monitro i sicrhau eu bod yn ddibynadwy a chadarn.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PSC a'r CC | • Bod yn Swyddog Adrodd enwebedig ar Wyngalchu Arian ar gyfer y CHTh a'r PG fel y bo'n briodol.<br>• Ystyried, yng ngoleuni'r holl wybodaeth, a yw datgeliad yn arwain at wybodaeth neu amheuaeth o'r fath.<br>• Datgelu gwybodaeth berthnasol i asiantaethau ymchwilio cenedlaethol. |
| Prif Swyddogion | Gwneud gwiriadau priodol i sicrhau bod pob cyflenwr a pharti newydd yn *bona fide*. |
| Cyflogeion | • Dylid adrodd am honiadau o lygredd neu dwyll a amheuir mewn perthynas â phersonél neu gontractwyr wrth eu Rheolwr Llinell yn y lle cyntaf, neu os yw hynny'n amhriodol o dan yr amgylchiadau, dylid adrodd amdano wrth yr Adran Safonau Proffesiynol. Gellir gwneud hyn yn ddienw os oes angen.<br>• Dylid hysbysu'r PSC neu'r CC o unrhyw drafodion banc mewn arian parod o ffynhonnell unigol sydd uwchlaw'r ffigwr a bennir yn Adran 12. Nid yw'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i atafaeliadau a thrafodion banc o ganlyniad iddynt o dan y Ddeddf Enillion Troseddau 2002. |

9.7. Staffio

Trosolwg

9.7.1. Costau staffio yw'r elfen fwyaf yn y gyllideb plismona flynyddol. Mae'r PG yn gyfrifol am gymeradwyo strategaeth gyffredinol ar gyfer Adnoddau Dynol mewn ymgynghoriad â'r CHTh

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| PG | • Sicrhau y caiff cyflogeion eu penodi, eu cyflogi a'u diswyddo yn unol â rheoliadau statudol perthnasol, cytundebau cenedlaethol a pholisïau personél, cyllidebau a strategaethau y cytunir arnynt gan y CHTh, ac y gwneir defnydd priodol o'r system werthuso neu systemau eraill y cytunir arnynt ar gyfer penderfynu ar y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer swydd cyflogai.<br>• Cynghori'r CHTh ar y gyllideb y mae ei hangen mewn unrhyw flwyddyn benodol i dalu am y lefelau staffio a amcangyfrifir.<br>• Addasu'r nifer o staff i fodloni'r ddarpariaeth yn y gyllideb a gymeradwywyd ac amrywio'r ddarpariaeth yn ôl yr angen o fewn cyfyngiadau polisi er mwyn bodloni anghenion gweithredol newidiol.<br>• Bod â systemau mewn lle i gofnodi'r holl faterion sy'n effeithio ar daliadau i staff, gan gynnwys apwyntiadau, ymddiswyddiadau, diswyddiadau, secondiadau, ataliadau, trosglwyddiadau a phob absenoldeb o'r gwaith.<br>• Mewn ymgynghoriad â'r PSC, cymeradwyo trefniadau polisi ar gyfer ymddeoliadau cynnar oherwydd afiechyd neu arbedion effeithlonrwydd ar gyfer yr holl staff a threfniadau dileu swyddi ar gyfer staff cynorthwyol. |
| PW | Bod â'r un cyfrifoldebau â'r hyn a nodir uchod ar gyfer y staff a gyflogir gan y CHTh ac sy'n gweithio o fewn ei swyddfa. |

9.8. Eiddo Tystiolaethol ac Eiddo Anhystiolaethol

Trosolwg

9.8.1. Mae'n ofynnol i'r PG gyflawni dyletswydd gofal ac i ddiogelu eiddo tystiolaethol ac anhystiolaethol pan fydd yn disgwyl penderfyniadau ynghylch perchnogaeth yr eiddo, ac eiddo preifat unrhyw unigolyn, e.e. rhywun sydd dan amheuaeth yn y ddalfa.



62

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PG | • Penderfynu ar weithdrefnau ar gyfer cadw eiddo preifat person sydd o dan ei warcheidwaeth neu ei oruchwyliaeth, ac eithrio aelod o staff, yn ddiogel. Rhaid i'r gweithdrefnau hyn fod ar gael i'r holl gyflogeion priodol. Darperir gwybodaeth fanylach yn y Gweithdrefnau Ariannol/Polisi'r Heddlu.<br>• Penderfynu ar weithdrefnau ar gyfer cadw eiddo tystiolaethol neu anhystiolaethol yn ddiogel. Rhaid i'r gweithdrefnau hyn fod ar gael i'r holl gyflogeion priodol a rhaid iddynt gyfeirio'n benodol at yr angen i yswirio eitemau gwerthfawr.<br>• Darparu Gweithdrefnau Ariannol/Polisi'r Heddlu ar gyfer ymdrin ag arian parod, gan gynnwys arian a atafaelir o dan y Ddeddf Enillion Troseddau 2002. |
| Cyflogeion | Hysbysu'r PG ar unwaith yn achos colled neu ostyngiad yng ngwerth eiddo preifat o'r fath. |

9.9. Rhoddion, Benthyciadau a Nawdd

(DS Nid yw hyn yn cynnwys derbyn lletygarwch a rhoddion)

Trosolwg

9.9.1. Yn unol â Deddf yr Heddlu 1996, caiff y CHTh ddewis derbyn rhoddion o arian a rhoddion neu fenthyciadau o eiddo neu wasanaethau eraill (e.e. mannau parcio ceir) os byddant yn galluogi'r heddlu i wella neu i ymestyn y gwasanaeth y byddai disgwyl iddynt ei ddarparu fel rheol. Gall y telerau ar gyfer derbyn rhoddion neu fenthyciadau ganiatáu nawdd masnachol ar gyfer rhai o weithgareddau'r heddlu.

Cyd-destun

9.9.2. Mae rhoddion, benthyciadau a nawdd yn arbennig o addas ar gyfer gwaith aml-asiantaeth megis atal troseddau, gwaith cysylltiadau cymunedol, a chynlluniau cymorth i ddioddefwyr.

9.9.3. Gellir derbyn rhoddion, benthyciadau a nawdd gan unrhyw ffynhonnell briodol sydd â rhesymau gwirioneddol a bwriadau da dros ddymuno cefnogi prosiectau penodol. Yn gyfnewid, efallai y bydd y darparwr yn disgwyl rhywfaint o gyhoeddusrwydd neu gydnabyddiaeth arall. Mae'n dderbyniol caniatáu i'r darparwr arddangos ei enw neu logo ar ddeunydd cyhoeddusrwydd, ar yr amod nad yw hyn yn rhy flaenllaw neu'n tynnu oddi ar ddiben y prosiect a gefnogir. Dylid rhoi caniatâd i allu arddangos logo'r Heddlu neu rywbeth tebyg ac mae angen cytuno ar hyn yn glir (sut, ble ac ym mha ffordd) cyn unrhyw fath o gymeradwyaeth i'w ddefnyddio.

9.9.4. Ni ddylai cyfanswm gwerth rhoddion, benthyciadau a nawdd a dderbynnir fod yn fwy na 1% o gyllideb flynyddol y CHTh.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| CHTh | Cymeradwyo'r polisi ar roddion, benthyciadau a nawdd. |
| PG a'r PW | • Derbyn rhoddion, benthyciadau neu nawdd o fewn canllawiau polisi y cytunwyd arnynt.<br>• Cyfeirio pob rhodd, benthyciad a nawdd sydd uwchlaw'r terfyn a nodir yn Adran 12 at y CHTh i'w gymeradwyo cyn ei dderbyn. |
| Adran Safonau Proffesiynol | • Cadw cofrestr ganolog, mewn fformat y cytunwyd arno gan y PSC, o'r holl fentrau a chytundebau nawdd gan gynnwys eu gwir werth ar y farchnad, a darparu datganiad ardystiedig blynyddol o bob menter a chytundeb o'r fath. Rhaid i'r PSC fodloni ei hun bod hyn yn cynnig cyfrif addas o'r graddau y derbyniwyd adnoddau ychwanegol o'r fath<br>• Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r CHTh sy'n rhestru pob rhodd, benthyciad a nawdd. |
| CC | Bancio arian parod o weithgarwch nawdd yn unol â'r gweithdrefnau incwm arferol. |

# 10. ADRAN Ch Systemau a Gweithdrefnau

10.1. Cyffredinol

Trosolwg

10.1.1. Mae yna lawer o systemau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â rheoli asedau'r CHTh a phlismona, gan gynnwys systemau prynu, costio a rheoli. Mae'r Heddlu a'r SCHTh yn ddibynnol ar gyfrifiaduron am wybodaeth rheolaeth ariannol. Rhaid i'r wybodaeth hon fod yn gywir a rhaid i'r systemau a'r gweithdrefnau fod yn gadarn a chael eu gweinyddu'n dda. Dylent gynnwys rheolaethau i sicrhau y caiff trafodion eu prosesu'n gywir ac y caiff camgymeriadau eu canfod yn brydlon.

10.1.2. Mae gan y PSC a'r CC gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod systemau ariannol yn gadarn ac felly dylid eu hysbysu o unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau newydd arfaethedig.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PSC a'r CC | • Gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu'r materion ariannol yn gywir, gan gynnwys:<br>o cyhoeddi cyngor, canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer swyddogion a staff yr Heddlu a'r CHTh sy'n gweithredu ar eu rhan;<br>o penderfynu ar y systemau cyfrifyddu, ffurf y cyfrifon a'r cofnodion ariannol ategol;<br>o sefydlu trefniadau ar gyfer archwilio materion ariannol y PG a'r CHTh;<br>o cymeradwyo unrhyw systemau ariannol newydd i'w cyflwyno; a<br>o cymeradwyo unrhyw newidiadau i'r systemau ariannol presennol.<br>• Sicrhau, mewn perthynas â systemau a phrosesau, bod:<br>o systemau yn ddiogel, bod rheolaethau mewnol digonol i'w cael ac y cedwir cofnodion cyfrifyddu (e.e. anfonebau, dogfennau incwm) yn gywir ac yn ddiogel ac y caiff dyletswyddau eu gwahanu'n briodol i leihau'r risg o gamgymeriadau, twyll neu gamymddwyn arall;<br>o bod rheolaethau priodol i'w cael er mwyn sicrhau bod pob mewnbwn i systemau, pob allbwn o systemau a phob prosesiad system yn ddilys, yn gyflawn, yn gywir, yn brydlon a heb ei brosesu o'r blaen;<br>o y cedwir llwybr archwilio cyflawn, gan alluogi olrhain trafodion ariannol o'r cofnodion cyfrifyddu i'r ddogfen wreiddiol, a'r ffordd arall; a y caiff systemau eu dogfennu ac y caiff staff eu hyfforddi mewn gweithrediadau. |
| PG a'r PW | • Sicrhau bod cynlluniau parhad busnes wedi'i ddogfennu a'i brofi er mwyn caniatáu i brosesau system allweddol ailddechrau'n gyflym os bydd ymyriad. Rhaid bod trefniadau wrth gefn effeithiol mewn lle, gan gynnwys gweithdrefnau wrth gefn, rhag ofn y bydd methiant mewn systemau cyfrifiadurol. |

| | |
|---|---|
| | • Sefydlu cynllun dirprwyo, gan nodi staff a awdurdodwyd i weithredu ar ran y PG mewn perthynas â chasglu incwm, gosod archebion, gwneud taliadau a chyflogi staff. |

10.2. Incwm

Trosolwg

10.2.1. Mae incwm yn hanfodol ac mae angen systemau effeithiol i sicrhau y caiff yr holl incwm sy'n ddyledus ei ganfod, ei gasglu, ei dderbynebu a'i fancio yn brydlon. Dylai'r cyfrifoldeb dros gasglu arian parod gael ei wahanu oddi wrth y cyfrifoldeb dros ganfod y swm sy'n ddyledus a'r cyfrifoldeb dros gysoni'r swm sy'n ddyledus â'r swm a dderbyniwyd.

Cyd-destun

10.2.2. Bydd y CHTh a'r PG yn dilyn polisïau codi ffi cenedlaethol a chanllawiau cenedlaethol APCC/NPCC wrth godi ffioedd o dan adran 25 Deddf yr Heddlu 1996. Diben codi ffi am wasanaethau arbennig yw sicrhau, lle bynnag y bo'n briodol, bod y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn talu amdanynt.

10.2.3. Dylai'r CHTh sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau y caiff ffioedd disgwyliedig eu nodi'n glir yn ei gyllidebau ac y caiff costau eu priodoli a'u codi'n gywir. Wrth ystyried lefelau cyllideb, dylai'r CHTh sicrhau nad yw gofynion parhaus am adnoddau yn ddibynnol ar nifer sylweddol o ffynonellau incwm ansicr neu gyfnewidiol, a dylai roi sylw priodol i ddarpariaeth gwasanaethau cynaliadwy ac yn y dyfodol.

10.2.4. Wrth nodi gofynion am adnoddau bydd y PG yn nodi'r incwm disgwyliedig o ffioedd a godir. Dylai'r PG ddilyn Canllawiau Plismona Cenedlaethol ar Godi Tâl am Wasanaethau Heddlu: Gwasanaethau Heddlu Arbennig.



66

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| CHTh a'r PG | Mabwysiadu polisïau codi ffi cenedlaethol a chanllawiau cenedlaethol APCC / ACPO wrth godi ffioedd o dan adran 25 Deddf yr Heddlu 1996 ac adolygu graddfeydd ffioedd a thaliadau o leiaf unwaith y flwyddyn. |
| CHTh | • Cymeradwyo'r Polisi Codi Tâl am Wasanaeth Heddlu Arbennig yn unol â chanllawiau cenedlaethol.<br>• Cymeradwyo unrhyw ddiddymiad, a ddylai dogfennu rhesymwaith glir. |
| PSC a'r CC | • Gwneud trefniadau ar gyfer casglu'r holl incwm sy'n ddyledus a chymeradwyo'r gweithdrefnau, y systemau a'r dogfennau ar gyfer casglu incwm, gan gynnwys codi TAW cywir<br>• Cytuno ar bolisi codi ffi ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys codi TAW priodol, ac adolygu'r polisi yn rheolaidd yn unol â pholisïau corfforaethol. Dylai'r holl ffioedd yn unol â chanllawiau cenedlaethol a pholisïau mewnol gan adennill costau'n llawn heblaw bod y CHTh yn cymeradwyo hyn.<br>• Sicrhau y caiff yr holl incwm ei dalu'n llawn ac yn brydlon i'r Cyfrif Banc Incwm dynodedig. Dylid cofnodi manylion priodol ar slipiau talu i mewn er mwyn sicrhau llwybr archwilio, a dylid cysoni'r arian a gesglir ac a delir i mewn bob mis.<br>• Cymeradwyo dileu dyledion drwg hyd at y lefel a ddangosir yn Adran 12. Rhaid cyfeirio symiau i'w dileu sydd uwchlaw'r gwerth hwn at y CHTh i'w cymeradwyo, gyda chefnogaeth adroddiad ysgrifenedig yn egluro'r rheswm dros ddileu.<br>• Sicrhau na ddefnyddir incwm i dalu sieciau personol neu i wneud taliadau eraill. |
| CC | • Gweithredu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer casglu dyledion.<br>• Mewn ymgynghoriad â'r PSC a'r PW, cychwyn gweithdrefnau priodol ar gyfer adfer dyledion, gan gynnwys camau cyfreithiol lle bo angen. Fel rhan o hyn, mae'r Cyfreithiwr yng Nghyfarwyddiaeth y Gyfraith a Chydymffurfiaeth yr Heddlu wedi'i awdurdodi i gychwyn achos llys lle bo'n briodol ac yn unol â'r terfynau cymeradwyo a amlinellir yn 4.3.7.<br>• Petai cwsmer yn profi gweinyddiad neu fethdaliad, rhaid cysylltu gyda'r ymarferwr methdaliad cywir a sicrhau bod pob gweithrediad posib yn cymryd lle er mwyn adfer symiau sydd heb ei dalu. Rhaid gwneud staff perthnasol yn cynnwys y CC, y PW a chyfreithiwr yn adran Gwasanaeth Cyfreithiol y Llu yn ymwybodol.<br>• Paratoi Gweithdrefnau Ariannol manwl ar gyfer ymdrin ag incwm, i'w cytuno gyda'r PSC, a'u rhoi i bob cyflogai priodol.<br>• Sicrhau bod unrhyw ostyngiadau a gyfrifir gan y model codi ffi o dan bolisi codi ffi cenedlaethol APCC/NPCC, yn unol â'r Polisi Gwasanaethau Heddlu Arbennig ac wedi'u cymeradwyo gan y CHTh mewn ymgynghoriad â'r PG. |


67

10.3. Archebu a Thalu am Waith, Nwyddau a Gwasanaethau

Trosolwg

10.3.1. Mae gan y CHTh a'r PG ddyletswydd statudol i sicrhau cywirdeb ariannol a gwerth gorau. Mae Rheoliadau Ariannol a gweithdrefnau prynu yn helpu i sicrhau bod y cyhoedd cael gwerth am arian. Dylid darllen y gweithdrefnau hyn ar y cyd â'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Chontractau yn Adran 12.

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| CC | • Cadw polisi caffael sy'n ymdrin â'r egwyddorion sydd i'w dilyn ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau ac y gwneir pob taliad yn unol â'r polisi hwn.<br>• Rhoi gorchmynion swyddogol ar gyfer yr holl waith, nwyddau neu wasanaethau i'w cyflenwi i'r SCHTh, ar wahân i eithriadau a gymeradwywyd gan y PSC. Rhaid i archebion fod ar ffurf a gymeradwywyd gan y PSC.<br>• Ni ddylid codi archebion swyddogol ar gyfer unrhyw eitemau personol neu breifat a brynir, ac ni ddylid gwneud defnydd personol na phreifat o gontractau'r PG na'r CHTh.<br>• Rhaid i'r nwyddau a'r gwasanaethau a archebir fod yn briodol a rhaid bod darpariaeth ddigonol yn y gyllideb. Rhaid cael dyfynbrisiau neu dendrau lle bo angen, yn unol â'r rheoliadau hyn.<br>• Ni ddylid gwneud taliadau oni bai bod nwyddau a gwasanaethau wedi'u derbyn am y pris, y maint a'r ansawdd cywir yn unol ag unrhyw archeb swyddogol.<br>• Sicrhau y caiff taliadau eu gwneud i'r person cywir, am y swm cywir, ac yn brydlon ac y cânt eu cofnodi'n gywir, waeth beth fo'r dull talu.<br>• Sicrhau y caiff TAW ei hadennill lle bo hynny'n briodol.<br>• Sicrhau y caiff yr holl wariant, gan gynnwys TAW, ei gofnodi'n gywir yn erbyn y gyllideb gywir ac y caiff unrhyw eithriadau eu cywiro.<br>• Sicrhau bod yr holl eitemau a brynir trwy e-gaffael yn dilyn y rheolau, y rheoliadau a'r gweithdrefnau a nodir yn Adran 12.<br>• Mewn ymgynghoriad â'r PSC, paratoi Gweithdrefnau Ariannol manwl ar gyfer ymdrin ag archebu a thalu am nwyddau a gwasanaethau, a rhoi'r rhain i'r holl gyflogeion priodol. |
| Prif Swyddogion | Sicrhau bod pob aelod a gweithiwr y Cyd-bwyllgor Archwilio yn datgan unrhyw gysylltiadau neu fuddiannau personol a all fod ganddynt â phrynwyr, cyflenwyr a chontractwyr os ydynt yn ymwneud â phenderfyniadau cytundebol neu brynu ar ran CHTh neu'r PG, ac nad yw unigolion o'r fath yn cymryd unrhyw ran yn y broses o ddewis cyflenwr neu gontract y maent yn gysylltiedig ag ef. |

Taliadau i Gyflogeion

Trosolwg

10.3.2. Costau cyflogeion yw'r eitem gwariant fwyaf i'r rhan fwyaf o gomisiynwyr heddlu a throseddu. Felly mae'n bwysig bod rheolaethau mewn lle i sicrhau y gwneir taliadau cywir, prydlon a dilys yn unol ag amodau cyflogaeth unigolion.

Cyfrifoldebu

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PG | • Mewn ymgynghoriad â'r CC, sicrhau y caiff cyflogau, goramser, pensiynau, iawndal ac enillion eraill eu talu mewn ffordd ddiogel a dibynadwy i gyflogeion presennol a chyn-gyflogeion.<br>• Sicrhau y gwneir didyniadau treth, pensiwn ac eraill yn gywir, ac y cânt eu talu'n brydlon i'r corff perthnasol.<br>• Talu'r pob hawliad dilys am gostau teithio a chynhaliaeth neu lwfans colled ariannol.<br>• Talu cyflogau, tâl, pensiynau ac ad-daliadau yn y ffyrdd mwyaf darbodus.<br>• Sicrhau na chaiff trafodion cyflogres eu prosesu ond drwy'r system gyflogres. Dim ond yn unol â gofynion Cyllid a Thollau EM y gwneir taliadau i unigolion a gyflogir fel ymgynghorwyr hunangyflogedig neu ar sail is-gontract.<br>• Sicrhau y cedwir cofnodion llawn o daliadau buddion mewn nwyddau ac y cyfrifir amdanynt yn gywir mewn unrhyw ffurflenni i Gyllid a Thollau EM. |
| CC | Paratoi Gweithdrefnau Ariannol manwl ar gyfer ymdrin â thaliadau i gyflogeion, i'w cytuno gyda'r PSC, a rhaid rhoi'r rhain i'r holl gyflogeion priodol. |

10.4. Trethiant

Trosolwg

10.4.1. Mae materion treth yn aml yn gymhleth iawn ac mae'r cosbau am gyfrif am dreth yn anghywir yn ddifrifol.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PSC a'r CC | • Sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer cwblhau a chyflwyno, yn brydlon, holl ffurflenni Cyllid a Thollau EM (CThEM) mewn perthynas â Thalu wrth Ennill ac y gwneir taliadau dyledus yn unol â gofynion statudol.<br>• Sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer cwblhau a chyflwyno, yn brydlon, hawliadau TAW i CThEM.<br>• Sicrhau bod yr atebolrwydd TAW cywir ynghlwm wrth yr holl incwm sy'n ddyledus a bod yr holl TAW y gellir ei derbyn ar bryniadau yn cydymffurfio â rheoliadau CThEM.<br>• Rhoi manylion i CThEM ynghylch cynllun didynnu treth y diwydiant adeiladu.<br>• Sicrhau bod gan y staff technegol priodol fynediad at y canllawiau a'r cyngor proffesiynol diweddaraf. |

10.5. Cardiau Credyd Corfforaethol, Cardiau Caffael a Chardiau Tanwydd

Trosolwg

10.5.1. Mae cardiau credyd yn ddull sefydledig ac effeithiol i'r sefydliad gyflawni'r angen ar gyfer gwariant di-oed yng nghwrs arferol busnes, fel arfer ar gyfer eitemau gwerth is lle y byddai Archeb Prynu'n aneffeithiol neu'n anymarferol

10.5.2. Defnyddir y termau Cerdyn Caffael a Cherdyn Credyd Corfforaethol yn ymgyfnewidiol ac maen nhw'n cyfeirio at gynllun a ddarperir gan fanc neu gyfryngwr cyllid ar gyfer taliadau busnes neu fasnach fel arfer.

10.5.3. Bydd dalwyr cerdyn yn derbyn Cerdyn Credyd pan mae angen un fel eu bod nhw'n medru rhyddhau eu dyletswyddau ac nid oes dewis amgen gwell ar gael.

10.5.4. Dull amgen o brynu tanwydd a thalu amdano yw cardiau tanwydd. Fel arfer, byddant yn gysylltiedig â cherbyd penodol ac mae defnydd awdurdodedig o'r cerbyd yn awgrymu defnydd awdurdodedig o'r cerdyn tanwydd.

10.5.5. Gellir cyhoeddi cardiau tanwydd hefyd i unigolyn penodol pan mae gan yr unigolyn hwnnw resymau busnes dilys dros gael mynediad at sawl cerbyd wrth gyflawni ei ddyletswyddau.

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| CC a'r PSC | • Creu Gweithdrefnau Rheolaeth Ariannol sy'n darparu ar gyfer rheolaeth effeithiol o gyhoeddi a rheoli cardiau.<br>• Rhoi canllawiau ar gyfer eu defnyddio i ddalwyr cardiau.<br>• Gweithredu fframwaith sy'n darparu ar gyfer cyfrifyddu effeithiol ar gyfer trafodion a threth ar werth. |
| Deiliaid Cardiau Credyd | • Sicrhau prynu yn unol â Gweithdrefnau Rheolaeth Ariannol cymeradwy.<br>• Cadw tystiolaeth i brofi trafodion yn ddigonol.<br>• Rhoi sylw i heriau camddefnyddio neu dwyll yn brydlon.<br>• Cwblhau cysoniad rheolaidd o wariant â chodio priodol. |
| Rheolwr Fflyd | • Cynnal cofnod cywir o gardiau tanwydd sy'n cael eu defnyddio.<br>• Adolygu defnydd ac ymateb yn briodol i gamddefnydd.<br>• Cydymffurfio â Gweithdrefnau Rheolaeth Ariannol. |
| Deiliaid Cardiau Tanwydd | • Cydymffurfio â Gweithdrefnau Rheolaeth Ariannol. |

10.6. Taliadau Gwirfoddol

Trosolwg

10.6.1. Mae taliadau gwirfoddol yn daliadau a wneir lle nad oes rhwymedigaeth gyfreithiol wedi'i sefydlu, nac achos llys neu dribiwnlys wedi'i gychwyn. Er enghraifft, gallai fod yn iawndal i swyddog yr heddlu am ddifrod i eiddo personol wrth iddo/iddi ymgymryd â'i (d)dyletswydd, neu i aelod o'r cyhoedd am roi cymorth i swyddog yr heddlu wrth iddo/iddi ymgymryd â'i (d)dyletswydd.


70

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| PS | • Mewn ymgynghoriad â'r PSC, CC a Gwasanaethau Cyfreithiol, Gwneud taliadau gwirfoddol i aelodau o'r cyhoedd mewn unrhyw achos unigol, am ddifrod neu golled i eiddo neu am anaf personol neu gostau a achosir o ganlyniad i unrhyw weithred neu anwaith gan staff neu swyddogion lle mae taliad o'r fath yn debygol o hwyluso'r gwaith o ymgymryd ag unrhyw un o swyddogaethau'r CHTh neu'r PG, yn arwain at gyflawni'r swyddogaethau hynny neu'n digwydd o ganlyniad iddynt, hyd at y terfynau a nodir yn Adran 12.<br>• Mewn ymgynghoriad â'r PSC, CC a Gwasanaethau Cyfreithiol Gwneud taliadau gwirfoddol i swyddogion a staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn unrhyw achos unigol, am ddifrod neu golled i eiddo neu am anaf personol neu gostau a achoswyd pan oedd yn hysbys bod eiddo yn berchen i swyddogion neu staff, lle nad oes llys barn wedi gorchymyn y telir iawndal, a lle nad yw'r amgylchiadau wedi'u cwmpasu gan reoliadau'r heddlu, hyd at y terfynau a nodir yn Adran 12.<br>• Cadw manylion am daliadau o'r fath mewn cofrestr. |
| PG | • Mewn ymgynghoriad â'r PSC, CC a Gwasanaethau Cyfreithiol, Gwneud taliadau gwirfoddol i swyddogion a staff yr Heddlu mewn unrhyw achos unigol, am ddifrod neu golled i eiddo neu am anaf personol neu gostau a achoswyd pan yn hysbys bod eiddo yn berchen i swyddogion neu staff, lle nad oes llys barn wedi gorchymyn y telir iawndal, a lle nad yw'r amgylchiadau wedi'u cwmpasu gan reoliadau'r heddlu, hyd at y terfynau a nodir yn Adran 12.<br>• Cadw manylion am daliadau o'r fath mewn cofrestr. |

# 11. ADRAN D Trefniadau Allanol

## 11.1. Cyllid Allanol

Trosolwg

11.1.1. Gall arian allanol fod yn ffynhonnell incwm bwysig iawn, ond mae angen ystyried amodau cyllid yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â nodau ac amcanion y CHTh a'r PG. Mae arian gan asiantaethau allanol yn rhoi adnoddau ychwanegol i alluogi cyflawni amcanion plismona.

11.1.2. Grantiau penodol gan y Llywodraeth, cyfraniadau ychwanegol gan awdurdodau lleol a rhoddion gan drydydd parti yw prif ffynonellau cyllid o'r fath fel rheol.

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| Prif Swyddogion | Sicrhau bod y CHTh yn cymeradwyo'r holl gyfleoedd ariannu ymlaen llaw ac felly mynd ar ôl unrhyw gyfleoedd a gymeradwywyd am gyllid ychwanegol lle bo hyn wedi'i gymeradwyo gan y PG a'r CHTh. |
| CHTh a'r PG | Sicrhau y caiff y gofynion ar gyfer arian cyfatebol a'r strategaethau tynnu nôl eu hystyried cyn ymrwymo i'r cytundebau a bod rhagolygon ariannol tymor canolig yn y dyfodol yn adlewyrchu'r gofynion hyn. |
| PSC a'r CC | • Sicrhau y caiff yr holl arian a hysbysir gan gyrff allanol ei dderbyn ac y cyfrifir amdano'n gywir, ac y caiff pob hawliad am arian ei wneud erbyn y dyddiad terfyn ac y bodlonir unrhyw ofynion archwilio a bennir yn y cytundeb cyllido.<br>• Cymeradwyo cytundebau grant ar gyfer ceisiadau am arian a gymeradwywyd. |
| PG | • Sicrhau mai dim ond i ddiwallu anghenion ac amcanion plismona y cymerir cyllid.<br>• Sicrhau y cydymffurfir ag amodau allweddol cyllid ac unrhyw ofynion statudol ac y deellir gofynion y rhoddwr yn glir.<br>• Sicrhau bod unrhyw amodau a roddir ar y CHTh a'r Heddlu mewn perthynas â chyllid allanol yn unol â'r polisïau a gymeradwywyd. Os oes gwrthdaro, mae angen mynd â hyn at y CHTh i'w ddatrys. |

## 11.2. Gweithio i Drydydd Parti

Trosolwg

11.2.1. Mae'r Heddlu'n darparu gwasanaethau i gyrff eraill y tu allan i'w rwymedigaethau arferol, a chodir tâl am y rhain. Ceir manylion am y fframwaith ar gyfer codi tâl o fewn y polisi ar gyfer Codi Tâl am Wasanaethau Heddlu Arbennig. Dylai fod trefniadau mewn lle i leihau unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn ac nad ymgymerir â gwaith o'r fath heb awdurdod.



72

Cyfrifoldebau

| Pwy? | Beth? |
|---|---|
| PG | • Sicrhau y caiff cynigion am gymorth eu costio, nad yw'r PG na'r CHTh sybsideiddio unrhyw gontract, ac y telir am y gwasanaeth ymlaen llaw, lle bo modd, fel nad achosir risg i'r PG a'r CHTh o achos unrhyw atebolrwydd megis dyledion drwg.<br>• Sicrhau bod trefniadau yswiriant priodol mewn lle.<br>• Sicrhau bod pob contract wedi'i ddogfennu'n gywir.<br>• Sicrhau nad yw contractau o'r fath yn cael effaith niweidiol ar y gwasanaethau a ddarperir gan y PG a'r CHTh. |

11.3. Trefniadau Cydweithio

11.3.1. Caiff cyrff cyhoeddus eu hannog fwyfwy i gyflwyno gwasanaeth di-dor drwy gydweithio'n agos â chyrff cyhoeddus eraill, awdurdodau lleol, asiantaethau a darparwyr gwasanaethau preifat.

11.3.2. Gall trefniadau cydweithio fod ar nifer o wahanol ffurfiau, pob un â'i drefniadau llywodraethu ei hun. Gellir grwpio'r rhain dan y penawdau canlynol:

- Partneriaethau
- Comisiynu
- Consortia
- Gweithio Rhanbarthol
- Cynghrair Strategol

11.3.3. Mae gan bartneriaid sy'n ymwneud â threfniadau cydweithio gyfrifoldebau rhanedig:

- gweithredu'n ddidwyll bob amser ac er lles gorau nodau ac amcanion y bartneriaeth;
- bod yn fodlon chwarae rhan yn y rhaglen ehangach, sy'n briodol i sgiliau ac adnoddau'r sefydliad sy'n cyfrannu;
- bod yn agored ynghylch unrhyw wrthdaro a allai godi;
- annog cydweithio a hybu rhannu gwybodaeth, adnoddau a sgiliau;
- cadw'n ddiogel unrhyw wybodaeth a dderbynnir o ganlyniad i weithgareddau neu ddyletswyddau partneriaeth sydd o natur gyfrinachol neu fasnachol sensitif; a
- hyrwyddo'r prosiect / trefniadau.

11.3.4. Ym mhob trefniant cydweithio, mae angen asesiad cychwynnol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw cytundeb yn effeithio'n andwyol ar y gwasanaethau a ddarperir gan y CHTh a'r PG. Rhaid gweithredu'r egwyddorion allweddol canlynol cyn ymrwymo i gytundeb:

- Dilyn rheoliadau prosiect i gynnwys gwerthusiad prosiect cychwynnol er mwyn asesu dichonolrwydd y trefniant o ran adnoddau, staff, diogelwch, statws fetio/cliriad ac arbenigedd.
- Deall a chydymffurfio'n llawn ag ymrwymiadau cost refeniw a chyfalaf manwl, gofynion trethi a chyfrifyddu, yn arbennig TAW.
- Cwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb, diogelwch gwybodaeth, rheoli



73

gwybodaeth, diogelu data, manteision a risg fel mater o raid.

- Dogfennu trefniadau yn llawn, gan gynnwys unrhyw gytundebau cyfreithiol, caffael, cyfrinachedd, a rhannu gwybodaeth a data fel mater o raid.
- Bodloni gofynion archwilio a rheoli.
- Cyfathrebu'n rheolaidd â phartneriaid yn y trefniant, gan gynnwys pwyntiau adolygu rheolaidd adeg camau gwahanol, er mwyn sicrhau'r canlyniad mwyaf llwyddiannus.
- Cynhyrchu strategaeth gadael priodol a/neu ddatblygu model gweithredu ar gyfer trawsnewid i'r un hen rigol.
- Elfennau'r PG a'r CHTh o bob trefniant cydweithio'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol hyn.

Partneriaethau

Trosolwg

11.3.5. Mae'r term partneriaeth yn cyfeirio at grwpiau lle mae aelodau'n gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal sy'n rhannu gweledigaeth ar gyfer maes polisi a ddiffinnir yn ddaearyddol neu yn ôl thema, ac sy'n cytuno ar strategaeth lle mae pob partner yn cyfrannu at ei chyflwyno. Diffiniad gweithredol defnyddiol o bartneriaeth o'r fath yw lle mae'r partneriaid:

- yn gyrff annibynnol fel arall;
- yn cytuno i gydweithredu er mwyn cyflawni nod cyffredin; ac
- yn llwyddo i greu strwythur neu broses sefydliadol a rhaglen y cytunwyd arni, ac yn rhannu gwybodaeth, buddion, risgiau a gwobrwyon.

11.3.6. Mae nifer y partneriaethau, yn lleol ac yn genedlaethol, yn cynyddu mewn ymateb i ofynion Llywodraeth Ganolog a mentrau lleol. Mae hyn yn cydnabod y ffaith bod gan weithio mewn partneriaeth y potensial i:

- gydymffurfio â gofynion statudol;
- cyflawni amcanion strategol mewn ffyrdd newydd a gwell;
- gwella ansawdd gwasanaethau a chost effeithiolrwydd;
- sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau prin a chyrchu adnoddau newydd;
- mynd i'r afael â materion sy'n croesi ffiniau asiantaethau a ffiniau daearyddol, a lle na all rhaglenni prif ffrwd fynd i'r afael â'r angen ar eu pennau eu hunain;
- creu perthnasau newydd;
- dod o hyd i ffyrdd newydd o rannu risg; a
- gynhyrchu buddion.

11.3.7. Fel arfer mae partneriaethau'n un o dri phrif fath, h.y. ar sail statudol, strategol, ac ad-hoc.

Ar sail statudol

11.3.8. Partneriaethau yw'r rhain a lywodraethir gan statud. Maent yn cynnwys, er enghraifft, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Strategol

11.3.9. Partneriaethau yw'r rhain a sefydlwyd i gyflawni amcanion plismona craidd. Gallant fod ar draws yr heddlu neu'n rhai lleol.



74

Ar hap

11.3.10. Trefniadau anffurfiol lleol yw'r rhain fel arfer a gytunir gan gomanderiaid lleol.

Cyd-destun

11.3.11. Fel y nodir yn adran 10 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, rhaid i'r CHTh, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw i flaenoriaethau perthnasol pob awdurdod cyfrifol. Yn amodol ar y cyfyngiadau a allai fod ar ffrydiau cyllido unigol, caiff Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gyfuno cyllid fel y gwelant hwy a'u partneriaid lleol yn addas. Gall y CHTh ymrwymo i gontract lleol am wasanaethau, yn unigol neu ar y cyd â phartneriaid lleol eraill, gan gynnwys cyrff nad ydynt yn heddlu.

11.3.12. Pan fydd y CHTh yn gweithredu fel comisiynydd gwasanaethau, bydd angen iddo/iddi gytuno ar y blaenoriaethau a rennir a'r canlyniadau y disgwylir eu cyflawni drwy'r contract neu'r cytundeb grant gyda phob darparwr. Gall y CHTh roi grantiau trosedd ac anrhefn i gefnogi blaenoriaethau lleol. Nid oes rhaid cynnwys amodau grant manwl yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar sut i wario cyllid o anghenraid. Mae'r pŵer i roi grantiau trosedd ac anhrefn gydag amodau wedi'i gynnwys yn adran 143 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014. Mae'r pŵer i gontractio am wasanaethau wedi'i nodi ym mharagraff 14 o Atodlen 1 i'r Ddeddf Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| CHTh a'r PG | Yn rhinwedd ei swydd fel Rheolydd Data, dylent ddylunio preifatrwydd yn eu trefniadau cydweithio o ddechrau'r trefniant. Gan gynnwys, er enghraifft, ystyriaethau o unrhyw risg diogelu data[11] a chael yr holl gytundebau rhannu priodol, llywodraethu gwybodaeth, contractau, gwaith papur ac ati ar waith a gallu dangos tystiolaeth dda o gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.[12] |
| CHTh | • Ystyried blaenoriaethau perthnasol partneriaid lleol wrth ystyried a phennu'r Cynllun Heddlu a Throseddu.<br>• Gwneud trefniadau priodol i gomisiynu gwasanaethau gan yr Heddlu neu ddarparwyr allanol.<br>• Rhoi grantiau trosedd ac anrhefn. |

[11] Erthygl 35 GDPR y DU / Deddf Diogelu Data 2018 – Adran 64 – Asesiad Effaith Diogelu Data

[12] Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig Coleg Plismona (APP) – Rheoli Gwybodaeth/Cod Ymarfer o dan Adran 46 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (adran 2.8) / Cytundeb Rhannu Data Personol Cymru (WASPI)

| | |
|---|---|
| Prif Swyddogion | • Dilyn y Gweithdrefnau Ariannol ar gyfer partneriaethau lleol, fel y'u cyhoeddir ar fewnrwyd yr Heddlu.<br>• Ymgynghori, cyn gynted ag y bo modd, gyda'r CC a'r PSC i sicrhau y rhoddir ymdriniaeth gywir i drethiant a threfniadau cyfrifyddu eraill.<br>• Llunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cyflwyno'r trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer y prosiect. Dylai'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) perthnasol lofnodi'r ddogfen hon. |

Comisiynu

11.3.13. Ni chaiff y PG na'r swyddogion a staff sydd o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y PG gomisiynu neu gyd-gomisiynu unrhyw wasanaethau neu wneud trefniadau ar gyfer canlyniadau gan unrhyw bartneriaid eraill, asiantaethau, cyrff cyhoeddus, sefydliadau diogelwch cymunedol neu sefydliadau eraill sy'n delio â diogelwch cymunedol, dioddefwyr, troseddwyr, cyffuriau, troseddwyr ifanc, cyfiawnder troseddol neu feysydd eraill oni bai y cytunir i hynny yn ysgrifenedig ac ymlaen llaw gan y Comisiynydd.

11.3.14. Bydd y Comisiynydd yn penderfynu pa wasanaethau a gomisiynir gan ba sefydliadau fel rhan o Fframwaith Comisiynu ar gyfer Dyfed-Powys. Bydd y Comisiynydd hefyd yn dwyn y PG i gyfrif am gyflawni gwasanaethau yn ôl dangosyddion perfformiad allweddol er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu.

11.3.15. Caiff y Comisiynydd gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau eraill yn ogystal â'r Heddlu er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau am y gwerth gorau i bobl Dyfed-Powys.

11.3.16. Caiff y Comisiynydd ddirprwyo'r pŵer i gomisiynu gwasanaethau gan bartneriaid i'r PG ond dim ond ar ôl cymeradwyo'r achos busnes a'r cynllun busnes a gyflwynwyd ymlaen llaw.

11.3.17. Ni chaiff y PG roi unrhyw arian i bartneriaid trydydd parti neu endidau eraill heb gymeradwyaeth ysgrifenedig y Comisiynydd ymlaen llaw. Caiff y Comisiynydd gymeradwyo cynllun cyllido blynyddol gan y PG ar gyfer partneriaid sy'n gyson â Chynllun Heddlu a Throseddu y Comisiynydd a lle mae achos busnes clir ar gyfer unrhyw wariant o'r fath gyda chanlyniadau mesuradwy.

11.3.18. Os bydd y Comisiynydd yn dirprwyo a chymeradwyo i'r PG weinyddu unrhyw gyllid i drydydd parti yna bydd y PG yn llunio adroddiadau rheolaidd yn manylu pa arian a roddwyd i ba drydydd parti a pha ganlyniadau a gyflawnwyd o'r gweithgaredd hwn.

Trefniadau Consortiwm

Trosolwg

11.3.19. Trefniant cydweithio hirdymor gyda chyrff eraill yw consortiwm, sy'n gweithredu gyda strwythur cyfreithiol ffurfiol a gymeradwywyd gan y CHTh.

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| Prif Swyddogion | • Cysylltu â'r Prif Wiethredwr cyn ymrwymo i gytundeb consortiwm ffurfiol, i sefydlu'r fframwaith cyfreithiol cywir.<br>• Ymgynghori, cyn gynted ag y bo modd, â'r CC a'r PSC i sicrhau y rhoddir ymdriniaeth gywir i drethiant a threfniadau cyfrifyddu eraill.<br>• Llunio achos busnes i ddangos y manteision economaidd llawn a gyflawnir drwy gymryd rhan yn y consortiwm. |

| | |
|---|---|
| | • Llunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cyflwyno'r trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer y prosiect. Dylai'r Prif Weithredwr lofnodi'r ddogfen hon. |
| CHTh | Cymeradwyo i'r PG a'r CHTh gymryd rhan yn y trefniant consortiwm. |

Gweithio Rhanbarthol

Trosolwg

11.3.20. Mae Deddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan atodlen 12 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i Gomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid adolygu trefniadau cydweithredu yn barhaus, a chydweithredu lle bo hynny er budd effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd eu hardaloedd eu hunain ac ardaloedd heddluoedd eraill.

11.3.21. Caiff cyfraniad CHTh a Heddlu Dyfed-Powys tuag at weithio gyda'r Comisiynwyr a'r Heddluoedd eraill ei gynnwys yn y gyllideb flynyddol a'r strategaethau ariannol tymor canolig.

11.3.22. Mae goruchwyliaeth strategol o drefniadau cydweithio rhanbarthol a chenedlaethol drwy Raglen Cydweithio Cymru Gyfan yn adrodd wrth Grŵp Newid a Thrawsnewid Heddlu Dyfed-Powys, ac i fyny i Grŵp Prif Swyddogion Cymru a'r Grŵp Plismona yng Nghymru.

11.3.23. 11.3.23 Mae gweithio rhanbarthol hefyd yn cael ei gefnogi gan egwyddorion a rennir a ailddatblygwyd yn 2021 i gynnwys:

- Adeiladu ar waith partneriaeth sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol a chost effeithlon i gefnogi cyflenwi gweithredol.
- Gwell integreiddio â phartneriaid ac asiantaethau.
- Datblygu cyfleoedd sydd wedi'u hadeiladu ar ffydd, tryloywder a didwylledd.
- Canolbwyntio ar fanteision.
- Datrysiadau arloesol a meddwl agored.
- Rhyddid i ystyried gweithgareddau cydweithio lleol lle maen nhw'n bodloni anghenion y cyhoedd a gofynion gwasanaeth lleol orau.

Cyfrifoldebau

| **Pwy?** | **Beth?** |
|---|---|
| CHTh a PG | Cymeradwyo i'r Heddlu gymryd rhan mewn Gweithio Rhanbarthol. |
| PSC a CC | Monitro'r cyfraniadau ariannol i/oddi wrth bartneriaid Rhanbarthol er mwyn sicrhau eu bod yn unol â gweithdrefnau cytunedig. |

# 12. ADRAN Dd Terfynau Dirprwyedig

12.1.1. Mae'r Rheoliadau Ariannol wedi'u rhannu yn nifer o adrannau. Gwneir cyfeiriadau yn yr adrannau unigol at derfynau awdurdodi dirprwyedig. Dangosir y terfynau hyn yn y tabl isod.

| **Rheoliad Ariannol** | **Adran o'r Rheoliad** | **Sefyllfa ble bydd y terfyn yn berthnasol** | **Terfyn dirprwyedig** |
|---|---|---|---|
| Cynllunio Ariannol Adran B<br>Pwynt 8.1 | Paratoi Cyllideb Refeniw Flynyddol | Rhaid i'r amcangyfrifon cyllideb nodi pob prosiect refeniw mawr newydd. Diffinnir prosiect refeniw mawr fel un sydd uwchlaw'r gwerth amcangyfrifedig a ddangosir isod.<br>Rhaid sefydlu canolfan gost neu god prosiect ar wahân i alluogi monitro gwariant. | £300,000 |
| Rheoli Cyllideb<br>Adran B<br>Pwynt 8.2 | Monitro Cyllideb Refeniw | Nid oes angen cyfeirio prosiectau mawr yn ôl i'r CHTh i'w cymeradwyo ymhellach oni bai, wrth drafod manylion contract, y ceisir newidiadau i natur y cynllun neu fod cost y cynllun uwchlaw'r terfyn dirprwyedig. | Cost prosiect yn amrywio oddi wrth yr amcangyfrif a gymeradwywyd gan 10% neu £300,000, pa un bynnag yw'r mwyaf |
| Rheoli Cyllideb<br>Adran B<br>Pwynt 8.2 | Trosglwyddo Refeniw | Trosglwyddiadau cyllideb unigol i linell gyllideb benodol wedi'u hadrodd i'r CC hyd at y terfyn a ddangosir.<br>Ar gyfer symiau unigol dros y terfyn hwn, mae angen cymeradwyaeth y PSC.<br>Rhaid adrodd trosglwyddiadau i linell gyllidebol benodol â gwerth cronnus sy'n fwy na £100,000, i'r Bwrdd Plismona. | £300,000 |
| Rheoli Cyllideb<br>Adran B<br>Pwynt 8.2 | Trin balansau diwedd blwyddyn | Gall deiliaid cyllideb ddatganoledig sy'n tanwario'u cyllideb mewn unrhyw flwyddyn ariannol wneud cais i'r CHTh i gario tanwariant bwriedig ymlaen yn amodol ar y terfyn dirprwyedig.<br>Dylai'r CHTh gytuno ar danwariant bwriedig.<br>Efallai y bydd cyllideb ddatganoledig deiliaid cyllideb sy'n gorwario'u cyllideb ddatganoledig mewn unrhyw flwyddyn ariannol yn cael ei lleihau ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn dibynnu ar benderfyniad y PG a'r CHTh ar ôl ymgynghori â'r PSC a'r CC. | £120,000 (pob deiliad cyllideb) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaglen Cyfalaf<br>Adran B<br>Pwynt 8.3 | Gwariant cyfalaf | Ni cheir ymrwymo i wariant cyfalaf oni bai bod hynny'n unol â'r rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd gan y CHTh.<br>Rhaid i'r swyddog cyfrifol baratoi amcangyfrifon manwl ar gyfer pob cynllun yn y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd cyn ceisio tendrau neu ymrwymo.<br>Nid oes angen cyfeirio cynlluniau yn ôl i'r CHTh i'w cymeradwyo ymhellach oni bai bod cost y cynllun uwchlaw'r terfyn dirprwyedig. | Cost prosiect yn amrywio oddi wrth yr amcangyfrif a gymeradwywyd gan fwy na 10% neu £120,000. Nid yw hyn yn nacau'r gofyniad i awdurdodi pob contract yn briodol yn unol â'r terfynau a gyflwynir yn y Rheolau Sefydlog ar Gontractau. |
| Rhaglen Cyfalaf<br>Adran B<br>Pwynt 8.3 | Prydlesi Eiddo, Prydlesi Cyllid a Threfniadau Credyd | Bydd y CC yn hysbysu'r PSC am bob prydles eiddo a phrydles cyllid arfaethedig ac am bob trefniant credyd arfaethedig arall cyn gwneud unrhyw gytundeb.<br>Mae angen cymeradwyaeth y CHTh ymlaen llaw ar gyfer pob prydles eiddo.<br>Bydd prydlesi eraill sydd â gwerth uwchlaw'r terfyn dirprwyedig yn amodol ar gymeradwyaeth CHTh. | £120,000 y flwyddyn neu unrhyw brydles sy'n fwy na 5 mlynedd o hyd |
| Rheoli Risg<br>Adran C<br>Pwynt 9.1 | Setlo Hawliadau | Bydd gan y PW awdurdod i setlo hawliadau sifil yn erbyn y CHTh hyd at y terfyn dirprwyedig.<br>Rhaid i'r CHTh gymeradwyo hawliadau sy'n fwy na'r swm hwn. | £36,000 ac eithrio costau cyfreithiol ac alldaliadau |
| Rheoli Risg<br>Adran C<br>Pwynt 9.1 | Setlo Hawliadau | Bydd gan y PG a'r DBG awdurdod i setlo hawliadau sifil yn erbyn y PG hyd at y terfyn dirprwyedig.<br>Rhaid i'r PG a'r CHTh gymeradwyo hawliadau sy'n fwy na'r swm hwn. | £36,000 ac eithrio costau cyfreithiol ac alldaliadau |
| Asedau<br>Adran C<br>Pwynt 9.5 | Prisio | Rhaid i'r PG gadw cofrestr asedau ar gyfer pob ased sefydlog sydd â gwerth sydd uwchlaw'r terfyn dirprwyedig. | Cerbydau - £8,000<br>Cyfarpar IT - £8,000<br>Peiriannau a Chyfarpar Arall - £8,000 |
| Asedau | Rhestrau eiddo | Rhaid i'r PG gadw rhestrau eiddo sy'n cofnodi disgrifiad digonol o eitemau | £300 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adran C<br>Pwynt 9.5 | | cludadwy a dymunol megis Cyfrifiaduron, Gliniaduron, Dyfeisiau Symudol a chyfarpar ffotograffig sydd uwchlaw'r terfyn dirprwyedig.<br>Cânt nod diogelwch yn unol ag Adran C pwynt 9.5. | |
| Asedau<br>Adran C<br>Pwynt 9.5 | Stociau a storfeydd | Caiff y PG ddileu anghysondebau rhwng lefel wirioneddol stoc a gwerth y stoc yn ôl y cyfrifon hyd at y terfyn dirprwyedig.<br>Rhaid cyfeirio symiau i'w dileu sydd uwchlaw'r gwerth hwn at y CHTh i'w cymeradwyo. | Eitemau unigol £2,000<br>Terfyn blynyddol cyffredinol ar yr holl stoc £24,000 |
| Asedau<br>Adran C<br>Pwynt 9.5 | Stociau a storfeydd (stoc ddarfodedig) | Caiff y PG ddileu stoc ddarfodedig, neu gyfarpar a deunyddiau nad oes eu hangen hyd at y terfyn dirprwyedig.<br>Rhaid cyfeirio symiau i'w dileu sydd uwchlaw'r gwerth hwn at y PSC i'w cymeradwyo. | Eitemau unigol £2,000<br>Terfyn blynyddol cyffredinol ar yr holl stoc £24,000 |
| Asedau<br>Adran C<br>Pwynt 9.5 | Gwaredu asedau | Caiff y PG waredu cerbydau a chyfarpar dros ben hyd at werth amcangyfrifedig y terfyn dirprwyedig. Rhaid adrodd am asedau i'w gwaredu sydd uwchlaw'r gwerth hwn i'r CHTh er mwyn cael cymeradwyaeth ymlaen llaw. | Cyfarpar £60,000<br>Cerbydau £60,000 |
| Gwyngalchu Arian<br>Adran C<br>Pwynt 9.6 | Mewndaliadau arian parod amheus | Dylid hysbysu'r asiantaeth ymchwilio berthnasol o fewndaliadau arian parod amheus mewn unrhyw arian cyfred sydd uwchlaw'r terfyn dirprwyedig.<br>Rhaid hysbysu'r CHTh o bob mewndaliad arian parod amheus. | £18,000 neu gyfatebol |
| Gwyngalchu Arian<br>Adran C<br>Pwynt 9.6 | Trafodion banc mewn arian parod o ffynhonnell unigol | Dylid hysbysu'r PSC neu'r CC o drafodion banc mewn arian parod o ffynhonnell unigol sydd uwchlaw'r terfyn dirprwyedig (ac eithrio atafaeliadau a thrafodion banc o ganlyniad iddynt o dan y Ddeddf Elw Troseddau 2002). | £18,000 neu gyfatebol |
| Rhoddion, benthyciada u a nawdd<br>Adran C<br>Pwynt 9.9 | Rhoddion, benthyciadau a nawdd | Rhaid i'r CHTh gymeradwyo pob rhodd, benthyciad neu nawdd a gynigir i'r CHTh, i'r PG, i'r SCHTh neu i'r Heddlu sydd uwchlaw'r terfyn dirprwyedig cyn ei dderbyn. | £600 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Incwm<br>Adran D<br>Pwynt 10.2 | Incwm | Caiff y CC neu'r PSC ddileu symiau unigol hyd at y terfyn dirprwyedig. Rhaid cyfeirio symiau i'w dileu sydd uwchlaw'r gwerth hwn at y CHTh i'w cymeradwyo. | £24,000 |
| Taliadau Gwirfoddol<br>Adran D<br>Pwynt 10.7 | Taliadau gwirfoddol | Caiff y Pennaeth Staff a'r PWwneud taliadau gwirfoddol hyd at y gwerth a ddangosir isod. | £11,000 |

# 13. ADRAN E Nodiadau Cyfarwyddyd ar Dorri Rheolau Sefydlog neu Reoliadau Ariannol

13.1.1. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn yn ategol i Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd y CHTh a'r PG a dylid eu darllen gyda'r polisi.

13.1.2. Mae gan y PSC a'r CC gyfrifoldeb dan adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i wneud adroddiad os yw'n ymddangos i'r naill neu'r llall fod unrhyw berson sy'n dal unrhyw swydd neu unrhyw gyflogai neu aelod o unrhyw gorff cydweithredol lle mae gan y CHTh neu'r PG gynrychiolaeth:

- wedi gwneud, neu ar fin gwneud penderfyniad, a oedd yn golygu neu a fyddai'n golygu y byddai'r CHTh neu'r PG yn mynd i wariant sy'n anghyfreithlon;
- wedi cymryd neu ar fin cymryd camau a fyddai, pe caent eu dilyn i'w terfyn, yn anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg ar ran y CHTh neu'r PG; a
- ar fin cofnodi eitem ar gyfrif, lle byddai'n anghyfreithlon gwneud hynny.

13.1.3. 13.1.3 Mae hefyd yn ddyletswydd ar y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro i baratoi adroddiad ar gyfer y CHTh mewn perthynas ag unrhyw gynnig, penderfyniad neu ymgais gan unrhyw berson sy'n dal unrhyw swydd neu gyflogaeth a allai fynd yn groes i unrhyw ddeddfiad, rheol gyfreithiol neu god ymarfer neu arwain at unrhyw gamweinyddu neu anghyfiawnder fel y'u diffinnir. O wneud hynny, dyletswydd y Prif Wiethredwr a Swyddog Monitro, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yw ymgynghori â'r PSC a'r CC.

13.1.4. 13.1.4 Lle gwneir yr adroddiad gan y PSC, rhoddir copi i'r CHTh, i'r Panel Heddlu a Throseddu ac i'r archwilydd allanol. Lle gwneir yr adroddiad gan y CC, rhoddir copi i'r PG, i'r CHTh ac i'r archwilydd allanol. Yn y ddau achos, bydd y mater yn cael ei adrodd i Gadeirydd y CBA.

13.1.5. 13.1.5 Er mwyn darparu ar gyfer camau effeithiol i ddelio ag unrhyw dwyll a llygredd ac i gynorthwyo'r PSC a'r CC wrth gyflawni eu dyletswyddau i sicrhau y caiff materion ariannol yr Heddlu a'r SCHTh eu cynnal yn gywir, dilynir y gweithdrefnau a nodir fewn adran 9.4 os digwydd y bydd unrhyw amheuaeth o dorri rheoliadau ariannol neu reolau sefydlog, neu unrhyw achos gwirioneddol o'r fath.

# 14. Atodiad B: Rheolau Sefydlog Contractau

## 14.1. Cyflwyniad

Gweithrediad a Chwmpas Rheolau Sefydlog ar Gontractau

14.1.1. Mae'r Rheolau Sefydlog hyn yn llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer tendrau a chontractau a chyfrifoldebau cymharol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) a'r Prif Gwnstabl (PG). Bydd y Rheolau Sefydlog hyn yn berthnasol i'r holl gontractau a wneir gan y CHTh neu ar ei ran gydag unrhyw berson neu gorff arall, ac eithrio lle bo'r eithriadau a nodir yn y ddogfen hon yn berthnasol.

14.1.2. Bydd y Rheolau Sefydlog hyn felly'n berthnasol i'r holl reolau a chontractau ar gyfer:

- cyflenwi nwyddau a deunyddiau;
- darparu gwasanaethau, gan gynnwys cyngor proffesiynol gan ymgynghorwyr;
- gweithredu prosiectau adeiladu, peirianneg, cyfathrebu neu dechnoleg gwybodaeth;
- Cytundeb consesiynau[13]; a
- phenodi tystion arbenigol (a gofnodir ar gyfeirlyfr Tystion Arbenigol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol).

14.1.3. Rhaid i bob contract a wneir gan y CHTh neu ar ei ran gydymffurfio â chyfraith Cymru a Lloegr a'r Rheolau Sefydlog hyn. Pryd bynnag y mae Cyfraith Cymru a Lloegr yn gwrthdaro â'r Rheolau Sefydlog hyn yna dylid rhoi blaenoriaeth i'r Gyfraith honno.

14.1.4. Rhaid i ymgynghorwyr allanol a swyddogion technegol a benodir i oruchwylio'r contract ddilyn y Rheolau Sefydlog hyn a Rheoliadau Ariannol y CHTh fel pe baent yn swyddogion i'r CHTh. Rhaid i'w contractau penodi ddatgan y gofyniad hwn.

Statws

14.1.5. Ni ddylid ystyried y Rheolau Sefydlog ar Gontractau ar eu pen eu hunain, ond yn hytrach fel rhan o fframwaith rheoleiddio cyffredinol y CHTh. Mae'r rhain wedi'u hategu gan weithdrefnau mwy manwl sy'n llywodraethu gweithgaredd caffael.

14.1.6. Y CHTh sy'n gyfrifol am gymeradwyo neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog ar Gontractau. Y PSC sy'n gyfrifol am adolygu'r Rheolau Sefydlog yn rheolaidd ac am gyflwyno unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau i'r CHTh, ar ôl ymgynghori â'r PG, y CC a'r PW.

14.1.7. Y PG sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff, contractwyr ac asiantau yn ymwybodol o fodolaeth a chynnwys Rheolau Sefydlog y CHTh ar Gontractau ac am sicrhau y cydymffurfir â hwy (mae hyn yn berthnasol hefyd i'r PW o fewn SCHTh). Rhaid i'r Rheolau Sefydlog hyn fod ar gael i staff gyfeirio atynt drwy fewnrwyd yr Heddlu.

---

[13].
"Cytundeb consesiwn" fel contract ar gyfer cyflenwi, er budd ariannol, gwaith neu wasanaethau i awdurdod cytundebu lle: a. mae o leiaf rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y cyflenwad hwnnw'n hawl i'r darparwr ddefnyddio'r gwaith neu'r gwasanaethau, a b. o dan y cytundeb mae'r cyflenwr yn wynebu risg gweithredu gwirioneddol.

14.1.8. Y PG sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw godau ymarfer, canllawiau neu brotocolau a gaiff o bosibl eu cyhoeddi ar y cyd â Rheolau Sefydlog ar Gontractau.

14.1.9. Gall achosion difrifol o dorri Rheolau Sefydlog ar Gontractau arwain at achos disgyblu. Caiff achosion o'r fath eu hadrodd i'r PSC neu'r CC a fydd yn penderfynu, ar ôl ymgynghori â'r PW, a fydd y mater yn cael ei gyfeirio at yr Awdurdod Priodol perthnasol ar gyfer asesiad. Yr Awdurdod Priodol fydd i bennu pa un ai a oes angen ymchwiliad a pha un ai a ddylid cychwyn unrhyw weithdrefnau disgyblu dilynol.

14.1.10. Cofnodir diffyg cydymffurfiaeth â'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau yn yr Adroddiad Diffyg Cydymffurfiaeth. Cyflwynir yr Adroddiad Diffyg Cydymffurfiaeth i'r PSC neu'r CC, a fydd yn penderfynu, ar ôl ymgynghori â'r PW, pa un ai adroddir am y mater wrth y CHTh a/neu'r PG ai peidio.

Eithriadau o'r Rheolau Sefydlog ar Gontractau

14.1.11. Ni fydd y Rheolau Sefydlog hyn ar Gontractau yn berthnasol yn yr achosion canlynol:-

- contractau ar gyfer gwerthu a phrynu tir (Adran 14.12);
- contractau cyflogaeth;
- contractau ar gyfer buddsoddi neu werthu arian neu warannau; a
- phenodi neu gyfarwyddo Cwnsler.

14.1.12. Dim ond Rheolau Sefydlog ar Gontractau (Adran 14.12) a fydd yn berthnasol i gontractau ar gyfer gwerthu a phrynu buddiannau mewn tir ac eiddo. Gall y CC roi awdurdod ysgrifenedig i roi contract i un contractwr dan amgylchiadau arbennig, gan ei eithrio o'r Rheoliadau Caffael a'r Gweithdrefnau Ariannol, hyd at werth o £25,000 (heb gynnwys TAW). Rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid roi caniatâd ysgrifenedig uwchlaw'r gwerth hwn, ar ôl ymgynghori â'r Prif Weithredwr.

14.2. 14.2 Buddiannau Deiliaid Swyddi

Buddiannau Ariannol Deiliaid Swyddi

14.2.1. Atgoffir pob Deiliad Swydd o'r angen i ystyried yn ofalus ei safbwynt o ran datgan diddordeb mewn perthynas â dyfarnu contractau.

Buddiannau Ariannol Swyddogion mewn Contractau

14.2.2. Rhaid i'r Pennaeth Caffael gadw cofnod o unrhyw hysbysiad a roddir gan ddeiliad swydd, swyddog neu cyflogai i'r PG o fuddiant ariannol a rhaid i'r cofnod fod ar gael i'w archwilio yn ystod oriau swyddfa. Yn yr un modd, rhaid i'r PW gadw cofnod o unrhyw hysbysiad a roddir gan ddeiliad swydd, swyddog neu cyflogai i'r CHTh o fuddiant ariannol a rhaid i'r cofnod fod ar gael i'w archwilio yn ystod oriau swyddfa.

14.2.4. Dylai pob cyfranogwr a fydd yn dylanwadu ar y broses gaffael gynnal Asesiad Gwrthdaro drwy'r broses Gaffael a'r Rheoli Cytundeb canlyniadol (gan gynnwys unrhyw ymgysylltu â'r farchnad ymlaen llaw). Byddai'r unigolion hynny'n cynnwys:

a) unigolyn (gan gynnwys gweinidog) mewn sefyllfa sy'n debygol o gael dylanwad uniongyrchol dros benderfyniadau a wneir yn ystod y broses gaffael;
b) unigolyn mewn sefyllfa sydd dal â rhywfaint o ddylanwad, ond sy'n fwy anghysbell na'r hyn a nodir ym mharagraff a. AC sydd wedi ceisio dylanwadu rhywfaint ar y broses; a
c) chyflenwr neu gorff allanol arall â budd a nodwyd yn y penderfyniadau dan sylw.

Mae'r darpariaethau gwrthdaro buddiannau'n berthnasol ar gyfer pob caffaeliad a drafodwyd. Lle y rhennir caffaeliad i bob pwrpas ar draws sawl cam, er enghraifft, fframweithiau a marchnadoedd dynamig, mae'r rhwymedigaethau gwrthdaro a nodir uchod yn berthnasol ar gyfer yr holl gamau hynny.

14.3. Strategaeth Gaffael a Lefelau Awdurdodi

Strategaeth Gaffael

14.3.1. Mae'r adran Gaffael yn dilyn Strategaeth Gaffael Gydweithredol yr Heddlu yn Ne Cymru, Cyduned Caffael yr Heddlu. Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, bydd y Bwrdd Cyllid a Chynllun Ariannol Tymor Canolig Strategol yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol ar Gaffael Cydweithredol.

Cyn Caffael

14.3.2. Cyn cychwyn ymarfer caffael, mae'n hanfodol bod Swyddog Awdurdodedig (deiliad cyllideb) wedi'i awdurdodi i gychwyn y cynllun, i fonitro cynnydd a sicrhau y caiff y cynllun ei gwblhau yn unol â'r Cynllun Caffael.

14.3.3. Cyn ymgymryd â chaffael, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig (y deiliad Cyllideb):-

- baratoi amcangyfrif cynllun yn cynnwys cynllun busnes amlinellol;
- paratoi targedau cynnydd;
- paratoi gwerthusiad prosiect sy'n dangos costau a buddion;
- ymgynghori â'r Gwasanaethau Cyfreithiol er mwyn adolygu unrhyw oblygiadau cyfreithiol; ac
- ymgynghori â'r adran Gaffael i adolygu'r Cynllun Caffael, a fydd yn cynnwys llwybr i'r farchnad, ymgysylltu cyn mynd i'r farchnad, ac unrhyw ystyriaethau profi.

Awdurdodi ac Awdurdod Dirprwyedig

14.3.4. Y CHTh yw'r endid cyfreithiol unigol ar gyfer pob contract sy'n ymwneud â HDP.

14.3.5. Gall y Pennaeth Ystadau awdurdodi gwariant sy'n ymwneud ag ystadau hyd at werth £50,000 (heb gynnwys TAW). Caiff y CC awdurdodi gwariant sy'n ymwneud ag ystadau hyd at werth £150,000 (heb gynnwys TAW). Wedi hynny, rhaid adrodd am wariant wrth Swyddog Gweithredol SCHTh ar gyfer craffu a chymeradwyo.

14.3.6. Caiff y PG roi awdurdod ysgrifenedig i'r adran Gaffael i wobrwyo cytundeb hyd at werth £300,000 (heb gynnwys TAW). Rhaid i'r CHTh neu'r PSC, yn unol ag awdurdod dirprwyedig, awdurdodi symiau uwch na hyn. Rhaid adrodd am bob cytundeb sy'n uwch na £300,000 (heb gynnwys TAW) wrth Swyddog Gweithredol SCHTh ar gyfer craffu a chymeradwyaeth.

14.3.7. Bydd adroddiadau am wobrwyo tendrau wrth Swyddog Gweithredol SCHTh yn cynnwys yr holl fanylion perthnasol am y broses gaffael.

14.3.8. Rhaid rhoi Sêl Gyffredin y CHTh ar gontractau ar gyfer adeiladu neu gontractau eraill os gofynnir am hynny, ac ar bob grant a wneir gan y CHTh sy'n £300,000 o werth neu fwy (heb gynnwys TAW).

14.3.9. Bydd gosod y Sêl Gyffredin ond yn cael ei dystio gan y Prif Weithredwr neu ddirprwy enwebedig. Unwaith y byddant wedi eu selio, bydd cofnod o'r cytundebau'n cael ei gynnal a bydd y cofnod yn cael ei lofnodi gan yr unigolyn a dystiodd i'r sêl.

14.3.10. Mae'r CHTh yn dirprwyo'i awdurdod i'r PSC i ymrwymo'r CHTh i gytundebau contractiol sy'n llai na £500,000 (heb gynnwys TAW) mewn gwerth.

14.3.11. Y CHTh fydd yn gyfrifol am awdurdodi pob contract gwerth £500,000 (heb gynnwys TAW) neu fwy.

<u>Awdurdodi Cyllideb</u>

14.3.12. Cyn gwneud unrhyw ymrwymiad contractiol ar ran y CHTh, rhaid i'r Deiliaid Cyllideb sicrhau bod digon o gyllideb a gymeradwywyd i fodloni'r ymrwymiad a wneir.

14.4. Trothwyon Caffael[14]

14.4.1. Rhaid cael o leiaf un dyfynbris mewn perthynas â'r holl nwyddau a gwasanaethau sydd â chyfanswm gwerth llai na £10,000 (heb gynnwys TAW). Gellir cael mwy nag un dyfynbris lle ystyrir ei bod yn briodol dangos gwerth am arian.

14.4.2. Bydd nwyddau a gwasanaethau sydd â chyfanswm gwerth amcangyfrifol sy'n fwy na £10,000 (heb gynnwys TAW) ond yn llai na £25,000 (heb gynnwys TAW) ond yn cael eu caffael ar ôl ceisio dyfynbrisiau gan dri chyflenwr neu unigolyn addas. (gellir cael dyfynbrisiau drwy e-bost os yw'r pryniant o natur frys).

14.4.3. Ceir caffael nwyddau a gwasanaethau y mae eu gwerth amcangyfrifedig yn fwy na £25,000 (heb gynnwys TAW) dim ond ar ôl cynnal y broses gaffael berthnasol fel y disgrifir yn Adran 14.6 o'r ddogfen hon.

14.4.4. Bydd caffael nwyddau a gwasanaethau'n cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cytundebau Cyhoeddus 2015 (RhCC 2015), Deddf Caffael 2023 (DC 2023) ac unrhyw Offerynnau Statudol cysylltiedig y DU.

[14] Nid yw'r gwerthoedd a nodir yn y weithdrefn hon yn cynnwys Treth ar Werth (TAW)

14.4.5. Cyflwynwyd Deddf Caffael 2023 i ddeddfwriaeth ar 24 Chwefror 2025. Mae rheolau RhCC 2015 yn gymwys oni bai eu bod yn gwrthdaro gyda deddfwriaeth gyfredol (DC 2023). Am fanylion y terfynau ariannol cyfredol sy'n ymwneud â RhCC 2015/DC 2023, dylid cyfeirio at yr Adran Gaffael. Nodir y terfynau yn yr Hysbysiad Polisi Caffael canlynol: Canllawiau: Trothwyon - GOV.UK

Cyfanswm Gwerth neu Nifer y Contractau

14.4.6. Ni cheir rhannu prosiect yn nifer o gontractau ar wahân er mwyn osgoi'r cyfyngiadau a osodir gan statud, RhCC 2015/DC 2023 neu Reoliadau Ariannol. Gallai rhannu prosiectau yn bwrpasol yn y fath fodd arwain at gamau disgyblu.

14.5. Gweithdrefnau Caffael (ar gyfer gwerthoedd amcangyfrifol dros £25,000 (heb gynnwys TAW)

14.5.1. Cyn ymrwymo i unrhyw gontract, rhaid ymgymryd â'r broses gaffael mewn un o'r ffyrdd a ddisgrifir yn y Rheolau Sefydlog hyn heblaw fel y darperir ym mharagraffau 14.6.1 i 14.7.5. Pennir y gweithdrefnau gweinyddol manwl yn benodol yn y gweithdrefnau Rheolaeth Ariannol.

Cydymffurfiaeth â'r RhCC 2015/DC 2023

14.5.2. Lle mae gwerth amcangyfrifol y cytundeb yn fwy na'r Canllawiau: Trothwyon - GOV.UK:

- rhaid gosod yr hysbysiad priodol yn Canfod Tendr (Gwerthwch i Gymru), a rhaid cydymffurfio â'r amserlenni mewn perthynas â'r broses dendro benodol; a
- rhoddir hysbysiad pellach ar borthol ar-lein gymeradwy CHTh/y PG ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau cytundeb a chyhoeddiadau eraill os ystyrir bod hyn yn briodol.

Y Broses Dendro

14.5.3. Lle mae gwerth amcangyfrifol y cytundeb yn fwy na £25,000 (heb gynnwys TAW), bydd yr adran Gaffael yn hwyluso'r broses gaffael fwyaf priodol. Ar gyfer Caffael Islaw'r Trothwy, efallai bydd hyn drwy ddyfynbrisiau neu broses gaffael ffurfiol.

14.5.4. Lle yr ymgymerir â phroses gaffael ffurfiol, rhaid rhoi 14 diwrnod o rybudd o leiaf ar borthol ar-lein gymeradwy CHTh/PG ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau cytundeb a chyhoeddiadau eraill os ystyrir bod hyn yn briodol.

14.5.5. Rhaid i'r hysbysiad ddatgan natur a diben y cytundeb, gwahodd tendrau ar gyfer ei weithredu a nodi'r dyddiad a'r amser olaf ar gyfer derbyn tendrau.

14.5.6. Bydd yr adran Gaffael a'r daliwr cyllideb/arbenigwr adran yn ystyried y weithdrefn dendro berthnasol.

Mae'r prosesau tendro sydd ar gael i ymgymryd â nhw ar hyn o bryd fel a ganlyn:

- Agored
- Gweithdrefn Hyblyg Gystadleuol
- Dyfarniad Uniongyrchol
- Cyfundrefn Arbennig (Consesiwn/Cyffyrddiad Ysgafn)

Rhaid i bawb sy'n gymwys i ymateb gael eu gwahodd i dendro ac yn gallu cael mynediad at y dogfennau tendro ar y system dendro electronig yn syth ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad cytundeb.

14.5.7. Rhaid i'r broses o ddethol darpar gontractwyr beidio â chael ei gweld yn dangos unrhyw ffafriaeth, a rhaid ei dogfennu'n llawn drwy sicrhau bod y meini prawf gwerthuso i'w defnyddio'n cael eu cynnwys yn y dogfennau tendr.

Eithriadau

14.5.8. Nid yw darpariaethau'r weithdrefn dendro a nodir yma'n berthnasol pan mae'r PSC, mewn ymgynghoriad â'r CC a'r PW, yn fodlon bod y Dyfarniad Uniongyrchol yn cydymffurfio â DC 2023 (Dyfarniad Uniongyrchol Adran 41, 43 ac Atodlen 5).

- cynhyrchu prototeip, neu gyflenwi gwasanaethau neu nwyddau gwreiddiol eraill;
- dim ond un ffynhonnell gyflenwi sydd; (dim dewisiadau eraill rhesymol i'r nwyddau, gwasanaethau neu weithiau hynny)
- mae achos cyfiawnadwy dros ddefnyddio cyflenwr penodol er mwyn bod yn gydnaws ag offer presennol neu er mwyn cynnal parhad cyflenwad a fwriadwyd fel estyniad i, neu ddisodli rhannol, nwyddau, gwasanaethau neu weithiau sy'n bodoli eisoes lle y byddai newid cyflenwr yn arwain at yr awdurdod cytundebu'n derbyn gwasanaeth/nwyddau anghydnaws neu'n creu anawsterau technegol anghymesur. Lle y gwneir achos o'r fath, mae'n hollbwysig darparu tystiolaeth o gostau a ffactorau cysylltiedig er mwyn cefnogi'r honiad;
- mae'r gwasanaethau a ddarperir yn rhai Tyst Arbenigol
- nwyddau a brynir ar farchnad nwyddau
- telerau manteisiol ar fethdalu
- mae angen gweithredol gwirioneddol nas rhagwelwyd yn codi fel bod angen y cyflenwad ar frys a gallai colled, difrod, neu anaf ddeillio o oedi oherwydd y weithdrefn hysbysebu;
- gall rhai tendrau hefyd fod yn gymwys ar gyfer eithriad penodol o ofynion DC 2023 ar sail diogelwch cenedlaethol.
- er mwyn gwarchod bywyd neu iechyd dynion, anifeiliaid neu blanhigion neu ddiogelu trefn gyhoeddus neu ddiogelwch y cyhoedd o dan adran 42 DC 2023.
- newid i Ddyfarniad Uniongyrchol yn dilyn gweithdrefn dendro gystadleuol aflwyddiannus.
- rhaid cael cadarnhad wrth Adran Gaffael yr Heddlu yn y lle cyntaf o ran pa un ai a yw eithriad o'r fath yn berthnasol i'r pryniant arfaethedig. Bydd pob cyflenwr yn destun adolygiad i bennu pa un ai a ydynt wedi'u heithrio neu'n eithriadwy yn unol â'r Rhestr Rhagwaharddiadau.

14.5.9. Bydd y rhai sy'n dymuno dibynnu ar unrhyw un o'r uchod yn cyflwyno achos â thystiolaeth i'r PSC. Adroddir am fanylion cytundebau o'r fath wrth Swyddog Gweithredol SCHTh pan mae'r gwerth yn fwy na £25,000 (heb gynnwys TAW) cyn eu cymeradwyo.

14.5.10. Mae'r eithriadau hyn yn berthnasol ar yr amod, ym mhob achos a bennir ym mharagraff 14.6.7:

- nad yw camau o'r fath yn mynd yn groes i unrhyw ofyniad statudol neu ofyniad DC 2023;
- adroddir am fanylion y cytundeb wrth Swyddog Gweithredol SCHTh lle mae gwerth y cytundeb yn fwy na £25,000 (heb gynnwys TAW); ac
- y cedwir dogfennaeth ddigonol ar gyfer pob contract lle nad oes tendrau wedi'u gwahodd.

14.6. Cyflwyno ac Agor Tendrau a Dyfynbrisiau

Cyflwyno Tendrau

14.6.1. Lle gwneir gwahoddiad i dendro yn unol â'r Rheolau Sefydlog, rhaid i bob gwahoddiad nodi:

- yr amser a'r modd(au) y dylid cyflwyno'r tendr;
- nad yw'r CHTh yn ymrwymo i dderbyn y tendr isaf neu unrhyw dendr.

Cadw, Cofnodi ac Agor Tendrau a Dyfynbrisiau

14.6.2. Pan fo gwerth amcangyfrifedig y contract yn fwy na £10,000 (heb gynnwys TAW) ond heb fod yn fwy na £25,000, caiff y Deiliad Cyllideb neu'r cynrychiolydd dirprwyedig dderbyn dyfynbrisiau ffurfiol.

14.6.3. Pan fo gwerth amcangyfrifedig y contract yn fwy na £25,000 (heb gynnwys TAW), rhaid i'r adran Gaffael enwebedig dderbyn pob tendr/dyfynbris.

Tendrau heb eu Dychwelyd

14.6.4. Bydd y system dendro electronig yn cofnodi'r cyflenwyr sydd wedi gofyn am fynediad i'r ymarfer tendro a bydd yn cofnodi pob cyflwyniad ac unrhyw ddiffyg cyflwyniad o ymateb tendro.

14.6.5. Gellir ystyried tendrau hwyr ar ôl trafodaeth rhwng y Deiliad Cyllideb a'r Pennaeth Caffael enwebedig.

14.7. Gwerthuso Tendrau a Thrafodaethau ar ôl Tendro

Gwerthuso Tendrau

14.7.1. Caiff tendrau eu gwerthuso gan ddefnyddio model gwerthuso wedi'i strwythuro'n briodol. Rhaid i'r adran wreiddiol gymeradwyo amlinelliad unrhyw fodel gwerthuso tendrau/dyfynbrisiau a ddefnyddir i farnu tendrau, cyn cyhoeddi'r tendrau eu hunain.

Derbyn Tendrau

14.7.2. Bydd gan y CHTh a'r rhai sydd ag awdurdod dirprwyedig o dan y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol hwn bŵer i dderbyn tendrau yn amodol ar gydymffurfio â gweithdrefnau caffael statudol.

Pan Dderbynnir Un Tendr yn Unig

14.7.3. Pan dderbynnir un tendr yn unig, adroddir i'r Bwrdd Cyllid a Chynllun Ariannol Tymor Canolig Strategol. Rhaid i swyddogion roi eglurhad pam mai dim ond un tendr a dderbyniwyd a rhoi rhesymau pam nad yw ail broses dendro yn ymarferol/angenrheidiol.

Is-gontractwyr a Chyflenwyr Enwebedig

14.7.4. Bydd yn amod ar benodi unrhyw berson nad yw'n swyddog i'r CHTh gan y CHTh neu ar ei ran bod yn rhaid i'r person hwnnw, os yw i oruchwylio contract, gydymffurfio â darpariaeth y Rheolau Sefydlog hynny p'un a yw'n Swyddog a Gymeradwywyd ai peidio.

14.7.5. Bydd y contract yn cynnwys cymal sy'n mynnu bod y Contractwr yn cael caniatâd ysgrifenedig y swyddog arweiniol cyn aseinio neu is-osod y contract neu unrhyw ran ohono, ac eithrio fel y caniateir yn benodol yn ôl telerau'r contract.

14.8. Ffurf Contract

14.8.1. Rhaid i bob contract fod yn ysgrifenedig. Pan fo contract yn fwy na £25,000 (heb gynnwys TAW) rhaid i'r contract fod ar ffurf a gymeradwyir gan y PSC. Gall contractau y mae eu gwerth yn llai na £25,000 (heb gynnwys TAW) gael eu cwblhau drwy ddefnyddio ffurflen archebu swyddogol gyda thelerau ac amodau safonol y CHTh. Rhoddir tystiolaeth ysgrifenedig o ddyfynbrisiau llafar ac fe'u cefnogir gan ffurflen archebu briodol.

14.8.2. Rhaid i bob contract nodi:

- natur a chwmpas y gwaith a'r gwasanaethau sydd i'w cyflawni, neu swm a disgrifiad o'r nwyddau a'r deunyddiau sydd i'w cyflenwi;
- y pris sydd i'w dalu gyda datganiad o ostyngiadau neu ddidyniadau neu amrywiadau eraill; a'r
- amser neu'r amseroedd y mae'r contract i'w gyflawni o'i fewn, neu y mae'r nwyddau i'w darparu.

14.8.3. Lle bo safonau manyleb Prydeinig neu godau ymarfer safonol ar gael ar ddyddiad y tendr, dylai'r contract ei gwneud yn ofynnol bod yr holl nwyddau, deunyddiau a chrefftwaith yn cydymffurfio o leiaf â'r safonau / manylebau hynny neu gyfwerth.

14.9. Tryloywder

Ar gyfer pob gofyniad dros £25,000 heb gynnwys TAW, rhaid cyhoeddi hysbysiad tryloywder ym mhob cam perthnasol o'r cylch bywyd masnachol llawn yn unol â gofynion DC 2023. Canllawiau Deddf Caffael 2023: dilyniant hysbysiadau a siartiau llif [HTML] | LLYW.CYMRU

14.10. Canslo Contractau

14.10.1. Rhaid rhoi cymal ym mhob contract ysgrifenedig sy'n rhoi'r pŵer i'r CHTh ganslo'r contract ac adennill gan y Contractwr swm unrhyw golled o achos canslo o'r fath dan yr amgylchiadau canlynol:

- os yw'r Contractwr wedi cynnig neu wedi rhoi neu wedi cytuno i roi unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath i unrhyw berson fel cymhelliad neu wobr; neu

- am fethu â chyflawni telerau'r contract; neu
- am ddangos neu beidio â dangos ffafriaeth neu anffafriaeth i unrhyw berson mewn perthynas â'r contract neu unrhyw gontract arall gyda'r CHTh; neu
- os yw gweithredoedd wedi'u gwneud gan unrhyw berson a gyflogir ganddo neu sy'n gweithredu ar ei ran, p'un a oedd hynny yn hysbys i'r Contractwr ai peidio, neu
- mewn perthynas ag unrhyw gontract gyda'r CHTh, os yw'r Contractwr neu unrhyw berson a gyflogir ganddo neu sy'n gweithredu ar ei ran wedi cyflawni unrhyw drosedd dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010; neu wedi rhoi unrhyw ffi neu wobr y mae ei derbyn yn drosedd o dan Adran 117(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

14.10.2. Rhaid rhoi cymal canslo priodol ym mhob contract ysgrifenedig.

14.10.3. Rhaid i gontractau nodi hefyd y gallai methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth gontractiol naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol arwain at ganslo'r contract ac adennill unrhyw gostau ychwanegol gan y Contractwr.

14.11. Ansolfedd

14.11.1. Os ydy cyflenwr nwyddau neu wasanaethau'n mynychu cyfnod o weinyddiaeth neu ddiddymiad, dylid hysbysu'r PSC a'r CC ar unwaith. Mi fyddant yn sicrhau bod cysylltiad yn cael ei wneud gyda'r gweinyddwyr / diddymwyr i ddiogelu safle'r sefydliad cymaint ag sy'n bosib. Mi fyddant hwy yn hysbysu'r PW, y Dirprwy Brif Gwnstabl, Cyfreithwyr yng Ngwasanaeth Cyfreithiol yr Heddlu a'r Adran Gaffael fel y bo'n briodol. Mi fyddant hwy yn ystyried y risgiau fydd yn wynebu'r sefydliad a chymryd camau i liniaru'r risgiau hynny, yn cynnwys, os fydd angen, sicrhau bod cyflenwad amgen o nwyddau neu wasanaethau'n cael ei drefnu cyn gynted â phosibl.

<u>Mynediad at Ddogfennaeth</u>

14.11.2. Rhaid i archwilwyr neu gynrychiolwyr penodedig eraill i'r CHTh fod â hawl mynediad at ddogfennau Contractwr mewn perthynas ag unrhyw gontract gyda'r CHTh.

14.11.3. Rhaid cadw dogfennaeth mewn perthynas ag unrhyw gontract am y cyfnod gofynnol a bennir ym Mholisi'r CHTh ar gadw a dinistrio dogfennau.

<u>Anghenion Yswiriant</u>

14.11.4. Mi fydd ceisiadau ar gyfer lefelau atebolrwydd yswiriant cyflenwyr yn cael eu gwneud yn ystod y broses dendro ac yn cael ei gadarnhau gan yr Adran Gaffael. Mae'n rhaid i bob cytundeb gynnwys yr isod fel lleiafswm:

| **Yswiriant** | **Lleiafswm Yswiriant** | **Anghenion Cytundeb** |
|---|---|---|
| Atebolrwydd Cyhoeddus | £5 miliwn | Pob cytundeb |
| Atebolrwydd Cyflogwyr | £10 miliwn | Pob cytundeb |
| Indemniad / Atebolrwydd Proffesiynol | £1 miliwn | Pob cytundeb |
| Atebolrwydd Cynnyrch | £1 miliwn | Lle'n addas (e.e cyflenwyr offer) |

14.12. Trafodiadau Tir

Caffael Tir ac Adeiladau

14.12.1. Cyn caffael unrhyw fuddiannau mewn tir a/neu adeiladau, rhaid i'r CHTh ystyried amcangyfrif gan berson â chymhwyster priodol o werth y tir a/neu'r adeiladau dan sylw ac ni ddylai gaffael tir a/neu adeiladau am gydnabyddiaeth sydd uwchlaw'r hyn a argymhellir gan y person cymwys.

Caffael Tir ac Adeiladau mewn Arwerthiant

14.12.2. Gall person â chymhwyster priodol a benodir gan y CC wrth arfer ei bwerau dirprwyedig ar gyfer rheoli eiddo wneud cynigion mewn arwerthiannau am dir a/neu adeiladau y mae eu hangen ar gyfer unrhyw un o swyddogaethau'r CHTh, ar yr amod:

- bod y telerau cyfreithiol wedi'u cymeradwyo yn unol â chyngor cyfreithiol priodol; a
- nad yw'r cais yn fwy na'r swm a nodir gan y CHTh neu, lle nad oes swm o'r fath wedi'i nodi, y swm a ganiateir yn yr amcangyfrifon a gymeradwywyd gan y CHTh (yn amodol ar unrhyw swm a ganiateir o dan Reoliadau Ariannol y CHTh) at y diben hwnnw.

Gwaredu Tir a Rheoli Ystâd

14.12.3. Mae gan y CC, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Ystadau, bŵer:-

- yn unol â chyngor proffesiynol priodol, i benderfynu bod unrhyw gamau'n briodol mewn perthynas ag adolygu asesiadau graddio, gwneud gwrthwynebiadau, asesu rhenti ar gyfer eiddo a pherfformiad cynaliadwyedd, mynychu'r llysoedd prisio, delio â cheisiadau tenantiaid/deiliaid trwydded i drefnu neu wneud gwelliannau a cheisiadau i amrywio amodau tenantiaethau neu drwyddedau, ac i benderfynu ar faterion arferol mewn perthynas â rheoli ystadau;
- ar ôl cael cymeradwyaeth y CHTh mewn egwyddor i waredu eiddo ac ar yr amod y cydymffurfir ag unrhyw weithdrefnau a fabwysiadwyd gan y CHTh mewn perthynas â chyn-berchnogion ac ag Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, i drefnu i waredu am ddim llai na'r amcangyfrif gwerth yn ôl person sydd â chymhwyster priodol a benodwyd gan y CC at y diben hwnnw; a
- gyda chyngor person sydd â chymhwyster priodol a benodwyd gan y CC, i ymgymryd ag unrhyw drafodion tir eraill lle darperir ar gyfer cyfanswm y gydnabyddiaeth, (gan gynnwys cost gwaith addasu) neu yn achos adolygiad rhent, swm unrhyw gynnydd, yn yr amcangyfrifon a gymeradwywyd.